Mae angen cronfeydd wrth gefn i gwmpasu oedi mewn derbyniadau incwm, hawliadau grant cyflymach, costau sydd y tu hwnt i'n rheolaeth, ac i sicrhau cyllid parhaus i'r diwydiant adeiladu, yn unol â'n hamcanion elusennol. Maent hefyd yn ofynnol yn benodol i ariannu ein gofynion cyfalaf gweithio yn ystod y misoedd cyntaf o bob blwyddyn ariannol nes bod y Lefi yn dechrau cael ei chasglu, yn bennaf trwy ddeg rhandaliad Debyd Uniongyrchol misol.

Mae Cronfeydd Wrth Gefn Cyffredinol ar 31 Mawrth 2025 yn £78.9m (2023-24: £95.2m). Er eu bod yn parhau i leihau, mae'r Bwrdd yn cydnabod bod ein Cronfeydd Wrth Gefn yn dal yn uwch na'n lefel isafswm polisi o £50m. Roedd y gostyngiad o £16.3m yn £2.2m yn fwy na'r disgwyl, ac yn golygu ein bod yn gallu cefnogi anghenion sgiliau a hyfforddiant y diwydiant ymhellach eleni, ac i ddefnyddio'r derbyniad Lefi a ddaliodd yn ystod y pandemig, a phan oedd diffyg galw am grantiau hyfforddi a chyllid a arweiniodd at y croniad arian parod.

Cydnabyddir bod galw'r diwydiant am sgiliau a hyfforddiant yn gylchol ac yn adlewyrchu amodau economaidd. Mae ein Cynllun Busnes 2025-26 yn parhau i gynllunio ar gyfer gostyngiad yn ein Cronfeydd Wrth Gefn, ac rydym yn disgwyl bod yn agos at waelod ein polisi Cronfeydd Wrth Gefn o £50m erbyn 31 Mawrth 2026. ●

*Mae prentisiaid bellach yn cynnwys presenoldeb a chyflawniadau lle dim ond presenoldeb oedd wedi'i gynnwys o'r blaen

**Roedd cymwysterau galwedigaethol yn flaenorol yn cynnwys cyflawniad prentisiaeth, cymwysterau cyfnod byr a chymwysterau galwedigaethol prentisiaeth, ac mae bellach yn cynnwys cymwysterau cyfnod hir, grantiau profiad gwaith/i mewn i waith, crefftau uwch yr Alban, cymwysterau byr, a chymwysterau peiriannau.

ADOLYGIAD ARIANNOL 3 / 3

## TABL 2: DYRANIAD ADNODDAU

| MATH O ADNODD | 2024-25 | 2023-24 |
|---|---|---|
| **Incwm y Lefi** | **£228.1m** | **£202m** |
| **Cynllun Grantiau** | **£129.8m** | **£128.6m** |
| Grantiau Prentisiaethau | £77.4m | £77.9m |
| Grantiau Cymwysterau | £21.3m | £18.6m |
| Grantiau Cyfnod Byr | £31.1m | £32.1m |
| **Cyllid** | **£53.4m** | **£27.1m** |
| Cronfa Sgiliau a Hyfforddiant | £13.6m | £12m |
| Cyllid cymorth i gyflogwyr a'r diwydiant | £39.8m | £15.1m |

## CYNLLUNIAU AR GYFER Y DYFODOL

Mae ein Cynllun Busnes 2025-26 yn nodi ein cynlluniau manwl ar gyfer y flwyddyn nesaf ac yn amlinellu'r rheini ar gyfer y tair blynedd nesaf wrth i ni flaenoriaethu buddsoddiad yn erbyn gwella'r system sgiliau, gan ganolbwyntio ar roi'r sylfeini yn eu lle fel y gall cyflogwyr ac unigolion gael mynediad at yr hyfforddiant cywir, yn y lle cywir ac ar yr amser cywir iddyn nhw. Yn ei hanfod, mae'r Cynllun yn adlewyrchu pwrpas CITB, gan ddangos sut y byddwn yn "cefnogi'r diwydiant adeiladu i gael gweithlu medrus, cymwys a chynhwysol, nawr ac yn y dyfodol" drwy:

- Hysbysu a galluogi pobl amrywiol a medrus i mewn i adeiladu
- Datblygu system hyfforddi a sgiliau i ddiwallu anghenion y presennol a'r dyfodol
- Cefnogi'r diwydiant i hyfforddi a datblygu ei weithlu.

Bydd y tair blaenoriaeth allweddol hyn yn effeithio ar bob rhan o'r biblinell dalent, o ysbrydoli pobl newydd - hen ac ifanc - i ddewis adeiladu fel eu gyrfa, hyd at gadw a gwella sgiliau'r dalent bresennol yn y diwydiant.

Ar 16 Medi 2025, gwnaeth y Prif Weinidog ddatganiad gweinidogol ysgrifenedig i gyhoeddi newid i strwythur y Llywodraeth a fydd yn effeithio ar CITB. Bydd cyfrifoldeb am brentisiaethau, addysg bellach i oedolion, sgiliau, hyfforddiant a gyrfaoedd, a Skills England, yn symud o'r Adran Addysg i'r Adran gwaith a Phensiynau. Nid oes gan y newid unrhyw effaith ar yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon hyn. ●

### Ein Pwrpas

"cefnogi'r diwydiant adeiladu i sicrhau gweithlu medrus, cymwys a chynhwysol, heddiw ac yn y dyfodol."

ADRAN 4

# Strwythur, Rheolaeth a Llywodraethu

Tudalennau 26 i 49

# Strwythur

## Mae Bwrdd CITB yn cynnwys cyfarwyddwyr anweithredol, a elwir yn Ymddiriedolwyr, i gydnabod statws elusennol CITB.

Am y cyfnod 2024-25, ac yn unol â gofynion statudol, parhaodd y Bwrdd i gynnwys mwyafrif o Ymddiriedolwyr cyflogwyr, gyda chefnogaeth Ymddiriedolwyr annibynnol.

Cefnogir y Bwrdd gan y tîm Gweithredol a'r pum Pwyllgor Bwrdd sefydlog canlynol:

- Pwyllgor Archwilio a Risg
- Pwyllgor Cyllid Diwydiant
- Pwyllgor Enwebiadau, Penodiadau a Chyflogau
- Pwyllgor Strategaeth y Lefi
- Pwyllgor NCC a Phrentisiaethau.

Yn ogystal â'i Bwyllgorau ffurfiol, mae'r Bwrdd yn elwa o fewnwelediad strategol ac adborth a ddarperir gan dri Chyngor Cenedl - Lloegr, yr Alban a Chymru - sy'n chwarae rhan allweddol wrth sicrhau bod safbwyntiau lleol a rhanbarthol yn llywio gwneud penderfyniadau cenedlaethol.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn gyfrifol am osod cyfeiriad strategol lefel uchel CITB. Mae'r sefydliad yn gweithredu o dan Gynllun Dirprwyo a Chynllun Cadw Bwrdd wedi'i ddiffinio'n glir, sy'n amlinellu penderfyniadau a gedwir i'r Bwrdd a'r rhai a ddirprwywyd i'w Bwyllgorau. Mae pob awdurdod arall wedi'i ddirprwyo i'r Prif Swyddog Gweithredol (CEO), a all yn ei dro ddirprwyo swyddogaethau a phenderfyniadau penodol i uwch swyddogion eraill o fewn y sefydliad.

Mae Bwrdd CITB yn gweithredu yn unol â'r Cod Ymarfer Da ar gyfer Llywodraethu Corfforaethol mewn Adrannau Llywodraeth Ganolog, wedi'i addasu'n briodol i fodloni rhwymedigaethau statudol ac elusennol CITB. Yr unig eithriad i gydymffurfiaeth lawn yw'r Ddogfen Fframwaith bwrpasol a gytunwyd rhwng CITB a'r Adran Addysg, sy'n adlewyrchu statws elusennol CITB. Mae'r ddogfen hon yn cael ei chwblhau ar hyn o bryd.

Yn ogystal, mae'r Bwrdd yn glynu wrth egwyddorion y Cod Llywodraethu Elusennau, gan sicrhau safonau uchel o ran arweinyddiaeth, uniondeb ac atebolrwydd. •

YMDDIRIEDOLWYR 1 / 3

# Ymddiriedolwyr

**AM Y CYFNOD 2024-25, ROEDD BWRDD CITB YN CYNNWYS:**

**SYR PETER LAUENER**
KBE, CB (Cadeirydd CITB)

**TONY ELLIOTT**
(daeth ei gyfnod i ben 21 Mehefin 2024)

**LOUISA FINLAY**
(ymddiswyddodd 31 Ionawr 2025)

**MICHAEL GREEN**

**OWAIN JONES**

**KEVIN MCLOUGHLIN**

**HOLLY PRICE**

**SOPHIE SEDDON**

**HERMAN KOK**
(dechreuodd ei gyfnod 1 Ebrill 2024)

**RACHAEL CUNNINGHAM**
(dechreuodd ei chyfnod 1 Ebrill 2024)

**STEPHEN GRAY**
(dechreuodd ei gyfnod 1 Ebrill 2024)

**JULIA HEAP**
(dechreuodd ei chyfnod 1 Ebrill 2024)

**NIKKI DAVIS**
(dechreuodd ei chyfnod 1 Ebrill 2024)

YMDDIRIEDOLWYR 2 / 3

Fel y nodir yn Atodlen 1 o Ddeddf Hyfforddiant Diwydiannol 1982, penodir aelodau'r Bwrdd gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn dilyn proses benodi gyhoeddus a lywodraethir gan Swyddfa Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus (OCPA), gan gynnwys hysbysebu swyddi gwag ar wefan Penodiadau Cyhoeddus Llywodraeth y DU **(https://apply-for-public-appointment.service.gov.uk/roles)**

Er bod gan yr Ysgrifennydd Gwladol y disgresiwn i bennu hyd cyfnod Ymddiriedolwyr, y tymor arferol yw pedair blynedd, gyda'r posibilrwydd o ailbenodi am bedair blynedd arall. Trwy eithriad, gellir caniatáu trydydd tymor yn olynol, er bod rhagdybiaeth gref na ddylai unrhyw unigolyn wasanaethu mewn swydd am fwy na deng mlynedd.

Cadeirydd y Bwrdd yw Syr Peter Lauener KBE, CB, a benodwyd ar 1 Mai 2018 ac a ailbenodwyd ar 1 Mai 2022 i wasanaethu ail dymor. Nid yw'r Ymddiriedolwyr, ac eithrio'r Cadeirydd, yn cael eu talu ond yn cael ei ad-dalu am dreuliau rhesymol. Dewisir Ymddiriedolwyr am eu profiad lefel uwch, yn bennaf o fewn y diwydiant adeiladu, ac maent yn dod ag ystod eang o sgiliau, cefndiroedd a mewnwelediadau. Yn ogystal â chynrychiolwyr y diwydiant, mae Ymddiriedolwyr annibynnol yn cyfrannu arbenigedd pellach, gan sicrhau Bwrdd cytbwys a galluog.

I gefnogi cyflwyno pumed Pwyllgor Bwrdd sefydlog – y Pwyllgor NCC a Phrentisiaethau – ac i gryfhau cynllunio olyniaeth, cynyddwyd aelodaeth y Bwrdd o 11 i 13 Ymddiriedolwr yn ystod blwyddyn ariannol 2024-25. Yn dilyn y broses recriwtio gyhoeddus, penodwyd pump o Ymddiriedolwyr newydd, sef Herman Kok, Rachael Cunningham, Stephen Gray, Julia Heap a Nikki Davis i Fwrdd CITB ar 1 Ebrill 2024.

Mae pob Ymddiriedolwr newydd yn mynd trwy broses sefydlu gynhwysfawr a hwylusir gan dîm Llywodraethu CITB, gyda hyfforddiant ffurfiol ac anffurfiol parhaus yn cael ei ddarparu. Mae'r Ymddiriedolwyr hefyd yn cynnal cyswllt rheolaidd ag aelodau'r tîm Gweithredol mewn perthynas â materion y Bwrdd, y Pwyllgor, a Chynghorau'r Gwledydd. →

Mae rhagor o wybodaeth am Fwrdd yr Ymddiriedolwyr ar gael ar ein gwefan: **https://www.citb.co.uk/cy-gb/ynglŷn-â-citb/pobl-a-llywodraethu/ein-bwrdd/**

YMDDIRIEDOLWYR 3 / 3

## PERFFORMIAD Y BWRDD

Bob tair blynedd, rydym yn comisiynu adolygiad allanol o effeithiolrwydd y Bwrdd. Dechreuodd yr un nesaf o'r rhain ym mis Ebrill 2025 a disgwylir cyflwyno'r canlyniadau i'r Bwrdd ym mis Tachwedd 2025. Mae'r cylch adolygu hwn hefyd yn cael ei ategu gan adolygiadau effeithiolrwydd mewnol blynyddol o'r Bwrdd, ei Bwyllgorau, a Chynghorau'r Gwledydd. Mae'r cysylltedd rhwng y grwpiau llywodraethu hyn yn parhau i gryfhau. Yn ystod y cyfnod 2024-25, cynigiwyd cyfleoedd hyfforddi perthnasol i aelodau'r Bwrdd a'r Pwyllgor i'w helpu i gyflawni eu cyfrifoldebau llywodraethu, sy'n cynnwys dwyn CITB i gyfrif wrth gyflawni ei bwrpas: "Cefnogi'r diwydiant adeiladu i gael gweithlu medrus, cymwys a chynhwysol, nawr ac yn y dyfodol". Yn ogystal, cynhelir gwerthusiad blynyddol o Gadeirydd y Bwrdd gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol dros Sgiliau yn yr Adran Addysg, tra bod gwerthusiadau unigol o Ymddiriedolwyr a Chadeiryddion Cynghorau'r Gwledydd yn cael eu cynnal gan Gadeirydd y Bwrdd.

Cyfarfu'r Bwrdd wyth gwaith yn 2024-25 ac ystyriodd faterion allweddol megis canlyniadau Adolygiad ITB, y Gorchymyn Lefi tair blynedd a Chynllun Busnes 2025-26 a mireinio'r Cynllun Strategol i gyrraedd targedau adeiladu tai newydd Llywodraeth y DU. Goruchwyliodd y Bwrdd hefyd fireinio Cynllun Strategol CITB 2025-29, gyda ffocws penodol ar alinio buddsoddiadau CITB â chenadaethau Llywodraeth y DU.

Roedd hyn yn cynnwys ehangu cefnogaeth i alwedigaethau blaenoriaeth mewn adeiladu tai, dyfnhau cydweithrediad â darparwyr addysg bellach a chyflogwyr, a gwella mynediad at brentisiaethau a datblygu sgiliau ar gyfer y gweithlu adeiladu tai. Mae'r addasiadau hyn wedi'u cynllunio i sicrhau bod CITB yn parhau i fod yn hyblyg ac yn ymatebol i anghenion esblygol y diwydiant wrth gynnal ei gyfrifoldebau elusennol a statudol.

Yn ogystal â'i gyfrifoldebau strategol a goruchwylio, parhaodd y Bwrdd i fonitro perfformiad a risg trwy ei bum Pwyllgor, gan sicrhau craffu a llywodraethu cadarn ar draws pob maes gweithgaredd. ●

LLYWODRAETHU 1 / 8

# LLYWODRAETHU

## PWYLLGOR ARCHWILIO A RISG (ARC)

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn bwyllgor o'r Bwrdd sy'n cefnogi arweinyddiaeth strategol y Bwrdd gyda goruchwyliaeth gorfforaethol o strategaeth a pherfformiad. Mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am sicrhau bod y Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifyddu yn cael y sicrwydd sydd ei angen arnynt ynghylch digonolrwydd ac effeithiolrwydd trefniadau CITB ar gyfer llywodraethu, rheoli risg, a rheolaeth fewnol. O fewn hyn, mae'r Pwyllgor yn ymgysylltu â Phennaeth Archwilio a Risg, gwaith yr archwilydd allanol (y Swyddfa Archwilio Genedlaethol), materion adrodd ariannol, materion iechyd, diogelwch a lles, ac yn adolygu polisïau corfforaethol allweddol yn flynyddol i'w hargymell i'r Bwrdd i'w cymeradwyo. Cynhaliwyd pum cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn ystod 2024-25.

Mae gan y Pwyllgor ddau aelod Ymddiriedolwr. Cadeiriodd Syr Peter Lauener KBE, CB un cyfarfod fel Cadeirydd dros dro, gyda Julia Heap yn cymryd y Gadair o fis Gorffennaf 2024. Mae'r Pwyllgor yn elwa o gyfraniad dau aelod allanol, sy'n dod â dyfnder ychwanegol o brofiad ac arbenigedd o archwilio mewnol a chyllid. Yn ogystal, mae arsylwyr a mynychwyr eraill o'n partneriaid cyflawni Archwilio Mewnol (Grant Thornton), yr Adran Noddi (DfE), a'r tîm Archwilio Allanol o'r NAO yn cyfrannu at ehangder a chadernid y craffu a'r drafodaeth.

## RISG

Mae proses rheoli risg strategol a gweithredol wedi bod ar waith drwy gydol y flwyddyn. Rhoddodd adroddiadau rheolaidd ar risgiau sicrwydd i'r Pwyllgor fod risgiau'n cael eu nodi, eu hasesu a'u rheoli'n briodol yn erbyn y goddefiannau a osodwyd gan y Bwrdd. Lle nodwyd risgiau fel rhai a oedd yn fwy na'r lefelau goddefadwy, ystyriwyd cynlluniau gweithredu cysylltiedig a baratowyd gan y rheolwyr, a monitrwyd cynnydd i ddod â'r risg o fewn y goddefiant.

## LLYWODRAETHU

Cefnogodd y Pwyllgor waith y Bwrdd wrth adolygu ei Bolisi Rheoli Risg. Gan gynnal ei ffocws ar risgiau allweddol a gweithredu mesurau lliniaru risg, cynhaliodd y Pwyllgor ymchwiliadau manwl i sawl maes risg uchel, gan gynnwys seiberddiogelwch, llywodraethu gwybodaeth, parhad busnes, delio â chwynion, a lliniaru'r risg o dwyll. Monitrodd y Pwyllgor iechyd, diogelwch a llesiant ar draws CITB hefyd. →

LLYWODRAETHU 2 / 8

## ARCHWILIAD MEWNOL

Cymeradwyodd y Pwyllgor y rhaglen waith archwilio mewnol a chadw'r cynllun dan adolygiad a chymeradwyodd welliannau yn ystod y flwyddyn. Cwblhawyd cynllun llawn 2024-25, ac eithrio gohirio archwiliad a gynlluniwyd ar y broses ar gyfer nodi a rheoli dibyniaethau ar draws rhaglenni newid, prosiectau a mentrau, oherwydd cytunwyd y byddai'n fwy priodol a buddiol cynnal archwiliad yn ddiweddarach unwaith y byddai'r Swyddfa Bortffolio Ganolog newydd wedi'i sefydlu'n llawn ac yn gweithredu am gyfnod cyn penderfynu ar ofynion yr archwiliad.

Rhoddodd gwaith archwilio mewnol sicrwydd i'r Pwyllgor ar draws ystod eang o feysydd, gan gynnwys, er enghraifft, cofrestru ar gyfer y Lefi, y broses ar gyfer datblygu Fframweithiau Cymhwysedd, seiberddiogelwch, rheolaethau cyflogres a chyn-gyflogaeth AD, rheoli contractau, a rheolaethau i wrthsefyll y risg o dwyll. Monitrwyd effeithiolrwydd gweithgareddau archwilio mewnol trwy dderbyn a thrafod adroddiadau cynnydd gan y Pennaeth Archwilio a Risg ym mhob cyfarfod, gan nodi canfyddiadau pob archwiliad a'r camau gweithredu yr oedd y rheolwyr wedi cytuno i'w cymryd mewn ymateb. Nododd yr adroddiad archwilio gwreiddiol ar wiriadau cyn-gyflogaeth rai camau gweithredu allweddol yr oedd eu hangen, ac yn dilyn hynny derbyniodd y Pwyllgor adroddiad dilynol yn cadarnhau'r cynnydd a wnaed wrth weithredu'r rheini yn ystod y flwyddyn. Bydd y Pwyllgor yn parhau i fonitro cwblhau camau gweithredu y cytunwyd arnynt mewn ymateb i argymhellion archwilio, a'r asesiad diwygiedig o risg a rheolaethau sy'n deillio o archwiliadau pellach yn 2025-26.

Adolygodd y Pwyllgor hefyd ofynion y Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang (GIAS) newydd sy'n gymwys o 1 Ebrill 2025 a chytunodd fod y trefniadau ar gyfer archwilio mewnol yn CITB yn bodloni'r amodau hanfodol a nodwyd yn y GIAS.

Derbyniodd a chymeradwyodd y Pwyllgor farn flynyddol Pennaeth Archwilio a Risg fod systemau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol CITB yn gyffredinol foddhaol, a bod hwn yn gasgliad gwell o'i gymharu â'r ddwy flynedd ddiwethaf sy'n adlewyrchu cryfhau rheolaethau rheolwyr mewn meysydd gan gynnwys prentisiaethau a pharhad busnes.

## ARCHWILIAD ALLANOL

Cynhaliwyd yr archwiliad allanol statudol o'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon 2023-24 gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar ran y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol, yn unol â gofynion Deddf Hyfforddiant Diwydiannol 1982. Mynychodd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol bob un o bum cyfarfod y Pwyllgor yn 2024-25. Darparwyd adroddiad diweddaru ar gyfer pob cyfarfod Pwyllgor, a galluogodd adroddiad archwilio interim y Pwyllgor i ddeall cynnydd tuag at gwblhau'r archwiliad, gan gynnwys materion i'w hadolygu ymhellach. Adolygodd y Pwyllgor y Cynllun Archwilio cyn dechrau'r archwiliad ac adolygodd yr Adroddiad Archwilio a'r canfyddiadau. Derbyniodd CITB ardystiad diamod ar gyfer y flwyddyn 2023-24, ac mae'r Pwyllgor yn parhau i fonitro gweithrediad argymhellion y Llythyr Rheoli ac ymatebion y rheolwyr i ganfyddiadau'r archwiliad.

Mae CITB hefyd yn derbyn sicrwydd ychwanegol gan gyrff allanol eraill ar weithgareddau a/neu swyddogaethau penodol, gan gynnwys gan Estyn ar gyfer NCC a phrentisiaethau, a chan Sefydliad Safonau Prydain (BSI), lle mae gan CITB safonau achrededig, e.e. mewn iechyd, diogelwch a llesiant.→

LLYWODRAETHU 3 / 8

## PWYLLGOR ENWEBIADAU, PENODIADAU A CHYFLOGAU (NARCO)

Mae'r Pwyllgor Enwebiadau, Penodiadau a Chyflogau (NARCO) yn cefnogi'r Bwrdd i gyflawni ei gyfrifoldebau mewn perthynas â chynigion ynghylch cynlluniau tâl a bonws, strategaeth pobl a diwylliant CITB, trefniadau pensiwn, penodiadau uwch, ymadawiadau, a pholisi ac arfer AD allweddol ar draws y sefydliad. Mae gan y Pwyllgor bedwar aelod Ymddiriedol. Cadeirydd y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn hon oedd Tony Elliott o fis Ebrill i fis Mehefin 2024, Louisa Finlay o fis Mehefin 2024 i fis Ionawr 2025, a Nikki Davis o fis Chwefror 2025. Cyfarfu'r Pwyllgor bum gwaith a rhoddodd gyngor i'r Bwrdd ynghylch dyfarniadau cyflog priodol, rheoli perfformiad, a'r Strategaeth Pobl.

Un o brif ffocysau'r Pwyllgor yn 2024-25 oedd datblygu fframwaith gwobrau cyflawn CITB i ddenu, recriwtio a chadw'r dalent orau trwy gefnogi iechyd a lles cydweithwyr, a gwobrwyo perfformiad gwych. Parhaodd y Pwyllgor i fonitro'r broses dyfarnu cyflog flynyddol yn unol ag egwyddorion meincnodi cytunedig CITB, yn ogystal â chanlyniadau a chamau gweithredu'r arolwg ymgysylltu cydweithwyr blynyddol.

Ym mis Awst 2024, penododd NARCO Nadine Pemberton Jn Baptiste o fod yn Gyfarwyddwr Gweithredol dros dro i fod yn Gyfarwyddwr Gweithredol parhaol ar gyfer Cyfreithiol, Llywodraethu a Chydymffurfiaeth.

Argymhellodd NARCO hefyd i'r Bwrdd benodi Martyn Osborne yn Gadeirydd Cyngor Cenedl Cymru o fis Ebrill 2025 yn dilyn diwedd cyfnod Leigh Hughes.

Cymeradwyodd y Pwyllgor y penderfyniad i fewnosod ystod o swyddogaethau AD CITB fel rhan o gynllun cyffredinol i fewnosod nifer o wasanaethau sydd ar hyn o bryd yn cael eu hallosod. Bydd y newid yn cael ei wneud yn raddol dros y ddwy flynedd nesaf a bydd y Pwyllgor yn monitro'r cynllun gweithredu ar gyfer mewnoli.

Bydd cynllunio olyniaeth ar gyfer rolau Cyfarwyddwr Gweithredol ac uwch arweinyddiaeth yn parhau i fod yn ffocws i NARCO. Yn ogystal, mae NARCO yn parhau i gefnogi'r tîm Gweithredol i ymgorffori gwerthoedd a diwylliant CITB trwy feithrin gweithlu sy'n cael ei arwain gan gwsmeriaid, sy'n gynhyrchiol ac yn ymgysylltiedig i gefnogi pwrpas a gweledigaeth CITB. →

LLYWODRAETHU 4 / 8

## PWYLLGOR CYLLID DIWYDIANT (IFC)

Mae'r IFC yn gorff gwneud penderfyniadau sydd ag awdurdod dirprwyedig gan y Bwrdd i awdurdodi cyllid diwydiant o hyd at £5m ar gyfer unrhyw gomisiwn neu brosiect cyllido sengl. Ei brif rôl yw cefnogi'r Bwrdd i fabwysiadu strategaeth gyllido sy'n cyd-fynd ag amcanion strategol CITB, monitro cyflawniad ac effaith y strategaeth honno, a gwneud argymhellion i'r bwrdd yn ôl yr angen.

Yn ystod 2024-25, canolbwyntiodd y Pwyllgor ar adolygu cynigion cyllido sy'n gysylltiedig â'r Cynllun Strategol a'r Cynllun Busnes blynyddol. Roedd pob dyraniad cyllideb drwy grantiau, cronfeydd a chomisiynau yn destun adolygiad gan y Pwyllgor. Rhoddwyd sylw arbennig i sicrhau cyd-fynd rhwng dyraniadau cyllido a chanlyniadau disgwyliedig, ac asesu effaith ddisgwyliedig buddsoddiadau.

Archwiliodd cyfres o drafodaethau manwl werth cymharol wahanol ymyriadau cyllido, egwyddorion ychwanegolrwydd, ac enillion ar fuddsoddiad. Yn seiliedig ar y trafodaethau hyn, gwnaeth y Pwyllgor argymhellion i'r Bwrdd ynghylch blaenoriaethau buddsoddi ar gyfer Cynllun Strategol 2025-29 a Chynllun Busnes 2025-26. Cafodd y cynigion a gymeradwywyd gan y Bwrdd eu llunio'n sylweddol gan ganllawiau'r Pwyllgor. Cafodd penderfyniadau eu llywio gan ymgynghoriadau â'r diwydiant a'r cyd-destun polisi ac economaidd ehangach, yn enwedig ffocws Llywodraeth y DU ar adeiladu tai a'i chais am fuddsoddiad wedi'i dargedu yn y maes hwn.

Drwy gydol y flwyddyn, defnyddiodd aelodau'r Pwyllgor ddata meintiol ac ansoddol, megis dangosfyrddau perfformiad ac adolygiadau manwl, i fonitro effeithiolrwydd grantiau CITB, cyllid cyflogwyr, a chomisiynau. Dilynodd y Pwyllgor gynnydd yn erbyn argymhellion yr Adolygiad Cyllido Cyflogwyr a rhoddodd fewnbwn strategol i'r mireinio parhaus o ffrydiau cyllido allweddol, yn enwedig Cronfa Effaith ar Ddiwydiant a Chyllid Rhwydwaith Cyflogwyr. Dirprwywyd awdurdod i aelod y Pwyllgor Hannah O'Sullivan i gefnogi gwneud penderfyniadau ar gynigion gwerth uchel i Gronfa Effaith ar Ddiwydiant.

**Mae Pwyllgor Cyllid y Diwydiant yn gorff gwneud penderfyniadau sydd ag awdurdod dirprwyedig gan y Bwrdd**

Yn ogystal â'i oruchwyliaeth gyllido strategol, rhoddodd y Pwyllgor gefnogaeth gref i symleiddio sianeli cyllido a hyrwyddo buddsoddiad hyfforddiant tymor hwy trwy fecanweithiau amgen. Cynigiwyd canllawiau penodol ar ddatblygu Rwydweithiau Cyflogwyr a rôl esblygol Grwpiau Hyfforddi. Cymeradwyodd y Pwyllgor fuddsoddiad gwell (hyd at 100%) ar gyfer hyfforddiant 'gwerth uchel' a ddarperir trwy Rwydweithiau Cyflogwyr. Caniataodd y fenter hon i'r Pwyllgor asesu effaith cymhellion cynyddol a sicrhau mynediad teg i fusnesau o bob maint.

Parhaodd Holly Price i wasanaethu fel Cadeirydd, gan weithio'n agos gydag aelodau'r Pwyllgor i wneud penderfyniadau ariannu ar ran y Bwrdd. Yn ystod y flwyddyn ariannol, cwblhaodd Steve Drury a Rupert Perkins eu cyfnodau a chawsant eu holynu gan Sarah Garry a Mark Wharton, y ddau â chyfoeth o brofiad yn y diwydiant. Mae cyfansoddiad presennol y Pwyllgor yn adlewyrchu trawstoriad eang o'r diwydiant adeiladu, gan sicrhau bod penderfyniadau ariannu yn ystyried anghenion amrywiol busnesau ar draws y diwydiant. →

LLYWODRAETHU 5 / 8

## PWYLLGOR STRATEGAETH Y LEFI (LSC)

Mae'r Pwyllgor Strategaeth y Lefi yn gwneud argymhellion i'r Bwrdd ar faterion sy'n ymwneud â chyfeiriad strategol y system Lefi. Mae hyn yn cynnwys amcan allweddol i gynnal maes chwarae teg i bob cyflogwr cofrestredig CITB.

Yn dilyn y penderfyniad i ohirio'r broses Gonsensws am flwyddyn yn 2023, er mwyn caniatáu i adolygiad Llywodraeth y DU o CITB ac ECITB redeg ei gwrs ac i unrhyw argymhellion canlyniadol gael eu hadlewyrchu yn Strategaeth CITB, ffocws y Pwyllgor yn ystod y cyfnod hwn oedd datblygu'r Cynigion Lefi tair blynedd ar gyfer 2026-29. Byddai'r cynigion hyn yn sail i Gonsensws ddechrau 2025 a'r Gorchymyn Lefi dilynol i'w drafod gan y Senedd ddechrau 2026.

Gweithiodd y Pwyllgor yn galed i geisio ymgorffori dau newid mawr i'r Lefi yn eu Cynigion: yn gyntaf, edrych i gynnwys taliadau i Gyflenwyr Llafur yn y cyfrifiad Lefi ac yn ail gwneud newidiadau i amserlen talu'r Lefi i leihau'r bwlch rhwng y taliadau Lefi sy'n cael eu gwneud i weithwyr a'r Lefi sy'n cael ei thalu ar y taliadau hyn. Yn anffodus, ni chafodd y naill na'r llall ei ddatblygu'n ddigonol i'w cynnwys mewn cynigion ar gyfer 2026 (oherwydd diffyg data a chostau o ansawdd), ond mae'r ddau'n parhau i fod yn feysydd byw ar gyfer ymchwil bellach a gweithredu posibl yn y dyfodol.

Yn lle hynny, argymhellodd y Pwyllgor Gynigion Lefi i'r Bwrdd (ac wedi hynny i'r Adran Addysg) a oedd yn adlewyrchu'r cynnydd sylweddol mewn cyflogau a brofir yn y diwydiant, nawr ac i gyfnod Gorchymyn Lefi 2026. Cadwodd y cynigion y cyfraddau Lefi ar lefelau 2025 ond cynyddodd y Trothwyon Esemptiad a Gostyngiad Lefi yn unol â chwyddiant cyflog disgwyliedig erbyn 2028-29. Ar ôl iddynt gael eu cymeradwyo gan y Senedd yn 2026, byddant yn cael eu defnyddio ar gyfer yr Asesiadau Lefi a godwyd ym mis Ebrill 2026.

Yn ystod y cyfnod hwn, mae'r Pwyllgor hefyd wedi:

- Goruchwylio gweithrediad llwyddiannus datganiad diwygiedig a chryfach yn mynegi gwrthwynebiad i'r arfer o Drosglwyddo'r Lefi gan rai contractwyr i'w his-gontractwyr, ynghyd â chyflwyno mecanwaith ar-lein dienw i'r rhai yr effeithir arnynt gan drosglwyddo, i roi gwybod am hyn i CITB
- Archwilio amrywiol atebion i leihau Osgoi Lefi gan gynnwys gwella'r broses gofrestru a'i gwneud hi'n haws cwblhau'r ffurflen Lefi flynyddol yn gywir
- Dechrau gweithio i gytuno ar weledigaeth hirdymor a nodau strategol ar gyfer y Lefi yn ogystal â chefnogi datblygiad Cynllun Strategol y Lefi ar gyfer 2026-29.

Ar hyn o bryd mae gan y Pwyllgor ddeg aelod, gan gynnwys dau Ymddiriedolwr. Disodlodd Rachael Cunningham Diana Garnham fel Cadeirydd a llenwodd Herman Kok y swydd wag flaenorol fel ail Ymddiriedolwr ar y Pwyllgor. Mae'r aelodau eraill yn cynnwys pum cynrychiolydd arall o gyflogwyr sydd wedi'u cofrestru ar gyfer y Lefi a thri aelod annibynnol.

Yn ystod y flwyddyn, ymddiswyddodd Ken Miller fel aelod Cyngor Cenedl yr Alban ar y Pwyllgor. Cymerwyd lle Ken gan Craig Bruce a ymunodd â'r pwyllgor ar 5 Mehefin 2025. Mae gan y Pwyllgor gymysgedd da o gynrychiolwyr o'r tair gwlad yn ogystal â meintiau a chrefftau cyflogwyr. Mae'r gymysgedd hon yn dod ag amrywiaeth o brofiad a safbwyntiau sy'n ychwanegu dilysrwydd a sicrwydd at yr argymhellion a wnaed i'r Bwrdd. →

LLYWODRAETHU 6 / 8

## PWYLLGOR COLEG ADEILADU CENEDLAETHOL A PHRENTISIAETHAU (NCC&AC)

Yn ystod 2024-25, goruchwyliodd y Pwyllgor y newid o raglenni trawsnewid mawr ar gyfer y Coleg Adeiladu Cenedlaethol a Phrentisiaethau'r Alban i fodelau gwiethredu busnes fel arfer sy'n gwella'n barhaus ac ay'n perfformio'n uchel. Roedd yr effaith yn amlwg mewn ymweliad monitro llwyddiannus gan Ofsted yr NCC ym mis Mai 2024 a pherfformiad cryf yn erbyn KPIs ar gyfer darpariaeth prentisiaethau'r NCC a CITB yn yr Alban.

Goruchwyliodd y Pwyllgor hefyd ddatblygiad strategaeth newydd ar gyfer yr NCC, yn canolbwyntio ar ragoriaeth, twf ac arweinyddiaeth flaenllaw, ochr yn ochr â chynlluniau i fuddsoddi yng nghampws De'r NCC (Erith).

Mae Michael Green bellach wedi ymgartrefu yn ei rôl fel Cadeirydd y Pwyllgor gan sicrhau bod trafodaethau'n canolbwyntio ar ei bwrpas. Ymddiswyddodd Tony Elliott fel aelod Ymddiriedol pan ddaeth ei dymor fel Ymddiriedolwr CITB i ben ym mis Mehefin 2024 ond mae wedi'i gadw fel aelod annibynnol i ddarparu persbectif Albanaidd. Ymunodd Nikki Davis â'r Pwyllgor fel aelod Ymddiriedolwr ar ôl dod yn Ymddiriedolwr y CITB ym mis Ebrill 2024, gan ddod â mewnwelediad gwerthfawr o'r sector addysg bellach. Mae Owain Jones yn parhau i fod yn aelod o'r Ymddiriedolwr, gan barhau i gynnig y persbectif Cymreig.

Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd dwy swydd wag ar y Pwyllgor a phenodwyd dau aelod newydd, Nicola Bird a Jawahar Hingorani ym mis Mehefin 2025 i lenwi'r swyddi gwag.

## CYNGHORAU'R GWLEDYDD

Mae Cynghorau'r Gwledydd yn parhau i fod yn hanfodol wrth lunio dyfodol adeiladu ledled Prydain Fawr, gan gynnig canllawiau strategol i'r Bwrdd i wella gallu'r diwydiant i fodloni ei ofynion sgiliau.

Amcanion y tri Chyngor Cenedl yw:

- Rhoi cipolwg ar yr heriau a'r cyfleoedd i'r genedl y mae'n ei chynrychioli
- Llywio a dylanwadu ar y Bwrdd ar ddatblygu a chyflawni'r Cynllun yn effeithiol gan annog addasiadau i'r ddarpariaeth i adlewyrchu digwyddiadau a/neu newidiadau annisgwyl sy'n effeithio ar y genedl a/neu'r diwydiant yn fwy cyffredinol
- Trafod a chynnig her adeiladol mewn perthynas â dyraniad adnoddau arfaethedig yn erbyn blaenoriaethau diwydiant cystadleuol ledled Prydain Fawr
- Rhoi persbectif cenedlaethol ar fylchau sgiliau adeiladu yn erbyn anghenion rhagolwg y cytunwyd arnynt. →

LLYWODRAETHU 7 / 8

## CYNGOR CENEDL LLOEGR

Cynghorodd a chefnogodd Cyngor Cenedl Lloegr weithgareddau CITB o lunio blaenoriaethau penodol i'r genedl i sicrhau bod darpariaeth weithredol yn adlewyrchu anghenion penodol Lloegr. Un o'i brif ymgymeriadau oedd llywio cynhyrchu Cynllun Cenedl Lloegr, gan nodi blaenoriaethau clir a chefnogaeth dargedig ar gyfer y sector. Datblygodd yr aelodau fesurau perfformiad hefyd sy'n cysylltu amcanion ledled Prydain Fawr â dangosyddion Lloegr yn unig, gan roi mwy o eglurder ar gynnydd a chanlyniadau.

Roedd rhan sylweddol o flwyddyn y Cyngor yn cynnwys cynghori ar Broses Gonsensws 2025. Roedd hyn yn cynnwys llunio cynigion ar gyfer cyfraddau a throthwyon y Lefi a sefyll yn gyhoeddus y tu ôl i'r Datganiad 'Trosglwyddo'r Lefi.' Roedd twf prentisiaethau yn bwynt cyson i gasglu gwybodaeth, gydag aelodau'n gweithio ochr yn ochr â'r Bwrdd ac uwch arweinwyr i adlewyrchu hyn yng ngweithgareddau CITB. Roedd hyrwyddo cyfleoedd ariannu CITB, o gyfleoedd fel Cronfa Effaith ar Ddiwydiant a chomisiynau byw eraill, yn rhan o weithgareddau'r Cyngor. Cyfrannodd yr ymdrechion hyn at gynnydd mewn prosiectau a ariannwyd yn Lloegr, gyda chynnydd i'w olrhain yn 2025-26.

Cadeiriwyd y Cyngor gan Sharon Llewellyn, gyda Kevin McLoughlin yn Ddirprwy Gadeirydd. Yr aelodau newydd a ymunodd yn ystod y flwyddyn oedd Matt Bridge, Joanna Poon, Sarah Garry, Sarah Barnes, Dan Clarkson, a Janette Welton-Pai. Cwblhaodd Ian Dickerson ei dymor, ac ymddiswyddodd Maria Seabright o'i rôl.

## CYNGOR CENEDL YR ALBAN

Roedd gan Gyngor Cenedl yr Alban fewnbwn i faterion polisi a gweithredol a oedd yn berthnasol i weithgareddau CITB yn yr Alban. Roedd y gwaith hwn yn cynnwys cynhyrchu Cynllun Cenedlaethol yr Alban 2024-25, a oedd yn amlinellu blaenoriaethau a chefnogaeth CITB yn yr Alban, a datblygu dangosyddion perfformiad allweddol sy'n adlewyrchu blaenoriaethau Prydain Fawr a'r genedl ac yn caniatáu adrodd ar berfformiad gweithredol ar lefel benodol i'r Alban. Cynghorodd a chefnogodd y Cyngor hefyd y Pwyllgor Strategaeth y Lefi mewn perthynas â chytuno ar gyfraddau Lefi a chynnydd trothwy i'w cyflwyno fel rhan o Broses Gonsensws 2025 ynghyd â chefnogaeth a chytundeb ar y cyd fel llofnodwyr i'r datganiad 'Trosglwyddo'r Lefi.'

Drwy gydol y flwyddyn, ailadroddodd y Cyngor bwysigrwydd darpariaeth prentisiaethau yn yr Alban a gweithiodd gyda'r Bwrdd ac aelodau uwch o staff i sicrhau bod hyn yn cael ei adlewyrchu o ran blaenoriaethau gweithredol CITB yn yr Alban. Roedd aelodau'r Cyngor hefyd yn weithgar wrth sicrhau bod cynhyrchion a gwasanaethau CITB, yn enwedig mewn perthynas â ffrydiau ariannu, gan gynnwys comisiynau cyfredol a sianeli ariannu blaenllaw, fel Cronfa Effaith ar Ddiwydiant, yn cael eu mynegi, eu mabwysiadu a'u defnyddio ledled yr Alban, gydag eitemau agenda sefydlog i gefnogi a llywio gweithgaredd ledled y genedl. Gellir gweld enghreifftiau o gefnogaeth Cyngor Cenedl yr Alban yn y maes hwn yn y cynnydd amlwg mewn gweithgaredd a ariennir yn ymwneud â'r Alban, a fydd yn cael ei fonitro a'i adrodd drwy gydol y flwyddyn ariannol sydd i ddod (2025-26).

Mae'r Cyngor wedi cefnogi rôl Ffederasiynau Adeiladu'r Alban yn weithredol trwy eu gwahodd i fynychu a chyflwyno yng nghyfarfodydd y Cyngor.

Parhaodd Angela Forbes yn ei rôl fel Cadeirydd y Cyngor, gan fynychu cyfarfodydd y Bwrdd fel arsylwr ac adrodd i Gyngor y Genedl. Recriwtiodd y Cyngor dri aelod newydd Callum Smith, Mairi Coleman a Peter Tait. Mae gan Gyngor Cenedl yr Alban ddwy swydd wag ar hyn o bryd, ac mae ymdrechion ar y gweill i recriwtio ar gyfer y swyddi gwag.

## CYNGOR CENEDL CYMRU

Parhaodd Cyngor Cenedl Cymru i fod yn llais strategol ar gyfer datblygiad diwydiant adeiladu Cymru o fewn CITB, gan helpu i lunio Cynllun Cenedl Cymru 2024-25. Nododd y Cynllun flaenoriaethau'r genedl a nododd ffurfiau penodol o gefnogaeth, wedi'u cefnogi gan set newydd o ddangosyddion perfformiad allweddol a gynlluniwyd i gofnodi amcanion a chanlyniadau cyffredin Prydain Fawr sy'n unigryw i Gymru.

Cynghorodd a chefnogodd y Cyngor Pwyllgor Strategaeth y Lefi i fireinio argymhellion ar gyfraddau a throthwyon Lefi ar gyfer Proses Gonsensws 2025, gan ymuno yn y pen draw â Chynghorau Cenedl eraill i gymeradwyo'r datganiad 'Trosglwyddo'r Lefi.'

Parhaodd prentisiaethau i fod yn faes ffocws clir, a gweithiodd y Cyngor yn agos gydag arweinyddiaeth CITB i sicrhau bod buddsoddiad a sylw yn llifo i ddarpariaeth prentisiaethau yng Nghymru. Buont hefyd yn gweithio'n weithredol i hyrwyddo ymwybyddiaeth o wasanaethau a chyllid CITB, o gomisiynau allweddol i fuddsoddiadau mawr fel Cronfa Effaith ar Ddiwydiant, gydag arwyddion calonogol o gynnydd yn y nifer sy'n manteisio arnynt ledled y wlad.

Gwasanaethodd Leigh Hughes fel Cadeirydd, gyda chefnogaeth yr Is-gadeirydd Owain Jones, sydd hefyd yn aelod o Fwrdd Ymddiriedolwyr CITB. Croesawodd y Cyngor bedwar aelod newydd, Lisa Kelly-Roberts, Martyn Osborne, Ian Morgan, a Mark Bowen, wrth baratoi ar gyfer newid arweinyddiaeth yn y flwyddyn nesaf wrth i gyfnod Leigh Hughes ddod i ben. Penodwyd Martyn Osborne yn Gadeirydd y Cyngor ym mis Ebrill pan ddaeth cyfnod Leigh yn y swydd i ben.

RHEOLI RISG 1 / 5

# RHEOLI RISG

## RHEOLI RISG

Mae ein system rheoli risg a rheolaeth fewnol wedi'i chynllunio i: reoli risgiau, gan gynnwys y risg o beidio â manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd, i lefel resymol sy'n gyson ag archwaeth risg Bwrdd CITB; gwerthuso a lliniaru'r tebygolrwydd y bydd y risgiau hynny'n digwydd a'r effaith pe baent yn cael eu gwireddu; a rheoli risgiau'n effeithlon, yn effeithiol ac yn economaidd. Mae'r system yn dilyn yr egwyddorion a nodir yn "Rheoli Risg - Trosolwg Strategol" (a elwir yn gyffredin yn "Llyfr Oren") a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF, ac mae'n ystyried canllawiau ategol, gan gynnwys y Fframwaith Rheoli Risg. Roedd y system ar waith yn ystod y flwyddyn ariannol hon a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon.

Mae'r fframwaith rheoli risg wedi'i gynllunio i gefnogi gwneud penderfyniadau gwybodus, gan helpu i sicrhau y gall CITB fanteisio ar gyfleoedd i fod yn fwy effeithiol yn ei gefnogaeth i'r diwydiant heb ddod yn agored i lefelau annerbyniol o risg. Yn ystod y flwyddyn, adolygodd a chynigiodd y Pwyllgor Archwilio a Risg ddiweddariadau i'r Polisi Rheoli Risg a'r Datganiad Archwaeth Risg, a gymeradwywyd gan y Bwrdd. Adolygodd a diweddarodd y tîm Gweithredol a'r Bwrdd y risgiau strategol i adlewyrchu newidiadau a gododd o'r Cynllun Strategol 2025-29 newydd, y camau gweithredu y cytunwyd arnynt mewn ymateb i Adolygiad yr ITB, newidiadau yn yr amgylchedd allanol a materion eraill. Yn gyffredinol, rheolir risg trwy graffu rheolaidd ar lefelau rheolwyr a thîm, a goruchwyliaeth gan y Pwyllgor Archwilio a Risg a chan y Bwrdd, sy'n derbyn diweddariadau ar risgiau strategol a risgiau gweithredu sylweddol ym mhob cyfarfod.

Mae nifer o ffynonellau'n cyfrannu at yr adolygiad o risgiau ac asesiad rheoli risg, gan gynnwys:

- Adroddiadau ac argymhellion gan y Pwyllgor Archwilio a Risg
- Yr Adroddiad Blynyddol a'r Farn gan y Pennaeth Archwilio a Risg, a chanfyddiadau ac argymhellion o adroddiadau archwilio mewnol
- Hunanasesiad yn erbyn Safonau Swyddogaethol Llywodraeth y DU gan gynnwys "Rheoli Risg – Trosolwg Strategol" (a elwir yn gyffredin yn "Llyfr Oren") ac ystyriaeth o'r Fframwaith Rheoli Risg ategol
- Canfyddiadau ac argymhellion gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol
- Datganiadau atebolrwydd blynyddol gan aelodau'r tîm Gweithredol a'r tîm Uwch Arweinyddiaeth, sy'n amlinellu'r trefniadau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol yn eu meysydd busnes
- Adroddiadau allanol ar CITB a'i brosesau a gynhyrchwyd gan sefydliadau annibynnol, fel yr Asiantaeth Ariannu Addysg a Sgiliau (ESFA), Datblygu Sgiliau'r Alban (SDS), ac Estyn
- Gofynion a chanllawiau deddfwriaethol a rheoleiddiol, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â statws elusennol. →

RHEOLI RISG 2 / 5

## Y BROSES RHEOLI RISG

Fel elusen gofrestredig, mae gennym agwedd ddoeth a chytbwys tuag at risg, gan roi pwyslais ar ein fframwaith rheoli risg a rheolaeth i reoli risg o fewn archwaeth risg y Bwrdd, a nodir yn Natganiad Archwaeth Risg y Bwrdd. Ymhlith y ffyrdd y gwnaethom reoli risgiau ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025 oedd:

- Adolygiad o'n risgiau strategol a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2024 yng ngoleuni'r Cynllun Strategol 2025-29 sy'n cael ei ddatblygu, gyda goruchwyliaeth o ddiweddariadau gan y Pwyllgor Archwilio a Risg. Caiff asesiadau o risgiau strategol ac effeithiolrwydd mesurau lliniaru eu monitro'n barhaus
- Hefyd, nodwyd a aseswyd risgiau ar lefel weithredol gan bob tîm ac ar lefel prosiect gan bob tîm prosiect, gyda chynyddu lle bo'n briodol. Mae proses ar waith i sicrhau bod pob tîm yn nodi, asesu a monitro risgiau'n gyson, wedi'i hwyluso gan y swyddogaeth Archwilio a Risg
- Mae'r tîm Gweithredol yn cynnal goruchwyliaeth gyfunol o risgiau ar y lefel strategol ac wedi cynnal adolygiadau manwl i reoli risgiau strategol yn ei gyfarfodydd misol pan fo'n briodol
- Derbyniodd pob cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio a Risg ddiweddariad risg, gan gynnwys manylion y risgiau strategol a gweithredol arwyddocaol a diweddariadau ar weithrediad y system rheoli risg. Cynhaliodd y Pwyllgor ei ymchwiliadau manwl ei hun i risgiau allweddol hefyd drwy ofyn i'r rheolwyr ddarparu diweddariadau ar y risgiau a'r mesurau lliniaru. ●

RHEOLI RISG 3 / 5

## RISGIAU STRATEGOL

Isod mae crynodebau o'r risgiau strategol allweddol sydd wedi bod yn brif ffocws sylw yn ystod y flwyddyn:

### RISG A - Ei hasesiad (effaith bosibl a thebygolrwydd) a newid ers 1 Ebrill 2024

Efallai na fydd CITB yn gallu gweithredu'r newidiadau mewnol sydd eu hangen i gyflawni ei Gynllun Strategol 2025-29 o fewn yr amserlen a gytunwyd oherwydd nad oes ganddo'r bobl a'r sgiliau, na'r data neu'r gallu rheoli data, i weithredu ffyrdd newydd o weithio na'r systemau a'r dechnoleg angenrheidiol.

Asesiad 31 Mawrth 2025:
Difrifol Iawn – Posibl; risg newydd eleni.

### MESURAU LLINIARU

Sefydlwyd Swyddfa Portffolio Ganolog i oruchwylio gweithgaredd newid ochr yn ochr â phrosesau buddsoddi a llywodraethu newid newydd, a defnyddiwyd adnoddau rheoli prosiectau/rhaglenni ychwanegol i gefnogi cyflawni prosiectau/rhaglenni yn effeithiol.

### RISG B - Ei hasesiad (effaith bosibl a thebygolrwydd) a newid ers 1 Ebrill 2024

Nad yw cynlluniau Llywodraeth y DU a CITB i gefnogi adeiladu tai o bosibl yn gwbl gyson, neu, wrth gefnogi'r flaenoriaeth ar adeiladu tai, mae CITB yn dargyfeirio gormod o ffocws, cyllid neu adnoddau i ffwrdd o flaenoriaethau eraill.

Asesiad 31 Mawrth 2025:
Difrifol – Posibl; risg newydd eleni.

### MESURAU LLINIARU

Mae CITB wedi bod yn cydweithio'n agos â Llywodraeth y DU yn San Steffan a Llywodraethau Cymru a'r Alban i sicrhau bod ein strategaeth yn gydnaws ac i helpu i lywio penderfyniadau polisi a sicrhau bod ein Cynllun Busnes yn canolbwyntio ar anghenion blaenoriaethol y diwydiant adeiladu.

### RISG C - Ei hasesiad (effaith bosibl a thebygolrwydd) a newid ers 1 Ebrill 2024

Risg o anaf corfforol difrifol neu niwed i brentisiaid, cydweithwyr ac eraill oherwydd methiant gan CITB i gydymffurfio'n llawn â rheoliadau Iechyd a Diogelwch neu beidio â chymryd yr holl gamau angenrheidiol a phriodol i leihau'r risgiau.

Asesiad 31 Mawrth 2025:
Difrifol Iawn – Posibl; heb ei newid
(lliniariadau wedi'u nodi ar waith)

### MESURAU LLINIARU

Mae CITB yn rhoi blaenoriaeth uchel i gefnogi diogelwch yn y diwydiant adeiladu ac i ddiogelwch yn ei weithgareddau adeiladu a gweithgareddau eraill. Mae fframwaith Iechyd, Diogelwch a Llesiant wedi'i achredu i safonau ffurfiol ISO45001 ac ISO45003 ar waith ac mae ei berfformiad yn cael ei fonitro trwy adrodd yn rheolaidd i'r rheolwyr, y Pwyllgor Archwilio a Risg, a'r Bwrdd.

### RISG D - Ei hasesiad (effaith bosibl a thebygolrwydd) a newid ers 1 Ebrill 2024

Risg o niwed i brentisiaid, pobl ifanc ac oedolion agored i niwed oherwydd methiant i weithredu trefniadau Diogelu priodol neu fethiant y gweithdrefnau Diogelu hynny.

Asesiad 31 Mawrth 2025:
Difrifol Iawn – Posibl; heb newid
(ond yn lleihau oherwydd lliniariadau ychwanegol).

### MESURAU LLINIARU

Mae diogelu wedi bod yn faes ffocws a datblygiad i'r NCC a'n prentisiaethau dros y 18 mis diwethaf. Cyflawnwyd Gwobr Arweinwyr mewn Diogelu ar gyfer Lloegr yn 2023-24 ac ar gyfer yr Alban yn 2024-25. Mae tîm Diogelu ymroddedig yn monitro'r trefniadau ac unrhyw ddigwyddiadau sy'n digwydd, ac mae gweithrediad cyffredinol y broses yn cael ei fonitro gan y Pwyllgor NCC a Phrentisiaethau ar ran y Bwrdd.

RHEOLI RISG 4 / 5

### RISG E - Ei hasesiad (effaith bosibl a thebygolrwydd) a newid ers 1 Ebrill 2024

Gall gwybodaeth sensitif gael ei datgelu a/neu gall amhariad sylweddol gael ei achosi i wasanaethau o ganlyniad i dorri rheoliadau seiberddiogelwch.

Asesiad 31 Mawrth 2025:
Difrifol – Posibl; heb ei newid.

### MESURAU LLINIARU

Mae proses barhaus i fonitro risgiau seiberddiogelwch ac i weithredu camau gweithredu lle bo angen, ac mae'n ofynnol i bob cydweithiwr yn CITB ymgymryd â hyfforddiant blynyddol. Cydnabyddir bod bygythiad ymosodiad seiber yn gofyn am wyliadwriaeth barhaus a datblygiad fframwaith y rheolaethau.

### RISG F - Ei hasesiad (effaith bosibl a thebygolrwydd) a newid ers 1 Ebrill 2024

Gall CITB ddioddef twyll sy'n niweidiol i enw da ac yn ariannol oherwydd y swm dan sylw oherwydd methu â gwreiddio diwylliant o ymwybyddiaeth o dwyll ac atal twyll neu beidio â gweithredu camau i liniaru risgiau sylweddol.

Asesiad 31 Mawrth 2025:
Sylweddol – Posibl; heb ei newid.

### MESURAU LLINIARU

Mae trefniadau ar waith i asesu'r risgiau o dwyll ac i gymryd camau os nodir unrhyw amlygiadau newydd neu gynyddol, a chaiff y rhain eu hadolygu o leiaf yn flynyddol gan y Pwyllgor Archwilio a Risg. Cynhelir adolygiadau ac ymchwiliadau rhagweithiol ac adweithiol gan dîm Gwrth-dwyll CITB.

RHEOLI RISG 5 / 5

Yn ogystal â'r risgiau penodol a manylir uchod, mae'r rheolwyr wedi bod yn effro i'r posibilrwydd y gallai newidiadau polisi a chyllid gan Lywodraeth y DU yn San Steffan a chan y Llywodraethau yn yr Alban a Chymru gael goblygiadau i Gynlluniau Strategol a Busnes CITB, gan gynnwys y risg na fydd CITB yn sylweddoli cyfleoedd y gallai newidiadau eu darparu i fod o fudd i'r system sgiliau ar gyfer adeiladu. Mae rhaglen o ymgysylltu rheolaidd â Llywodraethau cenedlaethol ar waith i lywio cynllunio, a thrwy hynny sicrhau bod gwybodaeth am newidiadau polisi sy'n dod i'r amlwg yn galluogi cynlluniau i gael eu halinio, lle bo'n briodol.

Helpodd y broses o adolygiadau risg rheolaidd drwy gydol y flwyddyn i gynnal y ffocws ar liniaru effeithiau posibl risgiau a chefnogodd gamau gweithredu a sicrhaodd nad oedd y risgiau'n cael effaith andwyol sylweddol ar gyflawni canlyniadau blaenoriaeth a Chynllun Busnes 2024-25.

Roedd gweithgaredd i fonitro lliniaru risgiau yn ystod y flwyddyn wedi canolbwyntio'n sylweddol ar gamau gweithredu i ymgorffori'r rheolaethau a weithredwyd yn 2022-23 a 2023-24 dros ddarparu prentisiaethau o safon, lliniaru ymhellach y risg mewn perthynas â seiberddiogelwch a lleihau'r potensial am ymyrraeth sylweddol i wasanaethau pe bai digwyddiad parhad busnes. Roedd y risg y byddai gan CITB yr adnoddau a'r galluoedd i weithredu'r newid angenrheidiol i gyflawni ei amcanion strategol a nodwyd uchod hefyd yn destun sylw arbennig gan y tîm Gweithredol drwy gydol y flwyddyn, gan gydnabod bod gweithredu systemau newydd a ffyrdd gwell o weithio yn allweddol i gyflawni'r Cynllun Strategol 2025-29.

**Roedd y Pennaeth Archwilio Mewnol yn fodlon bod digon o waith wedi'i gwblhau yn ystod y flwyddyn i allu cyflwyno barn.**

## BARN PENNAETH ARCHWILIO MEWNOL

Cyflawnodd y tîm Archwilio Mewnol, gan weithio yn ôl Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus, raglen adolygiadau 2024-25 fel y'i cymeradwywyd gan y Pwyllgor Archwilio a Risg. Cytunodd y Pwyllgor i ohirio adolygiad arfaethedig o reoli dibyniaethau ar draws gweithgaredd 'newid' gan fod camau'n dal i gael eu cymryd gan y rheolwyr i ddatblygu'r strwythurau a'r prosesau ar gyfer hyn. Roedd archwiliadau a gwblhawyd yn cwmpasu ystod eang o feysydd o fewn llywodraethu, rheoli risg, a rheolaeth fewnol, gan ganolbwyntio ar y rhai lle'r oedd yr angen mwyaf am sicrwydd neu fudd posibl o adolygiad. Roedd Pennaeth Archwilio Mewnol yn fodlon bod digon o waith wedi'i gwblhau yn ystod y flwyddyn i alluogi barn ar lywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol i gael ei darparu.

Cyflwynwyd adroddiad blynyddol, yn crynhoi'r gwaith a wnaed ac yn cynnwys barn y Pennaeth Archwilio, i'r Pwyllgor Archwilio a Risg a nododd fod y systemau llywodraethu, rheoli risg, a rheolaeth fewnol yn foddhaol ar y cyfan. ●

CYNALIADWYEDD 1 / 5

# Cynaliadwyedd

## NODAU DATBLYGU CYNALIADWY'R CENHEDLOEDD UNEDIG (UN)

Fel rhan o ddatblygiad ein strategaeth gynaliadwyedd, fe wnaethom ailedrych ar sut mae ein gweithgaredd mewnol a'r ddarpariaeth allanol o'n cynnyrch a'n gwasanaethau yn cyd-fynd â Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig[13] (UN SDGs/y Nodau) er mwyn deall ein cyfraniad ehangach at amcanion byd-eang yn fwy cywir a dangosir hyn yng ngraffigau 1 a 2. →

### GRAFFEG 1 – SUT MAE EIN DARPARIAETH ALLANOL YN CYFRANNU AT YR UN SDGs




### GRAFFEG 2 – SUT MAE EIN GWEITHGAREDDAU MEWNOL YN CYFRANNU AT YR UN SDGs




13. THE 17 GOALS | Sustainable Development

CYNALIADWYEDD 2 / 5

## TROSOLWG

Mae ein Polisi Amgylcheddol yn nodi ein huchelgais i fod yn sero net yng Nghwmpas 1[14] a 2[15] erbyn 2030 a Chwmpas 3[16] erbyn 2040, o flaen targed y DU o 2050 a'r Alban erbyn 2045. Mae'r Bwrdd a'r tîm Gweithredol wedi ymrwymo i'r targed hwn a'r buddsoddiad sydd ei angen, ac mae ein timau wedi dechrau gwneud newidiadau i'n harferion gwaith, gan gynnwys ymgorffori System Rheoli Amgylcheddol (EMS) ar draws pob safle sydd wedi'i ardystio i Safon ISO 14001; a chael ei integreiddio â'n System Rheoli Iechyd a Diogelwch a Llesiant, sydd wedi'i hardystio i Safonau ISO 45001 (Iechyd a Diogelwch) a 45003 (Iechyd a Diogelwch Seicolegol yn y Gwaith).

Er mwyn sicrhau y gallwn drawsnewid i ddyfodol cynaliadwy a chyrraedd ein targedau allyriadau sero net, rydym yn gwybod bod yn rhaid i'n gweithlu feddu ar y wybodaeth, y sgiliau, y cymwyseddau a'r ymddygiadau i ymgymryd â'r gwaith hwn, a elwir yn 'Sgiliau Gwyrdd'. Yn ystod y flwyddyn, daeth sawl cydweithiwr yn Llythrennog o ran Carbon yn dilyn cyflwyno cwrs hyfforddi peilot llythrennedd carbon ac argymhellwyd i'r Noddwr Gweithredol y dylid datblygu ac achredu cwrs pwrpasol yn canolbwyntio ar effaith amgylcheddol y diwydiant adeiladu gan y Prosiect Llythrennedd Carbon a'i gyflwyno ar draws y sefydliad; gyda'r nod o 10% o'n gweithlu yn Llythrennog o ran Carbon o fewn y flwyddyn gyntaf.

Fel corff hyd braich (ALB) o'r Adran Addysg, rydym wedi ein heithrio o Ymrwymiadau Gwyrddio'r Llywodraeth Ganolog[17] (GGCs) sy'n nodi'r camau y bydd adrannau Llywodraeth y DU a'u ALBs yn eu cymryd i leihau eu heffaith ar yr amgylchedd ar gyfer y flwyddyn adrodd 2024-25; fodd bynnag, rydym yn adrodd yn wirfoddol, ac rydym wedi cymhwyso canllawiau blynyddol Trysorlys EF[18] i ddarparu tryloywder yn ein hadroddiadau cynaliadwyedd. Er mwyn cefnogi mwy o gydweithio â'n hadran noddi, yr Adran Addysg, mae cynrychiolydd CITB yn mynychu eu Bwrdd Crwn Cynaliadwyedd ALB. Rydym wedi cadarnhau gyda'r Adran Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra) a'r Adran Addysg, ein bod o fewn cwmpas y GGCs o 2025 ymlaen.

Er mwyn cyd-fynd ag adrodd y blynyddoedd blaenorol a chydnabod na ellir gwneud llawer o gymhariaeth â blwyddyn sylfaenol 2017-18 oherwydd newidiadau a wnaed fel rhan o'n rhaglen dadfuddsoddi Gweledigaeth 2020 ac effaith pandemig Covid, dim ond data ar gyfer y pedair blynedd diwethaf a gyflwynir yn yr adroddiad hwn. Fel y cynigiwyd yn y GGC newydd ar gyfer y cyfnod 2025-30, bydd llinell sylfaen newydd yn cael ei gosod ar gyfer adrodd yn y dyfodol yn seiliedig ar ddata ar gyfer 2025-26.

Mae CITB yn darparu ymyriadau sgiliau a hyfforddiant trwy ei NCC, sy'n gweithredu o dri sefydliad hyfforddi rhydd-ddaliadol. Mae'r data a gyflwynir yn yr adroddiad hwn wedi'i gasglu o'r tri safle hyn, yn Erith, Bircham Newton, ac Inchinnan. Ar hyn o bryd nid ydym yn gallu cynnwys data o'n hadeiladau prydles, ein Prif Swyddfa, Sand Martin House, yn Peterborough (gwagwyd Awst 2025) a'n Swyddfa yn Llundain, Adeiladau Sanctuary, yn San Steffan (gwagwyd Tachwedd 2024), na'r ddarpariaeth amnewid mewn rhent swyddfa dros dro, gan nad yw'r rhydd-ddeiliad ar hyn o bryd yn gallu darparu data perthnasol wedi'i ddadansoddi yn ôl safle. →

14. Cwmpas 1: Allyriadau nwyon tŷ gwydr (GHG) o losgi tanwydd ffosil o ffynonellau sy'n eiddo i'r cwmni neu'n cael eu rheoli ganddo, er enghraifft, allyriadau o system wresogi nwy ar y safle, neu o brosesau diwydiannol neu drafnidiaeth sy'n eiddo iddo. Mae gollyngiadau nwyon-F (e.e. o systemau aerdymheru) hefyd yn cael eu dosbarthu fel Cwmpas 1
15. Cwmpas 2: Allyriadau GHG o losgi tanwydd ffosil o drydan, gwres a stêm a brynwyd i'w defnyddio yng ngweithrediadau'r cwmni. Mae'r rhain wedi'u gwahanu oddi wrth Gwmpas 1 gan eu bod fel arfer yn digwydd mewn mannau eraill (e.e. mewn gorsaf bŵer).
16. Cwmpas 3: Pob allyriad anuniongyrchol oherwydd gweithgareddau busnes. Gall cwmpas tri fod naill ai i fyny'r afon (upstream) - allyriadau anuniongyrchol gan gynnwys: nwyddau a gwasanaethau a brynwyd; gwastraff a gynhyrchir mewn gweithrediadau; teithio busnes a chymunedol; cludiant a dosbarthu. Neu i lawr yr afon (downstream) - wrth i gynhyrchion a gwasanaethau gael eu defnyddio a'u gwaredu gan gwsmeriaid
17. Greening Government Commitments 2021 to 2025 - GOV.UK (www.gov.uk)
18. HM Treasury 2023-24 Sustainability Reporting guidance

CYNALIADWYEDD 3 / 5

## DATGANIAD CYDYMFFURFIO'R TASGLU AR GYFER DATGELIADAU ARIANNOL SY'N GYSYLLTIEDIG Â'R HINSAWDD (TCFD)

Wrth i ni weld newid cyflymach yn ein hinsawdd oherwydd gweithgaredd dynol, enwodd Adroddiad Risg Byd-eang blynyddol Fforwm Economaidd y Byd 2024[19] dair risg hinsawdd allweddol fel prif heriau byd-eang. Mae'n bwysig ein bod yn nodi, yn asesu ac yn rheoli risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd.

Mae CITB wedi adrodd ar ddatgeliadau ariannol sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd yn gyson â chanllawiau cymhwyso datgeliadau Trysorlys EF sy'n cyd-fynd â TCFD[20], sy'n dehongli ac yn addasu'r fframwaith ar gyfer sector cyhoeddus y DU, gan gynnwys ALBs adrannau'r Llywodraeth ganolog. Mae argymhellion y TCFD wedi'u strwythuro o amgylch pedwar maes thematig sy'n ymwneud ag elfennau craidd sut mae sefydliadau'n gweithredu - Llywodraethu, Rheoli Risg, Metrigau a Thargedau, a Strategaeth.

Mae CITB wedi cydymffurfio ag argymhellion y TCFD fel a ganlyn:

- **Llywodraethu** - yr holl ddatgeliadau a argymhellir
- **Rheoli Risg** - yr holl ddatgeliadau a argymhellir
- **Metrigau a thargedau** - yr holl ddatgeliadau a argymhellir

Mae hyn yn unol ag amserlen weithredu datgeliadau'r Llywodraeth ganolog sydd wedi'i halinio â TCFD ar gyfer Cyfnod 2. Mae CITB yn bwriadu gwneud y datgeliadau ar Strategaeth (Cyfnod 3) yn y cyfnod adrodd nesaf.

## LLYWODRAETHU

Rôl y Bwrdd yw gosod a chynnal gweledigaeth, cenhadaeth a gwerthoedd CITB, a sicrhau bod ei strategaeth yn cefnogi'r diwydiant adeiladu i gael gweithlu medrus, cymwys a chynhwysol, nawr ac yn y dyfodol. Mae'n gyfrifol am fonitro rheolaeth a gweithrediadau CITB a chael sicrwydd ynghylch cyflawni ei strategaeth drwy ei bwyllgorau.

**Rôl y Bwrdd yw gosod a chynnal gweledigaeth, cenhadaeth a gwerthoedd CITB.**

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn rhoi sicrwydd i'r Bwrdd ynghylch digonolrwydd ac effeithiolrwydd trefniadau CITB ar gyfer rheoli risg, llywodraethu a rheolaeth fewnol, ac mae hyn yn cael ei ymestyn i risgiau a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd, ac mae'r Pwyllgor yn adolygu'r rhai sy'n uwchlaw goddefgarwch risg, fel y'u nodir drwy'r broses rheoli risg.

Ym mhob cyfarfod, mae'r Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn ystyried risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd fel rhan o'u hadolygiad o Gofrestr Risg Strategol CITB. Ar ben hynny, mae gan y Bwrdd, drwy benodi ei Ymddiriedolwyr, ddau sydd â chefndir a phrofiad mewn newid hinsawdd a chynaliadwyedd, gan gynnwys risgiau a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd.

Holly Price yw Cyfarwyddwr Cynaliadwyedd y Grŵp yng Ngrŵp Keltbray ac mae'n atebol am gyflawni eu strategaeth gynaliadwyedd, sy'n cynnwys cynaliadwyedd amgylcheddol a chyflawni eu targed sero net.

Mae Stephen Gray yn ei rôl fel Pennaeth Datblygu Peirianneg yn BAM Nuttall Ltd, ac fel adolygydd ac asesydd gyda Sefydliad y Peirianwyr Sifil (ICE), yn ymgorffori datblygu cynaliadwy fel cymhwysedd ac ymrwymiad craidd.

Mae cyfrifoldebau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd sy'n ymwneud â gweithrediadau mewnol wedi'u neilltuo i'r Grŵp Cynaliadwyedd sy'n atebol i'r Weithrediaeth drwy'r Prif Swyddog Ariannol fel y Noddwr Gweithredol. Mae'r aelodaeth yn cynnwys aelodau perthnasol o'r tîm Arweinyddiaeth ac arweinwyr swyddogaethol.

I helpu i gefnogi datblygiad Cynlluniau Strategaeth a Busnes CITB er budd y diwydiant adeiladu, mae Grŵp Gweithredu Sero Net traws-swyddogaethol yn bodoli. →

20. Global Risks Report 2024 | World Economic Forum | World Economic Forum
21. TCFD-aligned disclosure Application Guidance - Phase 1, 2, 3 - for FRAB.docx

CYNALIADWYEDD 4 / 5

## TABL 3: LLYWODRAETHU CYNALIADWYEDD – RHEOLI MATERION YN YMWNEUD Â HINSAWDD

| LEFEL BWRDD CITB | |
|---|---|
| Pwyllgor Archwilio a Risg | Tîm Gweithredol<br>Arweinydd Cynaliadwyedd: CFO |
| **LEFEL RHEOLI** | |
| Grŵp Cynaliadwyedd<br>Cadeirydd: CFO<br>Cydlynydd: Rheolwr Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu (ESG)<br>Mynychwyd gan aelodau'r Tîm Arwain ac arweinwyr swyddogaethol<br>Cylch Gwaith: Goruchwylio materion amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu mewnol | Grŵp Gweithredu Sero Net<br>Cadeirydd: Arweinydd strategaeth ar gyfer Sero Net<br>Cydlynydd: Dadansoddwr Diwydiant ac Arweinydd sero net<br>Yn bresennol roedd cynrychiolwyr adrannol.<br>Cylch gwaith: helpu i ddatblygu'r Strategaeth/ Cynllun i gefnogi system hyfforddi a sgiliau ar gyfer y sector adeiladu i gyrraedd sero net |
| **LEFEL Y GWEITHLU** | |
| Grŵp Eiriolwyr Gwyrdd<br>Cydlynydd: Cydlynydd Amgylchedd a Chynaliadwyedd<br>Aelodaeth wirfoddol o bob rhan o'r sefydliad | |

## RHEOLI RISG

Caiff risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd eu nodi gyda mewnbwn ac arweiniad y Rheolwr ESG gan ystyried tueddiadau byd-eang, Asesiad Risg Newid Hinsawdd y DU, a chanllawiau arfer da'r NAO i nodi'r risgiau uniongyrchol hynny i weithrediadau craidd, a risgiau anuniongyrchol trwy'r gadwyn gyflenwi neu ddibyniaethau eraill, sy'n berthnasol i CITB. Ar hyn o bryd nid yw newid hinsawdd wedi'i nodi fel un sy'n peri bygythiad strategol i CITB, ei weithrediadau a'i weithgareddau; fodd bynnag, mae hyn yn cael ei adolygu'n gyson.

Caiff y risgiau eu hasesu gan ddefnyddio'r system rheoli risg fel y'i disgrifir ar dudalen 31 a'u trosglwyddo i'r tîm perthnasol i'w cynnwys mewn cofrestri risg gweithredol, sgorio, rheoli (pennu a gweithredu'r camau gweithredu priodol), a monitro ar y lefel swyddogaethol. Mae risgiau ESG cyffredinol, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud ag adrodd, yn cael eu dal yn ganolog gan y Rheolwr ESG. Hwylusir asesu, cofnodi ac adrodd ar y risgiau gan y swyddogaeth Archwilio a Risg.

Mae asesiad effaith a thebygolrwydd yn cefnogi blaenoriaethu'r risgiau a'r gweithgareddau rheoli risg i'w lliniaru ac ymateb iddynt. Mae'r meini prawf effaith yn cynnwys ffactorau ariannol ac anariannol, megis cydymffurfiaeth (effaith reoleiddio), pobl, a thechnoleg, ac fe'u defnyddir ar gyfer asesu pob risg, gan gynnwys risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd, gan ddarparu sail gyson ar gyfer asesu, blaenoriaethu ac adrodd ar draws CITB.

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn derbyn diweddariadau ym mhob cyfarfod ar y broses rheoli risg ac yn benodol risgiau sy'n disgyn y tu allan i oddefgarwch. Mae'r Pwyllgor hefyd yn cynnal rhaglen o ymchwiliadau manwl i risgiau allweddol, ond ni ystyriwyd bod angen ymchwiliad manwl ar unrhyw risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd yn ystod 2024-25. →

CYNALIADWYEDD 5 / 5

Rydym wedi ystyried y risgiau ffisegol a throsglwyddol sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd sy'n berthnasol i CITB ac wedi nodi'r canlynol yn ein cofrestri risg swyddogaethol:

## Cynaliadwyedd

- Methu â chydymffurfio â deddfwriaeth, rheoliadau a gofynion amgylcheddol allweddol eraill
- Nid ydym yn gallu datblygu cynllun i gyrraedd ein targedau lleihau allyriadau a/neu'r rhai a osodwyd o fewn y GGCs a gwneud digon o gynnydd tuag at eu cyflawniad
- Nid ydym yn cynnal System Rheoli Amgylcheddol (EMS) effeithiol i nodi, asesu, monitro a chynnal ein rhyngweithiadau â'r amgylchedd i atal effaith amgylcheddol negyddol
- Risg gynyddol o aflonyddwch a thorri ar draws gwasanaethau a gweithrediadau oherwydd methiannau seilwaith mewn rhwydweithiau rhyngddibynnol e.e. dŵr a phŵer.

## Ystadau

- Risg o ddifrod ffisegol i'n hystâd, technoleg, ac asedau eraill oherwydd digwyddiadau tywydd eithafol ffisegol acíwt (megis oerfel, gwres, stormydd (gwynt a glaw))
- Risg o effaith andwyol ar fioamrywiaeth ar draws ein hystâd o ganlyniad i beidio â nodi ac ymgorffori agweddau perthnasol mewn cynllunio ystadau.

## Cynnyrch a Gwasanaethau

- Nid ydym yn rhagweld, yn datblygu ac yn cyflwyno capasiti a chynhyrchion hyfforddi i ddiwallu anghenion y diwydiant sy'n gysylltiedig â'r galw am sgiliau a galluoedd newydd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd (e.e. ôl-osod, datgarboneiddio, enillion net bioamrywiaeth ac economi gylchol).

## Iechyd, Diogelwch a Llesiant

- Risg i iechyd, lles a chynhyrchiant gweithwyr a dysgwyr o ganlyniad i ddigwyddiadau hinsoddol acíwt a chronig, fel tonnau gwres, cyfnodau oer, glaw trwm ac eira oherwydd peidio â chynllunio ar gyfer cynnydd mewn achosion a difrifoldeb digwyddiadau o'r fath a/neu beidio â chymryd camau i liniaru'r effeithiau.

## Caffael

- Risg o ymyrraeth ac amhariad i gadwyni cyflenwi bwyd, nwyddau/deunyddiau hanfodol a nwyddau eraill oherwydd trychinebau meteorolegol byd-eang a materion geo-wleidyddol.

Rydym yn gwella ein galluoedd parhad busnes i fynd i'r afael â digwyddiadau hinsoddol er mwyn lliniaru risgiau'n sylweddol a sicrhau sefydlogrwydd gweithredol, gan gynnwys cynnal asesiadau risg, cynllunio ymateb i argyfyngau, gwydnwch seilwaith, a hyfforddi gweithwyr.

## METRIGAU A THARGEDAU

Mae CITB yn cael ei arwain gan dargedau lleihau GGC ac nid yw wedi gosod ei dargedau perthnasol ei hun. Bydd y rhain yn cael eu datblygu yn ei strategaeth gynaliadwyedd ar gyfer 2025-29, a hyd at hynny, bydd yn ymchwilio'n weithredol ac yn gweithredu atebion i ostwng ei allyriadau.

Gellir dod o hyd i ôl-troed carbon CITB yn Atodiad A. ●

ADRAN 5

# Datganiad gan y Swyddog Cyfrifyddu

Tudalennau 49 i 57

# DATGANIAD GAN Y SWYDDOG CYFRIFYDDU

## EIN HYMAGWEDD AT DDIOGELU DATA

Er mwyn cyflawni ein nodau, mae CITB yn prosesu gwybodaeth bersonol am unigolion. Mae categorïau testunau data yn cynnwys cyflogwyr sy'n ymwneud ag adeiladu, cyflogeion a darpar weithwyr yn y diwydiant adeiladu, prentisiaid adeiladu, cyflenwyr, contractwyr a staff mewnol.

Rydym wedi ymrwymo i ddiogelu hawliau a rhyddid unigolion o ran prosesu eu data personol ac yn ymrwymo i gydymffurfio â'n rhwymedigaethau a'n cyfrifoldebau cyfreithiol bob amser.

Rydym yn adolygu systemau a phrosesau ar gyfer trin data yn ddiogel yn erbyn y canllawiau cyffredinol yn rheolaidd er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i fodloni safonau disgwyliedig. Rydym yn dilyn arferion sy'n cydymffurfio ag ISO 27001 mewn perthynas â diogelwch gwybodaeth.

Rydym yn cydymffurfio â'n rhwymedigaethau cyfreithiol mewn perthynas â data personol, a chaiff unrhyw ddigwyddiadau difrifol sy'n ymwneud â data eu cyhoeddi a'u hadrodd i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO). Eleni, adroddwyd am un digwyddiad i'r ICO ar 19 Gorffennaf 2024. Nid oedd angen unrhyw gamau gweithredu, a barnwyd bod y mater wedi'i gau gan yr ICO ar 23 Gorffennaf 2024.

Fel darparwr gwasanaethau TG allanol CITB, mae Shared Services Connected Limited (SSCL) wedi ymrwymo i amddiffyn diogelwch a mynediad i'n data. Mae SSCL yn dilyn arferion sy'n cydymffurfio ag ISO 27001 mewn perthynas â diogelwch gwybodaeth ac mae CITB wedi sicrhau ardystiad ar gyfer Cyber Essentials+, yn wreiddiol ar gyfer Prentisiaethau Cymreig a'r ystâd TG ehangach, heblaw am ddau gymhwysiad etifeddol.

Mae SSCL yn ymchwilio i bob digwyddiad diogelwch sy'n ymwneud â'i wasanaeth i CITB i nodi gwelliannau addas mewn prosesau, addysg staff a mesurau diogelwch technegol. Ni adroddwyd am unrhyw ddigwyddiadau difrifol iawn yn 2024-25.

## EIN DULL O ADRODD AM BRYDERON

Rydym wedi ymrwymo i gyflawni a chynnal safonau uchel o ymddygiad yn y gwaith, mewn gwasanaeth i'r cyhoedd ac yn ein holl arferion gwaith, ac i gynnal diwylliant lle mae pobl yn cael eu hannog i godi pryderon, yn hyderus y gallant wneud hynny heb ganlyniadau andwyol ac y bydd camau priodol yn cael eu cymryd. Mae gennym drefniadau ar gyfer adrodd am bryderon yn ymwneud â Chaethwasiaeth Fodern, Diogelu a'r Ddyletswydd Atal. Cafodd ein trefniadau ar gyfer chwythu'r chwiban eu hadolygu a'u cymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio a Risg yn ystod y flwyddyn. Ni adroddwyd am unrhyw ddigwyddiadau chwythu'r chwiban yn ystod y flwyddyn. →

## DATGANIAD O FUDDIANNAU

Fel corff cyhoeddus anadrannol a noddir gan yr Adran Addysg, rhaid i CITB gydymffurfio ag egwyddorion rheoleidd-dra a phriodoldeb, gan sicrhau nad yw ei waith yn cael ei effeithio'n andwyol gan wrthdaro buddiannau. Mae'n ofynnol i Ymddiriedolwyr, aelodau'r Pwyllgor a'r tîm Gweithredol gwblhau datganiad o fuddiannau yn flynyddol. Mae gennym broses ar waith sy'n caniatáu nodi gwrthdaro buddiannau posibl a, lle cânt eu nodi, yn sicrhau bod mesurau diogelwch priodol yn cael eu rhoi ar waith i atal gwrthdaro gwirioneddol rhag codi.

Yn ogystal, mae'n ofynnol i bob aelod o staff gwblhau ffurflen datganiad o fuddiannau yn flynyddol, gan gynnwys y rhai nad oes ganddynt fuddiannau i'w datgan, a hefyd i ddatgan unrhyw roddion neu letygarwch a gynigir.

## CYNNAL CEFNOGAETH RHANDDEILIAID

Er mwyn parhau i fodloni disgwyliadau'r diwydiant, rhaid i CITB gynnal cefnogaeth gan amrywiaeth o randdeiliaid. Rydym yn cysylltu â'r diwydiant ar bob lefel ac mae gennym gysylltiadau â sefydliadau penodedig a ffederasiynau masnach, undebau llafur a chyrff addysgol. Rydym yn gweithio gyda'r Adran Addysg yn San Steffan, a Llywodraethau Cymru a'r Alban ac rydym yn ymwneud ag amrywiaeth o ddigwyddiadau rhanddeiliaid, grwpiau ymgynghorol a fforymau, ac yn cymryd rhan mewn amrywiol arolygon rhanddeiliaid.

## CASGLIAD

Fel Swyddog Cyfrifyddu, rwy'n fodlon bod y trefniadau llywodraethu a oedd ar waith yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2025 yn ddigonol i barhau i reoli risgiau'n effeithiol. Caiff hyn ei lywio gan waith y Tîm Gweithredol, sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y strwythurau llywodraethu a'r fframwaith rheolaeth fewnol. Rwy'n cydnabod y sylwadau a wnaed gan y NAO yn ei llythyr rheoli ac adroddiadau eraill (cyfeiriwch at Archwiliad Allanol ar dudalennau 44-48) mae'r Datganiad Llywodraethu yn cynrychioli cynnyrch terfynol yr adolygiad o effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol.

Yn seiliedig ar yr adolygiad yr wyf wedi'i amlinellu uchod, dof i'r casgliad bod gan CITB system foddhaol o lywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol sy'n cefnogi nodau ac amcanion y sefydliad. ●

Tim Balcon
Swyddog Cyfrifyddu
3 Rhagfyr 2025

# DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU'R BWRDD A'R SWYDDOG CYFRIFYDDU

O dan adran 8(1) o Ddeddf Hyfforddiant Diwydiannol 1982, mae'n ofynnol i'r Bwrdd baratoi ar gyfer pob blwyddyn ariannol ddatganiad o gyfrifon ar ffurf ac ar sail a bennir gan yr Ysgrifennydd Gwladol gyda chaniatâd Trysorlys EF.

Paratoir y cyfrifon ar sail cyfrifo croniadau ac mae'n rhaid iddynt ddangos darlun cywir a theg o sefyllfa'r CITB ar ddiwedd y flwyddyn ac o'i incwm a'i wariant a'i lif arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r datganiad cyfrifon hwnnw, mae'n ofynnol i'r Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â gofynion y Datganiad o Arferion Cymeradwy Elusennau (FRS 102) ac ystyried gofynion perthnasol Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth ac yn arbennig:

**A.** Dilyn y cyfarwyddyd cyfrifon a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a chymhwyso polisïau cyfrifyddu addas yn gyson

**B.** Gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon ar sail resymol

**C.** Datgan a yw safonau cyfrifyddu cymwys fel y'u nodir yn y Datganiad o Arferion Argymhelliedig Elusennau (SORP) a Llawlyfr Adrodd Ariannol Llywodraeth y DU wedi'u dilyn, a datgelu ac egluro unrhyw wyriadau perthnasol yn y datganiadau ariannol

**D.** Paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol oni bai ei bod yn amhriodol tybio y bydd CITB yn parhau i weithredu

**E.** Cadarnhau bod yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon yn gyffredinol yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy, a chymryd cyfrifoldeb personol am yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon a'r dyfarniadau sy'n ofynnol i benderfynu ei fod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

Mae Swyddog Cyfrifyddu'r Adran Addysg wedi dynodi Prif Weithredwr CITB yn Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer CITB. Mae cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys cyfrifoldeb am briodoldeb a rheoleidd-dra'r cyllid cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn atebol amdano, am gadw cofnodion priodol ac am ddiogelu asedau CITB, wedi'u nodi yn Managing Public Money, a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF.

Fel y Swyddog Cyfrifyddu, rwyf wedi cymryd yr holl gamau y dylwn fod wedi'u cymryd i wneud fy hun yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sefydlu bod archwilwyr CITB yn ymwybodol o'r wybodaeth honno. Hyd y gwn i, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw'r archwilwyr yn ymwybodol ohoni. Mae'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy, ac fel Swyddog Cyfrifyddu rwy'n cymryd cyfrifoldeb am yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon a'r barnau sy'n ofynnol i benderfynu eu bod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy. ●

Tim Balcon
Swyddog Cyfrifyddu
3 Rhagfyr 2025

**Wedi'i gymeradwyo gan y Bwrdd ac wedi'i lofnodi ar ei ran gan:**

Syr Peter Lauener KBE, CB
Cadeirydd CITB
3 Rhagfyr 2025

# TYSTYSGRIF AC ADRODDIAD Y RHEOLWR A'R ARCHWILYDD CYFFREDINOL I DAI'R SENEDD A SENEDD YR ALBAN

## BARN AR DDATGANIADAU ARIANNOL

Rwy'n ardystio fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025 o dan Ddeddf Hyfforddiant Diwydiannol 1982.

**Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys: Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu:**

- Y Fantolen ar 31 Mawrth 2025
- Datganiad o Weithgareddau Ariannol a Datganiad Llif Arian ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; a
- Y nodiadau cysylltiedig gan gynnwys y polisïau cyfrifyddu arwyddocaol.

Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth baratoi'r datganiadau ariannol yw'r gyfraith berthnasol a safonau cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig gan gynnwys Safonau Adrodd Ariannol (FRS) 102, y Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon (Arfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig).

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o gyflwr materion Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu ar 31 Mawrth 2025 a'i wariant net ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol ag Arfer Cyfrifyddu Cyffredinol a Dderbynnir yn y Deyrnas Unedig; a
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â Deddf Elusennau a Buddsoddiadau Ymddiriedolwyr (Yr Alban) 2005 a rheoliad 8 o Reoliadau Cyfrifon Elusennau (Yr Alban) 2006 a Deddf Elusennau 2011.

**Barn ar reoleidd-dra**

Yn fy marn i, ym mhob agwedd berthnasol, mae'r incwm a'r gwariant a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

**Sail barn**

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (DU) (ISAs (DU)), y gyfraith berthnasol a Nodyn Ymarfer 10 *Audit of Financial Statements and Regularity of Public Sector Bodies in the United Kingdom (2024)*. Disgrifir fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny ymhellach yn adran *cyfrifoldebau'r Archwilydd ar gyfer archwilio datganiadau ariannol* fy nhystysgrif.

Mae'r safonau hynny'n ei gwneud yn ofynnol i mi a'm staff gydymffurfio â *Revised Ethical Standard 2024* y Cyngor Adrodd Ariannol. Rwy'n annibynnol ar Fwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU. Mae fy staff a minnau wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn.

Credaf fod y dystiolaeth archwilio a gefais yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail ar gyfer fy marn. →

ADRODDIAD Y RHEOLWR A'R ARCHWILYDD CYFFREDINOL 2 / 5

**Casgliadau sy'n ymwneud â busnes gweithredol**

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod defnydd Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu o sail cyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith rwyf wedi'i wneud, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd perthnasol ynghylch digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, daflu amheuaeth sylweddol ar allu y Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu i barhau fel busnes gweithredol am gyfnod o leiaf ddeuddeg mis o'r adeg y caiff y datganiadau ariannol eu hawdurdodi i'w cyhoeddi.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau a chyfrifoldebau'r Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifyddu mewn perthynas â busnes gweithredol yn yr adrannau perthnasol o'r dystysgrif hon.

**Gwybodaeth arall**

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys gwybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol, ond nid yw'n cynnwys y datganiadau ariannol na'm tystysgrif archwilydd na'r adroddiad cysylltiedig wedi hynny. Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall.

Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, ac eithrio i'r graddau y nodir yn wahanol yn fy nhystysgrif, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd arnynt.

Fy nghyfrifoldeb i yw darllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn anghyson yn sylweddol â'r datganiadau ariannol, neu â'm gwybodaeth a gafwyd yn yr archwiliad, neu a yw'n ymddangos ei bod wedi'i cham-ddatgan yn sylweddol fel arall.

Os byddaf yn nodi anghysondebau sylweddol o'r fath neu gamddatganiadau sylweddol ymddangosiadol, mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad sylweddol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os, yn seiliedig ar y gwaith a gyflawnais, y byddaf yn dod i'r casgliad bod camddatganiad sylweddol o'r wybodaeth arall hon, mae'n ofynnol i mi adrodd ar y ffaith honno.

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd yn hyn o beth.

**Barn ar faterion eraill**

Yn fy marn i, mae'r rhan o'r Adroddiad Taliadau i'w archwilio wedi'i pharatoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Hyfforddiant Diwydiannol 1982.

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod yr archwiliad, mae'r wybodaeth a roddir yn yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratoir datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac yn unol â'r gofynion cyfreithiol cymwys.

**Materion yr wyf yn adrodd arnynt drwy eithriad**

Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth o Fwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi camddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Blynyddol.

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd mewn perthynas â'r materion canlynol yr wyf yn eu hadrodd i chi os, yn fy marn i:

- nid yw cofnodion cyfrifyddu digonol wedi'u cadw gan Fwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu neu nad yw ffurflenni digonol ar gyfer fy archwiliad wedi'u derbyn gan ganghennau nad ymwelwyd â nhw gan fy staff; neu
- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad; neu
- nid yw'r datganiadau ariannol yn cytuno â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- nid yw datgeliadau penodol o gydnabyddiaeth a bennir gan Ddeddf Elusennau 2011, Deddf Elusennau a Buddsoddiadau Ymddiriedolwyr (Yr Alban) 2005 a rheoliad 8 o Reoliadau Cyfrifon Elusennau (Yr Alban) 2006 wedi'u gwneud neu nid yw rhannau o'r Adroddiad Cydnabyddiaeth i'w archwilio yn cytuno â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- nid yw'r Datganiad Llywodraethu yn adlewyrchu cydymffurfiaeth â chanllawiau Trysorlys EF. →

ADRODDIAD Y RHEOLWR A'R ARCHWILYDD CYFFREDINOL 3 / 5

**Cyfrifoldebau'r Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifyddu am y datganiadau ariannol**

Fel yr eglurir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am:

- cynnal cofnodion cyfrifyddu priodol;
- rhoi mynediad i'r C&AG at yr holl wybodaeth y mae'r rheolwyr yn ymwybodol ohoni sy'n berthnasol i baratoi'r datganiadau ariannol megis cofnodion, dogfennaeth a materion eraill;
- rhoi gwybodaeth ac esboniadau ychwanegol sydd eu hangen ar gyfer ei archwiliad i'r C&AG;
- rhoi mynediad anghyfyngedig i'r C&AG at bersonau o fewn Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu y mae'r archwilydd yn penderfynu ei bod yn angenrheidiol i gael tystiolaeth archwilio ganddynt;
- sicrhau bod rheolaethau mewnol o'r fath ar waith fel y bernir yn angenrheidiol i alluogi paratoi'r datganiad ariannol i fod yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu wall;
- paratoi datganiadau ariannol, sy'n rhoi darlun gwir a theg, yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol perthnasol;
- paratoi'r Adroddiad Blynyddol, sy'n cynnwys yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth a Staff, yn unol â Llawlyfr Adrodd Ariannol Llywodraeth Trysorlys EF; ac
- asesu gallu Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu, yn ôl y galw, faterion sy'n ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio sail busnes gweithredol cyfrifyddu oni bai bod y Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifyddu naill ai'n bwriadu diddymu'r endid neu roi'r gorau i weithredu, neu nad oes ganddynt ddewis arall realistig ond gwneud hynny.

**Cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol**

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf Hyfforddiant Diwydiannol 1982, adran 144 o Ddeddf Elusennau 2011 ac adran 44(1)(c) o Ddeddf Buddsoddiad Elusennau ac Ymddiriedolwyr (Yr Alban) 2005.

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn gyfan gwbl yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed oherwydd twyll neu wall, a chyhoeddi tystysgrif sy'n cynnwys fy marn i. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol ag ISAs (DU) bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, y gellid disgwyl yn rhesymol iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a gymerir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

**I ba raddau ystyriwyd bod yr archwiliad yn gallu canfod diffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau gan gynnwys twyll**

Rwy'n dylunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas â diffyg cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll. Manylir isod ar y graddau y mae fy ngweithdrefnau yn gallu canfod diffyg cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll. →

**Nodi ac asesu risgiau posibl sy'n gysylltiedig â diffyg cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll**

Wrth nodi ac asesu risgiau camddatganiad perthnasol mewn perthynas â diffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll, fe wnes i:

- ystyried natur y sector, yr amgylchedd rheoli a'r perfformiad gweithredol gan gynnwys dyluniad polisïau cyfrifyddu a chymhellion perfformiad Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu
- holi'r rheolwyr, pennaeth archwilio mewnol Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennaeth ategol sy'n ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu ar:
  - nodi, gwerthuso a chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau;
  - canfod ac ymateb i risgiau twyll; a
  - y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau gan gynnwys rheolaethau'r Bwrdd Hyfforddi Diwydiant Adeiladu sy'n ymwneud â chydymffurfiaeth y Bwrdd Hyfforddi Diwydiant Adeiladu â Deddf Hyfforddiant Diwydiannol 1982, Gorchmynion Lefi Hyfforddiant Diwydiannol (Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu) 2022 a 2023, Deddf Elusennau 2011, Deddf Elusennau a Buddsoddiad Ymddiriedolwyr (Yr Alban) 2005, rheoliad 8 o Reoliadau Cyfrifon Elusennau (Yr Alban) 2006, a Rheoli Arian Cyhoeddus;
- gofynnais i'r rheolwyr, pennaeth archwilio mewnol y Bwrdd Hyfforddi Diwydiant Adeiladu a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu a oeddent:
  - yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau; a
  - yn gwybod am unrhyw dwyll gwirioneddol, a amheuir, neu a honnir
- trafodwyd â'r tîm ymgysylltu ynghylch sut a ble y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll.

O ganlyniad i'r gweithdrefnau hyn, ystyriais y cyfleoedd a'r cymhellion a allai fodoli o fewn Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu ar gyfer twyll a nodais y potensial mwyaf ar gyfer twyll yn y meysydd canlynol: cydnabod refeniw, postio cyfnodolion anarferol, trafodion cymhleth, a rhagfarn mewn amcangyfrifon rheoli. Yn gyffredin â phob archwiliad o dan ISAs (DU), mae'n ofynnol i mi gyflawni gweithdrefnau penodol i ymateb i'r risg y bydd rheolwyr yn diystyru rheolaethau.

Cefais ddealltwriaeth o fframwaith awdurdod Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu a fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu yn gweithredu ynddynt. Canolbwyntiais ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny a oedd ag effaith uniongyrchol ar symiau a datgeliadau perthnasol yn y datganiadau ariannol neu a oedd ag effaith sylfaenol ar weithrediadau Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu. Ymhlith y cyfreithiau a'r rheoliadau allweddol a ystyriais yn y cyd-destun hwn roedd Deddf Hyfforddiant Diwydiannol 1982, Gorchmynion Lefi Hyfforddiant Diwydiannol (Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu) 2022 a 2023, Deddf Elusennau 2011, Deddf Elusennau a Buddsoddiadau Ymddiriedolwyr (Yr Alban) 2005, rheoliad 8 o Reoliadau Cyfrifon Elusennau (Yr Alban) 2006, Rheoli Arian Cyhoeddus a deddfwriaeth berthnasol ar gyflogaeth, pensiwn a threthi.

Yn ogystal, ystyriais y risgiau twyll a rheoleidd-dra sy'n gysylltiedig â gwariant grantiau. →

## ADRODDIAD Y RHEOLWR A'R ARCHWILYDD CYFFREDINOL 5 / 5

### Ymateb archwilio i'r risg a nodwyd

I ymateb i'r risgiau a nodwyd sy'n deillio o'r gweithdrefnau uchod:

- Adolygais y datgeliadau datganiadau ariannol a phrofion i ddogfennaeth ategol i asesu cydymffurfiaeth â darpariaethau'r deddfau a'r rheoliadau perthnasol a ddisgrifir uchod fel rhai sydd ag effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol;
- Ymholais i'r rheolwyr, y Pwyllgor Archwilio a Risg a chynghorwyr cyfreithiol mewnol ynghylch ymgyfreitha a hawliadau gwirioneddol a photensial;
- Adolygais gofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu a'r Bwrdd ac adroddiadau archwilio mewnol; a
- Ymdriniais â'r risg o dwyll trwy orwneud rheolaethau gan y rheolwyr trwy brofi priodoldeb cofnodion cyfnodolyn ac addasiadau eraill; asesu a yw'r barnau ar amcangyfrifon yn dynodi rhagfarn bosibl; a gwerthuso rhesymeg fusnes unrhyw drafodion arwyddocaol sy'n anarferol neu y tu allan i gwrs arferol busnes.

Cyfleais y deddfau a'r rheoliadau perthnasol a nodwyd a'r risgiau posibl o dwyll i bob aelod o'r tîm ymgysylltu ac arhosais yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau drwy gydol yr archwiliad.

Mae disgrifiad pellach o fy nghyfrifoldebau am archwilio'r datganiadau ariannol i'w gael ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol: **www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities**. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o fy nhystysgrif.

### Cyfrifoldebau eraill yr archwilydd

Mae'n ofynnol i mi gael digon o dystiolaeth archwilio briodol i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Rwy'n cyfathrebu â'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch, ymhlith materion eraill, cwmpas ac amseriad arfaethedig yr archwiliad a chanfyddiadau archwilio arwyddocaol, gan gynnwys unrhyw ddiffygion arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol a nodaf yn ystod fy archwiliad.

### Adroddiad

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn. ●

Gareth Davies
Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol

3 Rhagfyr 2025

Swyddfa Archwilio Genedlaethol
157-197 Buckingham Palace Road
Victoria
Llundain
SW1W 9SP

ADRAN 6

# Perfformiad Ariannol

Tudalennau 58 i 86

# DATGANIADAU ARIANNOL

Datganiad o weithgareddau ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025

| | | 2024-25 | 2024-25 | 2024-25 | 2023-24 |
|---|---|---|---|---|---|
| | | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | NODIADAU | CYFYNGEDIG | ANGHYFYNGEDIG | CYFANSWM | CYFANSWM |
| **INCWM** | | | | | |
| **Incwm o weithgareddau elusennol** | | | | | |
| Incwm y Lefi | 2 | 0 | 228,138 | 228,138 | 202,008 |
| **Incwm Di-Lefi** | | | | | |
| Darparu cyflenwad effeithlon o hyfforddiant | 2 | 12,498 | 33,870 | 46,368 | 46,619 |
| Adfachu cyllid ESFA | | 0 | 0 | 0 | 3,902 |
| Creu llwybrau hyfforddi diffiniedig | 2 | 0 | 84 | 84 | 99 |
| **Cyfanswm incwm di-Lefi** | **2** | **12,498** | **33,954** | **46,452** | **50,620** |
| **Incwm o weithgareddau masnachu** | | | | | |
| Incwm arall | | 0 | 92 | 92 | 52 |
| **Incwm o weithgareddau buddsoddi** | | | | | |
| Incwm buddsoddiadau | | 0 | 5,490 | 5,490 | 5,111 |
| **Cyfanswm incwm** | | **12,498** | **267,674** | **280,172** | **257,791** |
| **Incwm o weithgareddau masnachu** | | | | | |
| **GWARIANT** | | | | | |
| Gwariant ar godi arian | | 0 | 2,675 | 2,675 | 2,415 |
| **Gwariant ar weithgareddau elusennol** | | | | | |
| Darparu cyflenwad effeithlon o hyfforddiant | 4 | 20,724 | 260,385 | 281,109 | 251,749 |
| Gwella llwybr talent yn y diwydiant adeiladu | 4 | 0 | 6,402 | 6,404 | 5,859 |
| Creu llwybrau hyfforddi wedi'u diffinio | 4 | 0 | 8,594 | 8,594 | 7,692 |
| **Cyfanswm gwariant ar weithgareddau elusennol** | | **20,724** | **275,381** | **296,105** | **265,300** |
| Gwariant arall | | 0 | 0 | 0 | 299 |
| **Cyfanswm gwariant** | | **20,724** | **278,056** | **298,780** | **268,014** |
| Incwm net/(gwariant) | | (8,226) | (10,382) | (18,608) | (10,223) |
| Symudiad net mewn cronfeydd - trosglwyddiad o gronfa anghyfyngedig | | 8,226 | (8,226) | 0 | 0 |
| Symudiad net o fewn cronfeydd | | 0 | (18,608) | (18,608) | (10,223) |
| **Enillion a cholledion eraill** | | | | | |
| Enillion ar ailbrisio eiddo rhydd-ddaliadol, peiriannau a pheirianwaith | 7 | 0 | 2,385 | 2,385 | 2,724 |
| Symudiad net o fewn cronfeydd | | 0 | (16,223) | (16,223) | (7,499) |
| **Cysoni cronfeydd** | | | | | |
| Cyfanswm y cronfeydd cronedig ar ddechrau'r cyfnod | 13 | 0 | 95,155 | 95,155 | 102,654 |
| **Cyfanswm y cronfeydd cronedig ar ddiwedd y cyfnod** | 13 | **0** | **78,932** | **78,932** | **95,155** |

Mae'r canlyniadau uchod yn cynnwys yr holl enillion a cholledion cydnabyddedig ac maent yn deillio o weithgareddau parhaus. Mae Nodiadau 1 i 23 ar dudalennau 62 i 86 yn rhan annatod o'r cyfrifon hyn.

## CRONFEYDD YR ELUSEN

## Y FANTOLEN AR 31 MAWRTH 2025

| | | 31 MAWRTH 2025 | 31 MAWRTH 2024 |
|---|---|---|---|
| | NODIADAU | £'000 | £'000 |
| **Asedau sefydlog** | | | |
| Asedau diriaethol | 7 | 19,323 | 16,939 |
| Asedau anniriaethol | 8 | 3,967 | 2,467 |
| **Cyfanswm asedau sefydlog** | | **23,290** | **19,406** |
| **Asedau cyfredol** | | | |
| Stoc | | 151 | 338 |
| Dyledwyr | 9 | 39,297 | 22,976 |
| Arian yn y banc | | 86,885 | 114,915 |
| **Cyfanswm asedau cyfredol** | | **126,333** | **138,229** |
| **Rhwymedigaethau** | | | |
| Credydwyr: Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn | | (39,482) | (25,470) |
| **Asedau cyfredol net** | | **86,851** | **112,759** |
| **Cyfanswm yr asedau llai rhwymedigaethau cyfredol** | | **110,141** | **132,165** |
| Credydwyr: Symiau sy'n dod yn ddyledus ar ôl mwy nag un flwyddyn | | (5,300) | 0 |
| Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau | 11 | (25,909) | (37,010) |
| **Cyfanswm asedau net** | | **78,932** | **95,155** |
| Cronfeydd yr elusen | | | |
| Cronfeydd anghyfyngedig | 13 | 78,932 | 95,155 |
| **Cyfanswm cronfeydd elusennol** | 13 | **78,932** | **95,155** |

Mae Nodiadau 1 i 23 ar dudalennau 62 i 86 yn rhan annatod o'r cyfrifon hyn.

Tim Balcon
Swyddog Cyfrifyddu

3 Rhagfyr 2025

**Wedi'i gymeradwyo gan y Bwrdd ac wedi'i lofnodi ar ei ran gan:**

Syr Peter Lauener KBE, CB
Cadeirydd

3 Rhagfyr 2025

## Datganiad llif arian parod ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025

| | | 2024-25 | 2023-24 |
|---|---|---|---|
| | NODIADAU | £'000 | £'000 |
| **Llifoedd arian o weithgareddau gweithredu** | | | |
| Incwm/(gwariant) net yn unol â'r Datganiad Gweithgareddau Ariannol | | (24,098) | (15,392) |
| Taliadau dibrisiant | 7 | 1,389 | 972 |
| Colled/(elw) ar werthu asedau sefydlog dirweddol | 6 | (140) | (222) |
| Effaith net ailbrisio asedau sefydlog | | 0 | 300 |
| (Cynnydd)/gostyngiad mewn dyledwyr | 9 | (16,321) | 6,346 |
| (Cynnydd)/gostyngiad mewn stoc | | 187 | 142 |
| Cynnydd/(gostyngiad) mewn credydwyr | 10 | 19,312 | 7,071 |
| Cynnydd/(gostyngiad) mewn darpariaethau | 11 | (11,101) | 1,293 |
| **Mewnlif/(all-lif) arian parod net o weithgareddau gweithredu** | | **(30,772)** | **510** |
| **Llifau arian parod o weithgareddau buddsoddi** | | | |
| Llog a dderbyniwyd | | 5,490 | 5,111 |
| Derbyniadau o werthu asedau sefydlog dirweddol | | 237 | 257 |
| Taliadau i gaffael asedau sefydlog dirweddol | 7 | (1,485) | (3,441) |
| Taliadau i gaffael asedau annirweddol | 8 | (1,500) | (2,467) |
| **Mewnlif/(all-lif) arian net o weithgareddau buddsoddi** | | **2,742** | **(540)** |
| Cynnydd/(gostyngiad) mewn arian a'r hyn sy'n cyfateb i arian | | (28,030) | (30) |
| **Arian a'r hyn sy'n cyfateb i arian ar ddechrau'r flwyddyn** | | **114,915** | **114,945** |
| **Arian a'r hyn sy'n cyfateb i arian ar ddiwedd y flwyddyn** | | **86,885** | **114,915** |

Mae Nodiadau 1 i 23 ar dudalennau 62 i 86 yn rhan annatod o'r cyfrifon hyn.

## Cysoni incwm/(gwariant) net yn ôl y Datganiad o Weithgareddau Ariannol i incwm/(gwariant) net yn ôl y SoCF

| | NODIADAU | 2024-25 | 2023-24 |
|---|---|---|---|
| | | £'000 | £'000 |
| **Incwm/(gwariant) net ar gyfer y cyfnod adrodd (yn unol â'r Datganiad o Weithgareddau Ariannol)** | | (18,608) | (10,223) |
| **Addasiadau ar gyfer:** | | | |
| Addasiadau TAW | | 0 | (25) |
| Grant ceir | | 0 | (20) |
| Llog a dderbyniwyd | | (5,490) | (5,111) |
| Addasiadau nad ydynt yn arian parod | | 0 | (13) |
| **Arian parod net a ddarparwyd gan (a ddefnyddiwyd mewn) gweithgareddau gweithredol** | | **(24,098)** | **(15,392)** |

NODIADAU AR Y CYFRIFON 1 / 25

# Nodiadau ar y cyfrifon

## 1. POLISÏAU CYFRIFO

### Endid budd cyhoeddus

Fel elusen, mae CITB yn endid budd cyhoeddus, felly mae'n 'endid sydd â'r prif amcan o ddarparu nwyddau neu wasanaethau er budd y cyhoedd, y gymuned neu'r gymdeithas yn gyffredinol a lle darperir unrhyw ecwiti gyda'r bwriad o gefnogi prif amcanion yr endid yn hytrach na gyda'r bwriad o ddarparu enillion ariannol i ddarparwyr ecwiti, cyfranddalwyr neu aelodau.'

### Busnes gweithredol

Mae'r datganiadau ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025 wedi'u paratoi ar sail 'busnes gweithredol.' Mae'n briodol defnyddio sail busnes gweithredol cyfrifyddu gan nad oes unrhyw ansicrwydd sylweddol yn ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai fwrw amheuaeth sylweddol ar allu CITB i barhau fel busnes gweithredol.

Cyfanswm y treuliau a dalwyd i aelodau'r Bwrdd yn ystod 2024-25 oedd £6,256 (2023-24: £6,255) mewn perthynas â theithio a chynhaliaeth. Cyfanswm y derbynwyr oedd pump (2023-24: chwech). Ni hepgorwyd unrhyw dreuliau materol gan aelodau'r Bwrdd yn ystod y cyfnod hwn. →

## 17. MANYLION Y STAFF

Yn ystod y cyfnod, roedd nifer cyfartalog y staff a gyflogwyd yn uniongyrchol a thros dro gan CITB (wedi'i fynegi mewn cyfwerth ag amser llawn) fel a ganlyn:

| | CYFLOGEDIG YN UNIONGYRCHOL | STAFF DROS DRO | CYFANSWM 2024-25 | CYFANSWM 2023-24 |
|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm | 844 | 17 | 861 | 763 |

Rydym wedi cynyddu niferoedd staff i ailadeiladu capasiti a gallu'r sefydliad, gan sicrhau ein bod wedi'n cyfarparu'n llawn i gyflawni uchelgeisiau ein Cynllun Strategol newydd.

Yn ystod y cyfnod, codwyd y costau canlynol mewn perthynas â'r uchod:

| | 2024-25 | 2023-24 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Cyflogau staff a gyflogir yn uniongyrchol | 42,388 | 36,491 |
| Costau staff dros dro ac asiantaeth | 2,382 | 2,512 |
| Costau dileu swyddi | (52) | 308 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 4,761 | 4,058 |
| Costau pensiwn | 3,009 | 2,571 |
| **Cyfanswm** | **52,488** | **45,940** |

Gellir gweld taliadau a hawliau pensiwn Cyfarwyddwyr Gweithredol CITB yn yr Adroddiad Taliadau ar dudalennau 87 i 96.

Mae costau diswyddo yn 2024-25 yn cynrychioli rhyddhau net y ddarpariaeth yn dilyn ailasesiad o gostau diswyddo amcangyfrifedig ailstrwythuro.

Mae nifer y gweithwyr y mae eu henillion yn fwy na £60,000, gan gynnwys buddion mewn nwyddau ond heb gynnwys cyfraniadau pensiwn, wedi'u hamlinellu o fewn yr ystodau a ddangosir isod:

| | 2024-25 | 2023-24 |
|---|---|---|
| £60,001 - £70,000 | 93 | 114 |
| £70,001 - £80,000 | 56 | 24 |
| £80,001 - £90,000 | 17 | 23 |
| £90,001 - £100,000 | 9 | 7 |
| £100,001 - £110,000 | 0 | 1 |
| £110,001 - £120,000 | 1 | 1 |
| £120,001 - £130,000 | 0 | 3 |
| £130,001 - £140,000 | 3 | 0 |
| £140,001 - £150,000 | 1 | 0 |
| £150,001 - £160,000 | 0 | 1 |
| £160,001 - £170,000 | 1 | 0 |
| £170,001 - £180,000 | 0 | 0 |
| £180,001 - £190,000 | 0 | 1 |
| £190,001 - £200,000 | 1 | 0 |

Cyfanswm y cyfraniadau cyflogwyr a dalwyd yn 2024-25 i adran cyfraniadau diffiniedig Cronfa Bensiwn ITB mewn perthynas â'r gweithwyr hynny sy'n ennill dros £60,000 oedd £977,438 (2023-24: £788,437).

NODIADAU AR Y CYFRIFON 22 / 25

Manylion nifer y staff yn ôl gradd a rhyw ar ddiwedd y cyfnod yw:

| | 2024-25 | 2024-25 | 2024-25 |
|---|---|---|---|
| GRADD | BENYWAIDD | GWRYWAIDD | CYFANSWM |
| Prif Weithredwr | 0 | 1 | 1 |
| Arweinydd L3 | 0 | 1 | 1 |
| Arweinydd L2 | 3 | 2 | 5 |
| Arweinydd L1 | 8 | 15 | 23 |
| Arweinydd Arbenigol SL3 | 15 | 12 | 27 |
| Arweinydd Arbenigol SL2 | 34 | 30 | 64 |
| Arweinydd Arbenigol SL1 | 52 | 45 | 97 |
| Cyfrannwr Arbenigol SC4 | 29 | 47 | 76 |
| Cyfrannwr Arbenigol SC3 | 51 | 99 | 150 |
| Cyfrannwr Arbenigol SC2 | 164 | 109 | 273 |
| Cyfrannwr Arbenigol SC1 | 22 | 12 | 34 |
| Rheolwr Pobl PM3 | 4 | 3 | 7 |
| Rheolwr Pobl PM2 | 4 | 2 | 6 |
| Rheolwr Pobl PM1 | 1 | 0 | 1 |
| Arweinydd Tîm TL3 | 12 | 1 | 13 |
| Arweinydd Tîm TL2 | 3 | 2 | 5 |
| Arweinydd Tîm TL1 | 3 | 2 | 5 |
| Aelod Tîm TM3 | 49 | 21 | 70 |
| Aelod Tîm TM2 | 27 | 17 | 44 |
| Aelod Tîm TM1 | 10 | 9 | 19 |
| APP 18 Plus | 0 | 1 | 1 |
| **Cyfanswm** | **491** | **431** | **922** |

| | 2023-24 | 2023-24 | 2023-24 |
|---|---|---|---|
| GRADD | BENYWAIDD | GWRYWAIDD | CYFANSWM |
| Prif Weithredwr | 0 | 1 | 1 |
| Arweinydd L3 | 1 | 1 | 2 |
| Arweinydd L2 | 2 | 2 | 4 |
| Arweinydd L1 | 8 | 14 | 22 |
| Arweinydd Arbenigol SL3 | 12 | 8 | 20 |
| Arweinydd Arbenigol SL2 | 22 | 29 | 51 |
| Arweinydd Arbenigol SL1 | 42 | 36 | 78 |
| Cyfrannwr Arbenigol SC4 | 22 | 32 | 54 |
| Cyfrannwr Arbenigol SC3 | 45 | 92 | 137 |
| Cyfrannwr Arbenigol SC2 | 113 | 78 | 191 |
| Cyfrannwr Arbenigol SC1 | 42 | 32 | 74 |
| Rheolwr Pobl PM3 | 3 | 3 | 6 |
| Rheolwr Pobl PM2 | 6 | 4 | 10 |
| Rheolwr Pobl PM1 | 2 | 1 | 3 |
| Arweinydd Tîm TL3 | 13 | 3 | 16 |
| Arweinydd Tîm TL2 | 3 | 1 | 4 |
| Arweinydd Tîm TL1 | 3 | 1 | 4 |
| Aelod Tîm TM3 | 44 | 20 | 64 |
| Aelod Tîm TM2 | 27 | 12 | 39 |
| Aelod Tîm TM1 | 4 | 3 | 7 |
| APP 18 Plus | 1 | 2 | 3 |
| **Cyfanswm** | **415** | **375** | **790** |

Dangosir manylion absenoldeb salwch staff ac ymrwymiadau oddi ar y gyflogres yn yr Adroddiad Taliadau (tudalennau 87 - 96).

Manylion staff a adawodd y sefydliad yn ystod 2024-25 yr oedd pecynnau ymadael diswyddo cytundebol yn daladwy iddynt yw:

| | NIFER Y SWYDDI A DDILËWYD YN ORFODOL | | NIFER YR YMADAWIADAU Y CYTUNWYD ARNYNT | | CYFANSWM NIFER Y PECYNNAU YMADAEL YN ÔL BAND COST | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| BAND COST PECYN YMADAEL | 2024-25 | 2023-24 | 2024-25 | 2023-24 | 2024-25 | 2023-24 |
| £0-£25,000 | 0 | 0 | 2 | 8 | 2 | 8 |
| £25,001-£50,000 | 0 | 0 | 0 | 2 | 0 | 2 |
| £50,001-£100,000 | 0 | 0 | 1 | 1 | 1 | 1 |
| **Cyfanswm nifer y pecynnau ymadael** | **0** | **0** | **3** | **11** | **3** | **11** |
| **Cyfanswm y gost £** | **0** | **0** | **75,668** | **186,621** | **75,668** | **186,621** |

## 18. TRETH

Fel elusen gofrestredig, mae CITB wedi'i heithrio rhag treth gorfforaeth ar ei gweithgareddau elusennol o dan adran 505 o Ddeddf Trethi Incwm a Chorfforaeth 1988.

## 19. TRAFODION PARTÏON CYSYLLTIEDIG

Yr adran sy'n noddi CITB yw'r Adran Addysg ac fe'i hystyrir yn barti cysylltiedig y mae CITB wedi cael amryw o drafodion perthnasol ag ef yn ystod y flwyddyn. Caeodd ESFA ar 31 Mawrth 2025, gyda'i swyddogaethau allweddol wedi'u hintegreiddio i'r Adran Addysg.

| | INCWM SY'N CAEL EI GYDNABOD GAN CITB | | YN DDYLEDUS I CITB | |
|---|---|---|---|---|
| | 2024-25 | 2023-24 | 2024-25 | 2023-24 |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| ESFA | 2,658 | 6,182 | 217 | 252 |

| | GWARIANT SY'N CAEL EI GYDNABOD GAN CITB | | YN DDYLEDUS GAN CITB | |
|---|---|---|---|---|
| | 2024-25 | 2023-24 | 2024-25 | 2023-24 |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| ESFA | 0 | 0 | 11,300 | 11,300 |

Yn ogystal, mae rhai aelodau o'r Bwrdd yn dal swyddi dylanwadol a gwneud penderfyniadau gyda sefydliadau y mae CITB wedi trafod â nhw yn ystod y flwyddyn. Datgenir manylion y swyddi a'r cyflogaethau hynny yn yr atodiadau canlynol i'r adroddiad hwn:

- **Mae Atodiad B** (tudalennau 108 i 111) yn dangos cofrestr buddiannau aelodau'r Bwrdd
- **Mae Atodiad C** (tudalennau 112 i 113) yn dangos presenoldeb y Bwrdd a'r Pwyllgor
- **Mae Atodiad D** (tudalennau 114 i 116) yn rhestru aelodau'r Bwrdd a'i Bwyllgorau, gan roi enwau eu cyflogwyr hefyd.

Mae'r trafodion a nodir yn y tablau yn cynnwys derbyniadau o'r Lefi ac incwm o werthu cynhyrchion a gwasanaethau sy'n gysylltiedig â hyfforddiant, yn ogystal â thaliadau am grantiau, deunyddiau a gwasanaethau i sefydliadau a ddosbarthir fel partïon cysylltiedig.

Mae Bwrdd CITB yn diffinio gweledigaeth, cenhadaeth a gwerthoedd y sefydliad. Felly, dim ond trafodion sy'n cynnwys partïon sy'n gysylltiedig ag aelodau'r Bwrdd sy'n cael eu hystyried yn drafodion partïon cysylltiedig ac maent wedi'u cynnwys yn y tablau.

Yn ystod y flwyddyn, ni wnaeth unrhyw reolwyr allweddol, gweithwyr, na phartïon cysylltiedig eraill ymwneud ag unrhyw drafodion perthnasol gyda CITB y tu hwnt i'w tâl, fel yr amlinellir yn yr Adroddiad Taliadau a'r nodiadau Costau Staff. Cynhaliwyd yr holl drafodion ar delerau masnachol arferol ac ar hyd braich. Ni ddaliwyd unrhyw gronfeydd mewn swyddogaeth asiantaeth. →

NODIADAU AR Y CYFRIFON 24 / 25

| | INCWM SY'N CAEL EI GYDNABOD GAN CITB | | SYMIAU SY'N DDYLEDUS I CITB AR DDIWEDD Y CYFNOD | |
|---|---|---|---|---|
| | 2024-25 | 2023-24 | 2024-25 | 2023-24 |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Lefi | 7,161 | 3,767 | 0 | 137 |
| Gwerthiant o gynhyrchion a gwasanaethau sy'n gysylltiedig â hyfforddiant | 57 | 51 | 5 | 6 |
| Grantiau a dalwyd yn ormodol | 0 | 0 | 0 | 137 |
| **Cyfanswm** | **7,218** | **3,818** | **5** | **280** |

| | GWARIANT A GYDNABYDDIR GAN CITB | | SYMIAU SY'N DDYLEDUS GAN CITB AR DDIWEDD Y CYFNOD | |
|---|---|---|---|---|
| | 2024-25 | 2023-24 | 2024-25 | 2023-24 |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Taliad grantiau | 5,488 | 3,260 | 0 | 20 |
| Prynu deunyddiau a gwasanaethau | 264 | 279 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **5,752** | **3,539** | **0** | **20** |

Mae'r cyfansymiau uchod yn ymwneud â'r partïon cysylltiedig canlynol:

| PARTI CYSYLLTIEDIG | LEFI | GWERTHIANT O GYNHYRCHION A GWASNAETHAU | TALIAD GRANTIAU | PRYNU DEUNYDDIAU A GWASNAETHAU | YN DDYLEDUS I CITB |
|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| BAM Nuttall Ltd | 1,314 | 20 | 1,774 | 71 | 2 |
| Cyfle Building Skills | 0 | 0 | 816 | 192 | 0 |
| Abbey Access Centre | 0 | 0 | 29 | 0 | 0 |
| Carmarthenshire Construction Training Association Ltd | 0 | 0 | 35 | 0 | 0 |
| Heart of Wales Property Services | 5 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Grŵp Keltbray | 206 | 2 | 316 | 0 | 0 |
| Grŵp Kier | 1,978 | 22 | 1,291 | 0 | 0 |
| Laing O'Rourke | 2,817 | 0 | 879 | 0 | 0 |
| Coleg Adeiladu Leeds | 0 | 10 | 0 | 1 | 3 |
| Lindum Group Ltd | 172 | 2 | 99 | 0 | 0 |
| Lincoln Group Training Association | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 |
| McLoughlin Group Holdings Ltd | 35 | 0 | 15 | 0 | 0 |
| Novus Property Solutions | 455 | 0 | 111 | 0 | 0 |
| RED Systems Ltd | 37 | 0 | 7 | 0 | 0 |
| Grŵp Robertson | 89 | 0 | 77 | 0 | 0 |
| T. Richard Jones (Betws) Ltd | 53 | 0 | 39 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **7,161** | **57** | **5,488** | **264** | **5** |

NODIADAU AR Y CYFRIFON 25 / 25

Mae datgeliadau partïon cysylltiedig hefyd yn cynnwys unigolion ar lefel y Bwrdd nad oeddent wedi'u penodi mwyach ar ddiwedd y flwyddyn gyda'r dyddiad rhoi'r gorau i'w penodi yn nodi'r pwynt lle cânt eu heithrio o'r datgeliadau hynny.

## 20. OFFERYNNAU ARIANNOL

Dim ond asedau ariannol a rhwymedigaethau ariannol o fath sy'n gymwys fel offerynnau ariannol sylfaenol sydd gan CITB. Caiff offerynnau ariannol sylfaenol eu cydnabod i ddechrau ar werth gwerthiant ac yna eu mesur ar eu gwerth setliad.

Cedwir swm sylweddol o Gronfeydd Wrth Gefn CITB fel arian parod. Yn ogystal â chyfrifon mynediad ar unwaith, mae CITB yn defnyddio cyfrif blaendal tymor byr ac yn benthyca balansau dros nos ar ei gyfrifon cyfredol i elwa o gyfradd llog uwch. Mae'r rhain yn risg isel ac yn ddigonol i fodloni gofynion hylifedd CITB.

## 21. COLLEDION A THALIADAU ARBENNIG

Cyfanswm y dyledion drwg Lefi a ddilëwyd, yn bennaf yn gysylltiedig â chyflogwyr dyledus, oedd £12m o 3,306 eitemau unigol (2023-24: £34.6m, o 6,171 o eitemau).

Ni thalwyd unrhyw log o dan Ddeddf Taliadau Hwyr Dyledion Masnachol (Llog) 1998 (2023-24: Dim).

## 22. RHWYMEDIGAETH AMODOL

Ychydig cyn diwedd y flwyddyn, penderfynodd CITB derfynu ei gontract allanol gyda SSCL yn gynnar a chyhoeddodd hysbysiad ar 31 Mawrth i ddod i rym ar 1 Ebrill 2025, ar ôl diwedd y flwyddyn. Wedi hynny, cytunwyd ar ymadawiad graddol, sy'n cynnwys iawndal cytundebol, taliadau torri a thaliadau eraill sy'n gysylltiedig ag ymadael hyd at uchafswm o £2m a fydd yn cael ei leihau wrth i bob cam o'r ymadawiad gael ei gwblhau. Nid yw'r gwerth wedi'i gydnabod yn y cyfrifon gan na ellir mesur y swm yn ddibynadwy ar hyn o bryd.

## 23. DIGWYDDIADAU AR ÔL DYDDIAD Y FANTOLEN

Cafodd terfynu ein contract allanoli gydag SSCL ei effeithio gan hysbysiad a gyflwynwyd ar 1 Ebrill 2025. Awdurdodwyd y datganiadau ariannol i'w cyhoeddi gan y Bwrdd ar y dyddiad y llofnododd y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol. Nid yw digwyddiadau ar ôl y dyddiad hwn wedi'u hystyried ac nid oes gan Ymddiriedolwyr yr elusen y pŵer i ddiwygio'r datganiadau ariannol ar ôl eu cyhoeddi.

Ar 16 Medi 2025, gwnaeth y Prif Weinidog ddatganiad gweinidogol ysgrifenedig i gyhoeddi newid i strwythur y Llywodraeth a fydd yn effeithio ar CITB. Bydd cyfrifoldeb am brentisiaethau, addysg bellach i oedolion, sgiliau, hyfforddiant a gyrfaoedd, a Skills England, yn symud o'r Adran Addysg i'r Adran Gwaith a Phensiynau. Mae'r digwyddiad hwn wedi'i ddosbarthu fel digwyddiad ôl-fantolen nad yw'n addasu, heb unrhyw effaith ar y perfformiad neu'r sefyllfa ariannol a adroddwyd. ●

ADRAN 7

# Adroddiad Taliadau

Tudalennau 87 i 96

# Aelodaeth

Mae'r Pwyllgor Enwebiadau, Penodiadau a Chyflogau yn Bwyllgor o'r Bwrdd. Mae ei gylch gorchwyl yn nodi, ymhlith materion eraill, y bydd y Pwyllgor yn cynghori ac yn rhoi sicrwydd i'r Bwrdd ynghylch uwch benodiadau, eu polisi tâl, cynllunio olyniaeth aelodau'r tîm Gweithredol a'r tîm Arweinyddiaeth, a monitro KPIs sy'n seiliedig ar bobl.

Fel arfer, mae gan y Pwyllgor dri Ymddiriedolwr Bwrdd, ac mae un ohonynt wedi'i benodi'n Gadeirydd. Mae'r Prif Swyddog Gweithredol a'r Cyfarwyddwr Pobl yn darparu gwybodaeth i'r Pwyllgor i lywio ei benderfyniadau

# Polisi ar dâl cyfarwyddwyr

Caiff tâl unigol Cyfarwyddwyr Gweithredol ei adolygu'n flynyddol mewn perthynas â newidiadau yn y farchnad allanol ac asesiad o berfformiad unigol, fel y tystia'r broses rheoli perfformiad. Mae taliadau perfformiad unigol, nad ydynt wedi'u cyfuno â chyflogau blynyddol, yn cael eu gosod o fewn ystod o 0%-10% o gyflog sylfaenol y Cyfarwyddwyr Gweithredol. Mae pob gweithiwr, gan gynnwys Cyfarwyddwyr Gweithredol, yn gymwys i fod yn aelod o Gynllun Cronfa Pensiwn yr ITB.

# Polisi ar gontractau, cyfnodau rhybudd a thaliadau terfynu

Mae'r holl Gyfarwyddwyr Gweithredol yn weithwyr parhaol i'r sefydliad ac mae ganddynt gyfnod rhybudd o chwe mis.

Telir taliadau terfynu, os yn berthnasol, yn unol â thelerau ac amodau cytundebol CITB. Ni wneir unrhyw daliadau ychwanegol na dewisol y tu allan i delerau cytundebol.

# Tâl nad yw'n arian parod

Ac eithrio ceir cwmni, yswiriant iechyd, yswiriant deintyddol ac yswiriant salwch critigol (ni ddarperir y ddau olaf fel hawl swydd), ni ddarperir tâl nad yw'n arian parod. Mae darparu ceir cwmni ac yswiriant iechyd yn rhan o delerau ac amodau cyflogaeth safonol ar gyfer staff ar raddfeydd uwch. Fel dewis arall, gellir talu lwfans car yn lle darparu car cwmni.

# Cyflog a hawliau pensiwn

Mae'r adrannau ar y tudalennau canlynol yn rhoi manylion y tâl am y flwyddyn a buddion pensiwn aelodau uchaf staff CITB.

# Tâl aelodau'r Bwrdd

Nid yw'r Pwyllgor Enwebiadau, Penodiadau a Chyflogau yn gyfrifol am ystyried tâl aelodau'r Bwrdd. Mae taliadau i'r Cadeirydd yn cael eu cymeradwyo gan yr Ysgrifennydd Gwladol gyda chymeradwyaeth Trysorlys EF o dan Atodlen 1 adran 4 o Ddeddf Hyfforddiant Diwydiannol 1982. Mae Nodyn 16 – Tâl aelodau'r Bwrdd yn rhoi manylion am dâl y Cadeirydd yn ogystal â threuliau aelodau'r Bwrdd. →

## TIM BALCON

**Prif Weithredwr**

Daeth Tim yn Brif Weithredwr CITB ym mis Medi 2021. Mae'n canolbwyntio ar greu system sgiliau sy'n cydnabod galluoedd a chryfderau personol unigolion yn well, gan roi'r cymwyseddau a'r galluoedd sydd eu hangen ar gyflogwyr.

Yn flaenorol, arweiniodd y Sefydliad Rheoli ac Asesu Amgylcheddol, gan drawsnewid ei weledigaeth a'i berfformiad. Roedd hefyd yn Brif Weithredwr Cyngor Sgiliau'r Sector Ynni a Chyfleustodau (Sgiliau'r UE), gan greu'r Academi Sgiliau Genedlaethol ar gyfer Pŵer a sicrhau cyllid mawr gan Ofgem.

Mae arbenigedd Tim mewn addysg a sgiliau yn cael ei adlewyrchu yn ei rolau blaenorol ar fwrdd Ofqual yn ystod diwygiadau mawr a Bwrdd Diwygio Cymwysterau Galwedigaethol y DU.

## NICHOLAS PAYNE

**Prif Swyddog Ariannol**

Cyn ymuno â CITB ym mis Tachwedd 2022, bu Nick yn gweithio mewn amrywiaeth o rolau uwch cyllid, masnachol a gweithredol ar draws y Llywodraeth, plismona a'r sector preifat. Yn ddiweddarach, roedd hyn yn cynnwys Prif Swyddog Gweithredu Swyddfa Gogledd Iwerddon, Cyfarwyddwr Gweithrediadau Cyllid a Digidol yn Adran Gyfreithiol y Llywodraeth, a Chyfarwyddwr Craffu Masnachol a Pholisi Diwydiannol yn y Weinyddiaeth Amddiffyn.

Fel Prif Swyddog Ariannol, mae Nick yn gyfrifydd cymwys gyda mwy na 30 mlynedd o brofiad ac yn weithiwr proffesiynol masnachol cymwys, y mae ei bortffolio'n cynnwys cyllid, gweinyddu'r Lefi, cyflogres, rheoli masnachol a chontractau, caffael, ystadau, rheoli cyfleusterau a fflyd, cynllunio busnes, rheoli perfformiad a phortffolio, a data, digidol a thechnoleg. Yn ogystal, mae ganddo gyfrifoldeb corfforaethol am gynaliadwyedd, parhad busnes, ac iechyd a diogelwch.

Blaenoriaethau Nick yw creu amgylchedd i gydweithwyr gyflawni canlyniadau llwyddiannus i gyflogwyr, dysgwyr a darparwyr, gan ddangos gwerth ac effaith CITB ar y diwydiant.

## KIRSTY EVANS

**Pennaeth Gweithredol – NCC a Phrentisiaethau CITB yr Alban**

Ymunodd Kirsty Evans â CITB ym mis Mawrth 2024 fel Pennaeth Gweithredol NCC a Phrentisiaethau CITB yr Alban. Mae hi'n goruchwylio darpariaeth prentisiaethau a hyfforddiant ar draws safleoedd NCC yn Lloegr a'r Alban ac yn arwain Prentisiaethau Modern mewn partneriaeth â cholegau'r Alban.

Yn flaenorol, roedd gan Kirsty rolau uwch yn yr Adran Addysg, gan gynnwys Cyfarwyddwr Rhanbarthau a Darparwyr, lle bu'n rheoli iechyd ariannol sefydliadau addysg bellach. Gwasanaethodd hefyd yn yr Asiantaeth Ariannu Addysg a Sgiliau, gan ganolbwyntio ar gyllido a goruchwylio addysg ôl-16.

Mae Kirsty yn angerddol am sicrhau bod hyfforddiant yn darparu gwerth gwirioneddol i ddysgwyr, cyflogwyr, a'r economi ehangach.

## DEBORAH MADDEN

**Cyfarwyddwr Gweithredol – Ymgysylltu'r Gwledydd**

Ers ymuno â CITB ym 1997, mae Deb wedi ymgymryd â sawl rôl reoli ardal a rhanbarthol sy'n canolbwyntio ar gyflawni gweithredol, ac yna swydd arweinyddiaeth mewn prentisiaethau ac fel Cyfarwyddwr Ymgysylltu yn Lloegr.

Mae hi bellach yn goruchwylio'r timau ymgysylltu yng Nghymru, Lloegr a'r Alban, yn ogystal â'r timau Marchnata a Phrofiad Cwsmeriaid, gan ganolbwyntio ar ymgysylltu'n weithredol â chwsmeriaid a rhanddeiliaid, darparu cyfathrebu mewnol ac allanol effeithiol, gyrru datblygiad ymyriadau newydd, a chefnogi'r defnydd o gynhyrchion a gwasanaethau CITB.

Mae Deb yn angerddol am ddatblygu a meithrin pobl i gael y canlyniadau gorau posibl i'r diwydiant.

## ADRIAN BECKINGHAM

**Cyfarwyddwr Strategaeth a Pholisi**

Daeth Adrian yn Gyfarwyddwr Strategaeth a Pholisi CITB ym mis Mehefin 2022. Mae Adrian wedi mwynhau amrywiaeth o rolau uwch yn ystod ei gyfnod yn CITB ar ôl ymuno yn 2001. Mae ei swyddi'n cynnwys Pennaeth Gwobrau Sgiliau; Pennaeth Gwella Busnes; Cyfarwyddwr Newid; ac yn fwyaf diweddar, Cyfarwyddwr Perfformiad Corfforaethol.

Yn ei rôl bresennol, mae Adrian yn arwain y swyddogaethau strategaeth, dadansoddi a rhagweld y diwydiant, cysylltiadau polisi a Llywodraeth, a datblygu cynnyrch. Ei brif ffocws yw sicrhau bod gan CITB weledded clir o anghenion sgiliau presennol a dyfodol, a bod y sefydliad wedi'i gyfarparu â'r seilwaith a'r atebion sy'n angenrheidiol i ddiwallu'r gofynion hynny.

## NADINE PEMBERTON JN BAPTISTE

**Cyfarwyddwr Cyfreithiol, Llywodraethu a Chydymffurfiaeth**

Ymunodd Nadine â CITB ym mis Rhagfyr 2023. Mae ei phortffolio yn cynnwys cyfreithiol, cydymffurfiaeth ITA, llywodraethu gwybodaeth, llywodraethu corfforaethol, archwilio a risg. Mae rolau blaenorol yn cynnwys Cyfarwyddwr Gweithredol a Chynghorydd Cyffredinol yn y Comisiwn Hapchwarae, Cyfarwyddwr Gweithredol yn Social Work England, a Phennaeth Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol yn y Comisiwn Ansawdd Gofal.

Yn gyfreithwraig gymwys ers dros 20 mlynedd, mae Nadine wedi trawsnewid sefydliadau a chyflawni prosiectau mawr Llywodraeth y DU. Mae hi'n gyfryngwr sifil a masnachol, yn hyfforddwr ardystiedig, yn hwylusydd Meddwl Amgylchedd ac yn Ymddiriedolwr Cyngor yn y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. Mae Nadine wedi ymrwymo i degwch a chynhwysiant ym mhob agwedd ar ei gwaith.

Cyfanswm y buddion cyflogeion a dderbyniwyd gan yr Ymddiriedolwyr a'r Cyfarwyddwyr Gweithredol am eu gwasanaethau i CITB yn ystod y flwyddyn oedd £977,438 (2023-24: £796,284).

# Taliadau 2024-25 (wedi'u harchwilio)

| | CYFLOG A LWFANSAU | BUDDION O FATH ARALL | BONWS | BUDDION PENSIWN | CYFANSWM 2024-25 |
|---|---|---|---|---|---|
| | | £100 AGOSAF | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Tim Balcon**<br>Prif Weithredwr | 175-180 | 1,100 | 10-15 | 15 | 205-210 |
| **Adrian Beckingham**<br>Cyfarwyddwr Strategaeth a Pholisi | 125-130 | 1,500 | 5-10 | 11 | 140-145 |
| **Kirsty Evans**<br>Pennaeth Gweithredol, Coleg Adeiladu Cenedlaethol (NCC) a Phrentisiaethau CITB yr Alban | 135-140 | 900 | 0 | 8 | 140-145 |
| **Deborah Madden**<br>Cyfarwyddwr Gweithredol, Ymgysylltu Gwledydd | 135-140 | 900 | 5-10 | 12 | 155-160 |
| **Nicholas Payne**<br>Prif Swyddog Ariannol | 155-160 | 1,100 | 5-10 | 13 | 175-180 |
| **Nadine Pemberton Jn Baptiste**<br>Cyfarwyddwr Cyfreithiol, Llywodraethu a Chydymffurfiaeth | 130-135 | 2,100 | 0-5 | 8 | 145-150 |



# Taliadau 2023-24 (wedi'u harchwilio)

| | CYFLOG A LWFANSAU | BUDDION O FATH ARALL | BONWS | BUDDION PENSIWN | CYFANSWM 2024-25 |
|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £100 AGOSAF | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Tim Balcon**<br>Prif Weithredwr | 175-180 | 1,00 | 5-10 | 15 | 200-205 |
| **Adrian Beckingham**<br>Cyfarwyddwr Strategaeth a Pholisi | 115-120 | 1,900 | 5-10 | 10.5 | 135-140 |
| **Emma Black**<br>Cyfarwyddwr Cyfreithiol, Llywodraethu a Chydymffurfiaeth | 65-70 | 900 | 5-10 | 4.5 | 80-85 |
| **Jackie Ducker**<br>Cyfarwyddwr Cwsmer a Chynnyrch | 10-15 | 100 | 0 | 0.7 | 10-15 |
| **Kirsty Evans**<br>Pennaeth Gweithredol, Coleg Adeiladu Cenedlaethol (NCC) a Phrentisiaethau CITB yr Alban | 0-5 | 0 | 0 | 0.2 | 0-5 |
| **Deborah Madden**<br>Cyfarwyddwr Gweithredol, Ymgysylltu Gwledydd | 115-120 | 800 | 0 | 9.6 | 125-130 |
| **Nicholas Payne**<br>Prif Swyddog Ariannol | 150-155 | 1,000 | 0-5 | 12.8 | 165-170 |
| **Nadine Pemberton Jn Baptiste**<br>Cyfarwyddwr Cyfreithiol, Llywodraethu a Chydymffurfiaeth Dros Dro | 40-45 | 500 | 0 | 2.5 | 45-50 |

Y bandiau cyflog blynyddol cyfwerth â blwyddyn lawn (£'000) ar gyfer y rhai a adawodd yn ystod 2023-24 oedd:

Jackie Ducker: 125-130
Emma Black: 115-120

Y bandiau cyflog blynyddol cyfwerth â blwyddyn lawn (£'000) ar gyfer y rhai a ymunodd yn ystod 2023-24 oedd:

Nadine Pemberton Jn Baptiste: 130-135
Kirsty Evans: 130-135

# Datgeliadau cyflog teg (wedi'u harchwilio)

## CYMAREBAU CYFARWYDDWYR AR Y CYFLOGAU UCHAF O GYMHARU Â GWEITHLU'R SEFYDLIAD

Mae'n ofynnol i CITB ddatgelu'r berthynas rhwng cyflog ei Gyfarwyddwr Gweithredol â'r cyflog uchad a chyflog chwartel isaf, canolrifol a chwartel uchaf gweithlu'r sefydliad (yn seiliedig ar gyfwerth ag amser llawn).

| | 2024-25 | 2023-24 |
|---|---|---|
| Cyfanswm tâl y Cyfarwyddwr Gweithredol sy'n ennill fwyaf (£'000) | 190-195 | 185-190 |
| Cyfanswm tâl canolrifol (£) | 47,840 | 46,122 |
| Cymhareb tâl y Cyfarwyddwr Gweithredol sy'n ennill fwyaf i dâl y gweithiwr yn y chwartel isaf | 4.7:1 | 4.7:1 |
| Cymhareb tâl y Cyfarwyddwr Gweithredol sy'n ennill fwyaf i dâl canolrifol | 4.0:1 | 4.1:1 |
| Cymhareb tâl y Cyfarwyddwr Gweithredol sy'n ennill fwyaf i dâl y gweithiwr yn y chwartel uchaf | 3.3:1 | 3.4:1 |

Roedd y cynnydd canrannol o'r flwyddyn ariannol flaenorol ar gyfer cyflog a lwfansau'r Cyfarwyddwr Gweithredol â'r cyflog uchaf yn 3%.

Roedd y cynnydd canrannol o'r flwyddyn ariannol flaenorol ar gyfer tâl perfformiad a bonws y Cyfarwyddwr Gweithredol â'r cyflog uchaf yn 67%.

Roedd y cynnydd canrannol o'r flwyddyn ariannol flaenorol ar gyfer cyflog a lwfansau cyfartalog i bob gweithiwr FTE yn 1%.

Roedd y newid yn y tâl perfformiad a'r bonws cyfartalog i weithwyr FTE yn 2024-25 yn gynnydd o 18%.

Yn 2024-25, ni dderbyniodd unrhyw weithwyr dâl a oedd yn fwy na'r Cyfarwyddwr Gweithredol â'r cyflog uchaf (2023-24: dim).

Yn unol â chanllawiau tâl teg, nid yw'r tâl a nodwyd uchod yn cynnwys buddion pensiwn. Cyfrifir canrannau a chymharebau gan ddefnyddio canolbwynt band cyflog y cyfarwyddwr sy'n cael y cyflog uchaf. →

## GWEITHWYR SY'N CYNRYCHIOLI POB CHWARTEL CYFLOG

| | 2024-25 | 2024-25 | 2023-24 | 2023-24 |
|---|---|---|---|---|
| | CYFANSWM Y TÂL A'R BUDDION | CYFLOG A LWFANSAU | CYFANSWM Y TÂL A'R BUDDION | CYFLOG A LWFANSAU |
| CHWARTEL | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Chwartel isaf | 41 | 41 | 40 | 40 |
| Canolrif | 48 | 48 | 46 | 46 |
| Chwartel uchaf | 58 | 58 | 56 | 56 |

Roedd cyflog cyfwerth ag amser llawn yn amrywio o £20,000 i £193,000 (2023-24: £20,000 i £185,000).

### Manylion absenoldeb staff oherwydd salwch (heb ei archwilio)

| 2024-25 | 2024-25 | 2023-24 | 2023-24 |
|---|---|---|---|
| DIWRNODAU A GOLLWYD | CYFRADD ABSENOLDEB | DIWRNODAU A GOLLWYD | CYFRADD ABSENOLDEB |
| 7,096 | 3.3% | 6,884 | 3.7% |

Cyfrifir y gyfradd absenoldeb fel canran o'r staff hynny sydd ar gael i weithio.

### Trosiant staff (wedi'i archwilio)

Fel y dangosir yn y tabl isod, mae trosiant wedi gostwng yn ystod y adrodd o'i gymharu â 2024-25.

| | 2024-25 | 2023-24 |
|---|---|---|
| Trosiant staff | 8.7% | 12.2% |

### Polisïau cyflogaeth

Mae gennym ystod o bolisïau cyflogaeth i gefnogi ein staff yn unol â'n huchelgais i fod yn gyflogwr o ddewis. Yn ogystal, mae gennym Fforwm Llysgenhadon Cydweithwyr sy'n canolbwyntio ar ymgysylltu cadarnhaol â chydweithwyr ar draws y busnes i annog adborth a rhannu arfer gorau ynghylch gwelliannau busnes.

### Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

Rhoddir ystyriaeth lawn a theg i geisiadau am gyflogaeth gan bobl anabl, gan ystyried eu doniau a'u galluoedd. Cefnogir cydweithwyr presennol hefyd yn ystod eu taith gyflogaeth i'w galluogi i weithio hyd at eu potensial perfformiad. Cyflwynir hyfforddiant Addasiadau Rhesymol i reolwyr yn rheolaidd, gan ddarparu addysg ar ein dyletswyddau cyfreithiol i wneud addasiadau rhesymol a phwysigrwydd meithrin sgwrs agored gyda chydweithwyr.

Rydym yn cynnal aelodaeth o Fforwm Anabledd Busnes sy'n tynnu sylw at ein hymrwymiad ac yn darparu mynediad at gyngor a chefnogaeth ar gynhwysiant anabledd i gael gwared ar rwystrau i gydweithwyr anabl.

Mae strategaeth Tegwch, Cynhwysiant a Pharch (FIR) CITB yn sicrhau ein bod yn codi ymwybyddiaeth, yn herio stigma a rhagfarn, ac yn ysgogi newid wrth greu'r amgylchedd cywir i gydweithwyr ffynnu ac i fod yn 'eu hunain dilys a gorau' yn y gwaith. Mae strategaeth FIR yn canolbwyntio ar sut rydym yn ymgysylltu, yn galluogi ac yn grymuso cydweithwyr i gyflawni'r canlyniadau hyn, nid yn unig y prosesau neu'r trafodion sy'n ofynnol i gefnogi'r polisïau hyn sy'n canolbwyntio ar bobl, ond i sicrhau eu bod yn adlewyrchu anghenion gweithlu CITB.

Rydym wedi ymrwymo i gynnal amgylchedd gwaith parchus a chynhwysol lle mae pob cydweithiwr yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi. Yn unol â'r ymrwymiad hwn, ac yn ystod 2024-25, rydym wedi adolygu a diweddaru ein Polisi Urddas yn y Gwaith, Gwrth-Aflonyddu a Gwrth-Fwlio i fynd i'r afael â phryderon yn well, egluro disgwyliadau, a gwella ein gweithdrefnau ar gyfer ymdrin ag unrhyw ddigwyddiadau cysylltiedig. →

Nid oes lle i fwlio ac aflonyddu, erledigaeth, na gwahaniaethu o unrhyw fath yn CITB ac ni fyddant yn cael eu goddef. Mae hyn yn cynnwys pob math o aflonyddu rhywiol. Lle mae pryderon yn codi, rydym am i gydweithwyr godi'r rhain cyn gynted â phosibl a theimlo eu bod yn cael eu cefnogi wrth wneud hynny. Bydd pryderon a godir yn cael eu cymryd o ddifrif a'u rheoli'n sensitif, cyn gynted â phosibl, gydag unigolion yn cael cynnig cefnogaeth trwy ein Rhaglen Cymorth i Weithwyr, ein rheolwyr, ac arweinwyr yn CITB.

Mae Fforwm Llysgenhadon Cydweithwyr wedi cyfarfod yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn ac wedi canolbwyntio ar y ffyrdd y gall y sefydliad gefnogi ei gydweithwyr orau. Mae'r fforwm wedi parhau â'i gynllun cydnabod llwyddiannus, sydd wedi gweld dros 250 o unigolion yn derbyn cydnabyddiaeth am eu hymdrechion i fynd y tu hwnt i gefnogi eu cydweithwyr. Mae wedi hyrwyddo gwaith o amgylch cyflog a buddion, (ochr yn ochr â NARCO) i gyflawni newid cadarnhaol, ac mae wedi cyfarfod ag aelodau o Fwrdd CITB i drafod barn cydweithwyr. Etholwyd carfan newydd o Lysgenhadon Cydweithwyr yn ystod y flwyddyn, gyda chwe chydweithiwr o bob rhan o CITB yn ymuno â'r grŵp presennol o saith.

### Cymorth iechyd, diogelwch a llesiant

Yn ystod 2024-25, cofnodwyd cyfanswm o 80 o ddigwyddiadau iechyd a diogelwch. Roedd 38 yn NCC Dwyrain (Bircham Newton), dau yn SMH (Peterborough), 22 yn NCC yr Alban (Inchinnan), 12 yn NCC De (Erith), un gartref, a phump a adroddwyd gan ein timau symudol.

O'r 80 o ddigwyddiadau a adroddwyd, roedd 38 yn anafiadau bach, 16 yn ddamweiniau agos, 19 gweithred anniogel, pedwar adroddadwy RIDDOR a thri amgylcheddol.

Mae'r ffigurau a adroddwyd wedi gostwng eleni ar gyfer pob safle, gyda'r gostyngiad mwyaf arwyddocaol yn NCC Dwyrain Lloegr (i lawr 43%), gostyngodd NCC De Lloegr 33% (set ddata lai) ac roedd gostyngiad o 15% yn NCC yr Alban. Y gostyngiad mwyaf arwyddocaol yn ôl math o adroddiad yw gweithredoedd anniogel, a ostyngodd 71%. Mae hwn yn ganlyniad ffafriol o ystyried y cynnydd yn nifer y dyddiau cyflwyno i ddysgwyr yn NCC (i fyny 16%) a chynnydd o 19% yn nifer y cydweithwyr.

Cadwodd CITB ei ardystiad i BSI 45001 ar gyfer iechyd a diogelwch ac i BSI 45003 ar gyfer lles. →

### Staff ymgynghorol a dros dro

| | 2024-25 | 2023-24 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Costau staff dros dro ac asiantaeth | 2, 360 | 2,512 |
| Ymgynghorol | 248 | 85 |

Roedd y cynnydd mewn gwariant ymgynghori yn 2024–25—o £85,357 yn y flwyddyn flaenorol i £248,077—yn bennaf oherwydd cefnogaeth ychwanegol a ddarparwyd i NCC.

| Ymrwymiadau oddi ar y gyflogres ar 31 Mawrth 2025, am fwy na £245 y dydd | 2024-25 |
|---|---|
| **Nifer yr ymrwymiadau presennol ar 31 Mawrth 2025:** | |
| Llai nag un flwyddyn ar adeg yr adroddiad | 0 |
| Rhwng un a dwy flynedd ar adeg yr adroddiad | 0 |
| Rhwng dwy a thair blynedd ar adeg yr adroddiad | 0 |
| Rhwng tair a phedair blynedd ar adeg yr adroddiad | 0 |
| Am bedair blynedd neu fwy | 0 |

| Gweithwyr oddi ar y gyflogres a gyflogwyd ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn yn dod i ben ar 31 Mawrth 2025 ac sy'n ennill o leiaf £245 y dydd | 2024-25 |
|---|---|
| **Nifer y gweithwyr oddi ar y gyflogres a gyflogwyd yn ystod y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2025, o'r rhain:** | |
| Nifer a bennwyd fel rhai o fewn cwmpas IR35 | 0 |
| Nifer a bennwyd fel rhai y tu allan i gwmpas IR35 | 2 |
| Nifer yr ymrwymiadau a ailaseswyd at ddibenion cydymffurfio neu sicrwydd yn ystod y flwyddyn | 0 |
| Nifer yr ymrwymiadau a welodd newid i statws IR35 yn dilyn adolygiad | 0 |

Mae'r tabl canlynol yn eithrio'r ymddiriedolwyr sy'n gweithredu fel cyfarwyddwyr anweithredol di-dâl:

| Ar gyfer unrhyw ymrwymiadau oddi ar y gyflogres gan aelodau'r Bwrdd, a/neu, staff uwch â chyfrifoldeb ariannol sylweddol, yn ystod y flwyddyn yn dod i ben ar 31 Mawrth 2025 | 2024-25 |
|---|---|
| **Nifer y gweithwyr oddi ar y gyflogres a gyflogwyd yn ystod y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2025, o'r rhain:** | |
| Nifer penodiadau oddi ar y gyflogres gan aelodau'r Bwrdd, a/neu, uwch staff â chyfrifoldeb ariannol sylweddol, yn ystod y flwyddyn ariannol | 0 |
| Cyfanswm nifer yr unigolion ar y gyflogres ac oddi ar y gyflogres sydd wedi'u hystyried yn "Aelodau'r Bwrdd a/neu uwch staff â chyfrifoldeb ariannol sylweddol", yn ystod y flwyddyn ariannol | 3 |

Tim Balcon
Swyddog Cyfrifyddu

3 Rhagfyr 2025

Syr Peter Lauener KBE, CB
Cadeirydd

3 Rhagfyr 2025



ADRAN 8

# Cynghorwyr Proffesiynol

Tudalennau 97 i 98

## Bancwyr

Barclays Bank Plc
Leicester
Leicestershire
LE87 2BB

## Archwilwyr

Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol
Swyddfa Archwilio Genedlaethol
157-197 Buckingham Palace Road
Llundain
SW1W 9SP

## Cynghorwyr Cyfreithiol

Tîm Cyfreithiol CITB
4 Cyrus Way
Peterborough
PE7 8HP

## Prif Swyddfa

Gweler Atodiad F (tudalen 117) am fanylion y prif swyddfeydd a swyddfeydd cofrestredig.

# Atodiad A: Ôl-troed carbon CITB

Mae CITB wedi ymrwymo i leihau'r allyriadau carbon sy'n gysylltiedig â'i ystâd a'i weithgareddau gweithredol ei hun, gan weithio tuag at sero net.

Mae dangosfwrdd cynaliadwyedd wedi'i ddatblygu, ac yn parhau i gael ei ddatblygu, fel bod allyriadau'n cael eu casglu, eu monitro a'u hadolygu bob chwarter gan y Grŵp Cynaliadwyedd gan alluogi camau gweithredu i gael eu rhoi ar waith i ysgogi newid. Mae Tabl 4 yn dangos cyfanswm yr allyriadau nwyon tŷ gwydr (GHG) ar gyfer y cyfnod adrodd o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol. →

## TABL 4: ALLYRIADAU GHG

| | | | 2024-25 | 2023-24 | 2022-23 | 2021-22 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dangosyddion anariannol** **($tCO_2e$)** | **Cwmpas 1** | **Hylosgi tanwydd**[1] | 983 | 937 | 1,050 | 783 |
| | | **Cludiant sy'n eiddo i/ wedi'i brydlesu**[2] | 142 | 444 | 319 | 126 |
| | | **Allyriadau sy'n ffoi** | 0 | 22 | 18 | 0 |
| | **Cwmpas 2** | **Trydan wedi'i brynu** | 0 | 388 | 381 | 519 |
| | **Cwmpas 3** | **Teithio busnes**[3] | 479 | 197 | 91 | 31 |
| | | **Arosiadau mewn gwesty**[4] | 157 | Heb ei gasglu | Heb ei gasglu | Heb ei gasglu |
| | | **Defnydd o ddeunyddiau a brynwyd (papur)**[5, 6] | 400 | 190 | 192 | 3 |
| | | **Gwaredu gwastraff**[7] | 8 | 5 | 5 | 4 |
| | | **Gweithio gartref**[8] | 219 | 350 | 331 | - |
| | | **Trydan T&D wedi'i brynu**[9] | 37 | 34 | Heb ei gasglu | Heb ei gasglu |
| **Dangosyddion ariannol (£)** | | **Teithio busnes** | 545,839 | 817,179 | 529,426 | 166,841 |
| | | **Arosiadau mewn gwesty**[4] | 1,761,471 | Heb ei gasglu | Heb ei gasglu | Heb ei gasglu |
| | | **Gwrthbwysiadau a brynwyd**[10] | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | **Fesul FTE**[11] | | 2.59 | 3.24 | 3.35 | 2.3 |

ATODIAD A 2 / 9

**Nodiadau Tabl 4:**

Mae ffactorau trosi GHG Defra (set gryno) ar gyfer 2024 wedi'u gymhwysi, oni nodir yn wahanol, ac wedi'u talgrynnu i'r dunnell fetrig agosaf.

[1] Mae'r data'n cynnwys disel gwyn a ddefnyddiwyd ar gyfer cerbydau hyfforddi o 2022-23 ymlaen.

[2] Mae ffactorau trosi maint injan car a math o danwydd bellach wedi'u cymhwyso yn hytrach na'r ffactor trosi ar gyfer car canolig â thanwydd anhysbys, fel y'i defnyddiwyd yn 2021-22, gan roi mwy o gywirdeb ar allyriadau. Mae'r gostyngiad yn 2024-25 oherwydd ychwanegu categori adrodd ar wahân ar gyfer lwfans car at y system dreuliau sy'n caniatáu i'r ffigurau gael eu hadrodd o dan Gwmpas 3 fel ceir preifat.

[3] Yn cynnwys milltiroedd car personol, awyr, rheilffordd, ac, o 2022-23 ymlaen, arhosiadau mewn gwesty. Nid oedd milltiroedd ar gael ar gyfer bysiau, tacsis, ceir tanddaearol na cheir llogi i alluogi cyfrifo'r allyriadau. Mae'r cynnydd yn 2024-25 oherwydd ychwanegu categori adrodd ar wahân ar gyfer lwfans car at y system dreuliau sy'n caniatáu i'r ffigurau gael eu hadrodd o dan Gwmpas 3 fel ceir preifat, a adroddwyd yn flaenorol o dan Gwmpas 1 cerbydau sy'n eiddo i'r cwmni/a brydlesir.

[4] O 2024-25 ymlaen, mae arosiadau gwesty staff ac Ymddiriedolwyr wedi'u gwahanu oddi wrth deithio busnes ac mae bellach yn cynnwys data ar allyriadau o lety gwesty oddi ar y safle'r NCC a ddefnyddir gan ddysgwyr. Ar gyfer 2022-23 a 2023-24, roedd arosiadau gwesty staff ac Ymddiriedolwyr wedi'u cynnwys yn nheithiau busnes.

[5] Mae'r ffactor trosi a gymhwyswyd yn ymwneud â'r ffynhonnell sylfaenol. Mae rhai cynhyrchion papur o ffynonellau wedi'u hailgylchu, er nad yw'n bosibl dangos eu bod o gyflenwad dolen gaeedig.

[6] Mae'r data'n cynnwys deunydd printiedig a argraffwyd gan gwmni argraffu trydydd parti CITB ac mae'n cynnwys y Ffurflen Lefi a'r nodyn canllaw cynhyrchion, cyhoeddiadau, deunyddiau ar gyfer Am Adeiladu a deunydd addysgu ar gyfer y NCC o 2022-23 ymlaen.

[7] Nid yw'n cynnwys allyriadau o wastraff TGCh gan nad ydynt yn hysbys; ac mae trosiadau wedi'u cymhwyso fesul ffrwd wastraff yn hytrach na defnyddio ffactor trosi hylosgi cyffredinol o 21.280 fel y'i cymhwyswyd cyn 2023-24, gan wella cywirdeb.

[8] Wedi'i gyfrifo yn seiliedig ar gyfanswm nifer yr oriau gwaith o staff amser llawn sy'n gweithio gartref yn gytundebol neu'n hyblyg, a staff symudol sy'n gweithio gartref ar gyfartaledd un diwrnod yr wythnos, minws nifer cyfartalog y diwrnodau salwch, diwrnodau hyfforddi wyneb yn wyneb a diwrnodau gwirfoddoli dan gytundeb. Ffigurau wedi'u hail-ddatgan ar gyfer 2023-24 o 350 i 179.

[9] Data Cwmpas 3 ychwanegol wedi'i ychwanegu o 2023-24 ymlaen.

[10] Mae CITB yn gweld prynu gwrthbwysau achrededig fel dewis olaf ac yn anelu at leihau ei allyriadau carbon cymaint â phosibl cyn gwneud unrhyw bryniannau.

[11] Roedd nifer y staff a gyflogwyd yn uniongyrchol ac yn dros dro gan CITB fel cyfartaledd dros y flwyddyn (wedi'i fynegi mewn cyfwerth ag amser llawn) yn 936 (2023-24: 763). →

ATODIAD A 3 / 9

# Lliniaru newid hinsawdd: gweithio tuag at sero net

## ALLYRIADAU GHG – CWMPAS 1 (UNIONGYRCHOL)

### Gwella effeithlonrwydd ynni

Cafodd y cladin haen sengl ar y tri hyfforddi yn NCC Bircham Newton ei ddisodli gan gladin wedi'i inswleiddio, gan leihau colli gwres a gwella effeithlonrwydd ynni.

Parhaodd y gwaith o osod ffenestri gwydr triphlyg yn NCC Bircham Newton gyda chwe adeilad arall wedi'u cwblhau, gan ddarparu gwell inswleiddio ac effeithlonrwydd thermol.

### Cynnydd yn y defnydd o drydan i wresogi ac oeri yn hytrach na ddefnyddio cerosin

Nid yw'r sefydliad hyfforddi yn NCC Bircham Newton wedi'i gysylltu â'r prif gyflenwad nwy. Darperir ynni trwy ddod â thanwydd (cerosin yn bennaf) i'r safle, ynghyd â rhywfaint o gynhyrchu ynni ar y safle o foeler biomas sy'n cael ei danio gan sglodion pren. Nid yw cerosin yn adnewyddadwy ac mae ganddo ôl troed carbon uchel.

Rydym yn parhau i adolygu'r cyfleoedd ar gyfer newid i ffynonellau ynni glân a chynaliadwy. Mae adeilad ychwanegol (Adeilad 12) yn NCC Bircham Newton wedi symud i wresogi ac oeri aerdymheru o gerosin ac ochr yn ochr ag estyniad y rhwydwaith biomas, mae adeiladau pellach wedi'u cynllunio i gael gwresogyddion trydan wedi'u gosod, fodd bynnag, mae hyn yn dibynnu ar alluoedd cynyddu capasiti'r rhwydwaith pŵer i'r safle yn 2025.

### Ceir wedi'u prydlesu a'u perchen gan y cwmni

Fel rhan o'n trawsnewidiad i ddileu ceir petrol a disel yn raddol o'n fflyd i ddim allyriadau drwy bibell wastraff, cynyddwyd lwfansau ceir cwmni yn 2023 i gymell staff i drawsnewid ac i alluogi mwy o geir trydan ar gael drwy ein partner, LEX Autolease. Mae nifer y Cerbydau Allyriadau Sero ac Isel Iawn (ULEVs), h.y. y rhai sy'n cynhyrchu llai na 75g/$CO_2$ y km, yn cynrychioli 47% o gerbydau prydles staff.

Ym mis Mawrth 2025, roedd 53% o gerbydau ceir a oedd yn eiddo i CITB a cherbydau a oedd yn rhan o'r fflyd yn Sero ac yn ULEVs, ac mae disgwyl i'r holl gerbydau disel sy'n weddill gael eu disodli gan rai Sero neu ULEVs yn ystod 2025-26.

### Fflyd fasnachol, peiriannau, peirianwaith ac offer

Cynhaliwyd adolygiad o'n fflyd fasnachol, peiriannau, peirianwaith ac offer a'i asesu yn erbyn Siarter Peiriannau Ysgol Gynaliadwyedd y Gadwyn Gyflenwi a'r safonau gofynnol. Ystyriwyd dewisiadau amgen ar gyfer tanwydd allyriadau isel, fel trydan, hydrogen a biodanwydd a datblygwyd cynllun amnewid i alluogi newid i ffwrdd o ddisel.

Yn ystod y flwyddyn, mae dau graen symudol a Thryc Dadlwytho Cymalog (ADT) wedi'u disodli ag injans Cam V/Haen 4f a oedd yn Haen 2, gan arwain at ostyngiad o 93.9% mewn allyriadau cysylltiedig.

Rydym hefyd yn edrych ar y posibilrwydd o gyflwyno tanwydd Olew Llysiau wedi'i Drin â Dŵr (Hydrotreated vegetable Oil) (HVO), a fyddai'n lleihau'r allyriadau $CO_2$ net ymhellach, gan ddechrau gyda threial cychwynnol ar beiriannau dethol yn 2025. Byddwn yn monitro eu perfformiad ac yn ystyried a ddylid ymestyn y cyflwyniad wedi hynny.

### Allyriadau sy'n ffoi

Mae gan bob uned aerdymheru yn ein sefydliadau hyfforddi lwyth carbon o lai na 30 tunnell ac maent yn cael eu gwasanaethu'n llawn a'u harchwilio'n weledol unwaith y flwyddyn. Nid yw rhai unedau yn NCC Bircham Newton yn cael eu defnyddio mwyach ac maent wedi'u gwneud yn ddiogel a'u dadgomisiynu. Yn ystod y cyfnod adrodd, nid oedd angen unrhyw 'ail-lenwi'.

### Nwy prif gyflenwad 100% adnewyddadwy

Ar hyn o bryd rydym yn defnyddio prif gyflenwad nwy yn NCC Inchinnan ac Erith ac yn parhau i brynu unedau o ffynhonnell ynni adnewyddadwy sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd, sef bio-nwy, gan leihau ein hallyriadau carbon nwy naturiol yn sylweddol. →

ATODIAD A 4 / 9

## ALLYRIADAU GHG – CWMPAS 2 (YNNI ANUNIONGYRCHOL)

**Trydan sy'n 100% di-garbon o fis Ebrill 2024**

O fis Ebrill 2024 ymlaen, mae ein trydan a gaffaelir ar dariff allyriadau sero. Rydym wedi gweld cynnydd yn ein defnydd o drydan, wrth i weithgareddau hyfforddi ym mhob un o'r tri safle NCC gynyddu ac wrth i ni symud tuag at fwy o drydaneiddio, er enghraifft, gosod systemau gwresogi/oeri newydd a phrynu peiriannau a chyfarpar trydan newydd yn lle hen fersiynau sy'n cael eu tanwyddio gan adnoddau cyfyngedig (cerosin a disel).

Cafodd cadarnhad gan Asiantaeth yr Amgylchedd nad oes gofyn i ni gymryd rhan yng Ngham Tri o'r Cynllun Cyfleoedd Arbed Ynni (ESOS), fodd bynnag, rydym yn dal i gynllunio i gwblhau archwiliad ynni i'n helpu i nodi camau gweithredu y gallwn eu cymryd i leihau ein defnydd o ynni a'n costau fel rhan o'n Strategaeth Ystadau.

## ALLYRIADAU GHG - CWMPAS 3 (TEITHIO BUSNES SWYDDOGOL)

Mae pob dull o deithio busnes wedi'i fanylu yn Nhabl 5. Mae hyn yn dangos bod teithio busnes wedi cynyddu dros y cyfnod adrodd oherwydd cynnydd yn nifer y gweithlu, yn bennaf i fynd i'r afael â'r galw cynyddol am ymgysylltiad cyflogwyr, o 763 yn 2023-24 i 936 yn 2024-25; ac mae cynnydd wedi bod yn nifer y cydweithwyr sy'n gymwys i gael lwfans car neu gar cwmni, gyda'r cyntaf yn cael ei ffafrio'n fwy gan gydweithwyr newydd. Bydd cynllun teithio busnes yn cael ei ddatblygu erbyn mis Mawrth 2026, yn unol â gofynion 2025-30 y GGC.

Er gwaethaf cynnydd yn nifer cyffredinol y gweithlu ar wahanol drefniadau cytundebol, gan gynnwys opsiynau gweithio symudol a hyblyg, mae ein hallyriadau gweithio gartref wedi lleihau. Mae'r gostyngiad hwn oherwydd fwy o gywirdeb yn y rhagdybiaethau a gymhwyswyd. →

## TABL 5: CWMPAS 3 – TEITHIO BUSNES SWYDDOGOL

| | | 2024-25 | | 2023-24 | | 2022-23 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | $tCO_2e$ | km | $tCO_2e$ | km | $tCO_2e$ | km |
| **Dull trafnidiaeth[1,2]** | | | | | | | |
| **Teithio awyr domestig** | | 45 | 166,538 | 42[3] | 155,867 | 23 | 99,598 |
| **Teithio awyr rhyngwladol** | | 0.5 | 3,026 | 0 | None | 0 | None |
| **Teithio ar y rheilffordd** | | 46 | 1,294,147 | 30 | 837,578 | 18 | 516,447 |
| **Arosiadau mewn gwesty** | **Staff** | 56 | n/a | 50 | n/a | 30 | n/a |
| | **Prentisiaid[4]** | 101 | | Heb ei gasglu | | Heb ei gasglu | |
| **Cerbyd preifat (Fflyd Lwyd)** | | 479 | 3,846,273 | 20 | 116,887 | 19 | 111,704 |

**Tabl 5: Nodiadau**

[1] Mae set ddata ar gyfer 2023-24 yn defnyddio dyddiad ymadael nid dyddiad yr anfoneb fel y'i defnyddiwyd yn 2022-23 a 2024-25.

[2] Mae'r data'n cynnwys treuliau Ymddiriedolwyr/Pwyllgorau.

[3] Ailddatganwyd o 97 i 42 fel yr adroddwyd yn anghywir yn flaenorol.

[4] Mae'r data bellach yn cynnwys arhosiadau gwesty prentisiaid NCC o 2024-25 ymlaen.

ATODIAD A 5 / 9

## LLEIHAU A RHEOLI GWASTRAFF

Mae ein gwastraff cyffredinol a'r tunelli a anfonir i safleoedd tirlenwi wedi lleihau trwy well effeithlonrwydd adnoddau ac o ymdrechion cadw tŷ blynyddoedd blaenorol, fodd bynnag, mae ein hallyriadau cyffredinol wedi cynyddu oherwydd mwy o weithgareddau hyfforddi a mwy o gywirdeb wrth gymhwyso trosiadau GHG fesul ffrwd wastraff.

Roedd ein gwastraff i safleoedd tirlenwi yn 7%, gan fethu targed GGC o lai na 5% i safleoedd tirlenwi - mae hwn yn darged cyffredinol i'r Llywodraeth ac nid yw'n adlewyrchu natur gweithgareddau hyfforddi CITB. Rydym yn chwilio am gyfleoedd i gynhyrchu gwerth cymdeithasol trwy gydweithio â grwpiau cymunedol lleol a all elwa o eitemau y gellir eu hailddefnyddio. Ym mis Rhagfyr 2024, yn dilyn adnewyddu bloc llety myfyrwyr yn NCC Bircham Newton, casglodd yr elusen (REMO) 35 o welyau, 27 o fyrddau wrth ochr y gwely, 26 o gistiau droriau, dros 100 o blatiau a dros 150 o wydrau, i ddarparu cefnogaeth i'r rhai mewn angen.

Cynyddodd y gyfradd ailgylchu gyffredinol i 39% o'i gymharu â 35% yn 2023-24 ond mae'n parhau i fod islaw targed cyffredinol GCC o 70%. Er mwyn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth gwastraff newydd a gyflwynwyd yn 2024, rydym wedi cyflwyno biniau ychwanegol i helpu gyda gwahanu gwastraff, gan gynnwys ymestyn ein casgliadau ailgylchu anweddau yn NCC Bircham Newton ac Erith. Rydym wedi tynnu sylw at yr angen i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd ailddefnyddio ac ailgylchu, ac mae'n rhan o'n Cynllun Cyfathrebu Cynaliadwyedd yn 2025-26.

Mae partner arlwyo CITB (Sodexo) wedi bod yn gweithio'n weithredol tuag at leihau gwastraff bwyd ym mhob safle NCC. Yn 2024, fe wnaethant gyflwyno system (a elwir yn 'Leanpath') i fesur gwastraff cyn ac ar ôl defnyddwyr, ac i nodi meysydd ffocws posibl ar gyfer lleihau gwastraff. Bydd y rhaglen 'Leanpath' yn cael ei hymestyn i'r safleoedd eraill yn ystod 2025. →

## TABL 6: GWASTRAFF

| | | 2024-25 | 2023-24 | 2022-23 | 2021-22 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Dangosyddion anariannol (tunelli)** | **Cyfanswm y gwastraff (heb gynnwys gwastraff TGCh)** | 365 | 385 | 257 | 183 |
| | **Gwastraff TGCh a ailgylchwyd** | 2.53 | 0.35 | 2.56 | 2 |
| | **Gwastraff TGCh a ailddefnyddiwyd** | 2.48 | 0.9 | 1.03 | 3 |
| | **Gwastraff TGCh peryglus** | 2.89 | 1.02 | 1.27 | 2 |
| | **Gwastraff a ailgylchwyd** | 154 | 157 | 87 | 116 |
| | **Gwastraff Compostio/gwastraff bwyd** | 4.5 | 3.6 | 4.3 | 3.4 |
| | **Gwastraff wedi'i losgi gydag adfer ynni** | 215 | 179 | 133 | 57 |
| | **Gwastraff wedi'i losgi heb adfer ynni** | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | **Gwastraff i safleoedd tirlenwi** | 27 | 49 | 11 | 13 |
| | **Gwastraff WEEE arall nad yw'n TGCh[1]** | 0 | 3.2 | n/a | n/a |
| **Dangosyddion ariannol (£)** | **Prif gontract[2]** | 73,536 | 76,922 | 57,550 | 42,973 |
| | **Gwastraff TGCh** | 0 | 216 | 0 | 0 |
| | **Gwasanaeth gwastraff cyfrinachol[3]** | 2,312 | 8,566 | 2,228 | 2,546 |

**Tabl 6: Nodiadau**

[1] Cynhwyswyd nwyddau gwyn a gasglwyd yn flaenorol yn y tunelli gwastraff peryglus TGCh.

[2] Nid yw'r data perfformiad ar hyn o bryd yn ein galluogi i ddadansoddi'r costau fesul categori gwastraff.

[3] Roedd cost y contract ar gyfer gwastraff papur cyfrinachol cyn 2024-25 yn cynnwys casglu plastigau a WEEE nad yw'n TGCh.

ATODIAD A 6 / 9

## DEFNYDD O BAPUR

Er ein bod yn parhau i annog cyflogwyr yn weithredol i newid i Ffurflenni Lefi ar-lein, mae ein defnydd o bapur wedi cynyddu oherwydd cynnydd mewn deunyddiau a argraffwyd mewn cysylltiad â'n cynlluniau cyhoeddi, Am Adeiladu, a gweithgareddau hyfforddi yn yr NCC.

Rydym yn parhau i archwilio cyfleoedd i symud mwy o gynhyrchion a gwasanaethau o ôl troed print i ôl troed digidol. Yn 2025-26, rydym yn lleihau faint o gramau fesul metr (gsm) o 100 i 90gsm, gan ddarparu arbediad papur o 10%, gyda gostyngiad pwysau cyffredinol disgwyliedig o 16-24 tunnell.

## DŴR

Mae'r defnydd o ddŵr yn gyson â chyfnodau adrodd blaenorol, ac eithrio 2023-24, oherwydd gollyngiad dŵr mawr yn NCC Bircham Newton.

Trwy raglen ailddatblygu ein hystadau, byddwn yn edrych ar y cyfleoedd posibl ar gyfer lleihau'r defnydd o ddŵr, a chynyddu adfer ac ailddefnyddio dŵr, yn enwedig mewn lleoliadau nad ydynt yn swyddfeydd, a gosod targed lleihau a fydd yn cael ei fesur yn erbyn ein hail-linell sylfaen ar gyfer 2025-26. →

ATODIAD A 7 / 9

## TABL 7: DEFNYDD O ADNODDAU CYFYNGEDIG

| | | | 2024-25 | 2023-24 | 2022-23 | 2021-22 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dangosyddion anariannol** | **Ynni** | **Cyfanswm trydan y prynwyd (kWh)[1]** | 2,025,427 | 1,875,538 | 1,971,380 | 2,443,197 |
| | | **Nwy naturiol (kWh)** | 0 | 167,505 | 520,154 | 326,704 |
| | | **Bio-nwy (kWh))[2]** | 652,466 | 477,699 | 0 | 0 |
| | | **LPG (litrau)** | 15,600 | 13,759 | 14,037 | 7,392 |
| | | **Olew cerosin (litrau)** | 263,583 | 307,237 | 352,909 | 291,000 |
| | | **Biomas (tunelli)** | 871 | 716 | 743 | 567 |
| | | **Disel (am beiriannau)[3] (litrau)** | 54,507 | 41,385 | Heb ei gasglu | Heb ei gasglu |
| | **Cyfyngedig** | **Dŵr o drydydd partïon ($m^3$)[4]** | 23,708 | 13,929 | 23,736 | 20,504 |
| | | **Papur (rimiau)[5]** | 119,362 | 83,144 | 83,655 | 1,277 |
| **Dangosyddion ariannol (£)** | **Ynni** | **Trydan** | 637,946 | 608,338 | 581,786 | 486,650 |
| | | **Nwy (naturiol ac LPG)** | 6,076 | 19,609 | 40,892 | 21,594 |
| | | **Bio-nwy** | 69,664 | 44,771 | - | - |
| | | **Cerosin** | 156,317 | 231,770 | 327,607 | 175,256 |
| | | **Disel** | 72,516 | 57,736 | Heb ei gasglu | Heb ei gasglu |
| | | **Biomas** | 35,963 | 28,582 | 32,183 | 21,123 |
| | **Cyfyngedig** | **Dŵr[6]** | 105,750 | 168,997 | 83,337 | 68,984 |
| | | **Papur[7]** | 9,444 | 9,509 | 6,511 | 4,235 |

**Tabl 7: Nodiadau**

[1] Mae trydan a brynwyd ar dariff allyriadau carbon sero ers 1 Ebrill 2024.

[2] O 1 Hydref 2023, fe wnaethom newid ein tariff o nwy naturiol i fiogas.

[3] Roedd ffigurau disel wedi'u cynnwys mewn anfonebau cerosin yn flaenorol, ac mae'r data bellach yn cael ei gofnodi ar wahân.

[4] Nid yw CITB yn echdynnu dŵr (Cwmpas 1) nac yn casglu unrhyw ddŵr (Cwmpas 3). Rhoddwyd credyd lwfans gollyngiadau o 27,843m3 yn erbyn carthffosiaeth ar gyfer y cyfnod 22/12/2023 a 18/03/2024 ar gyfer gollyngiad dŵr mawr.

[5] Gwelodd cyfaint y papur a ddefnyddiwyd gynnydd sydyn ers 2021-22 oherwydd cynnwys deunydd printiedig gan gwmni argraffu trydydd parti CITB sy'n cynnwys y Ffurflen Lefi a nodiadau canllaw a Chyhoeddiadau. Mae cyfrolau wedi parhau i gynyddu gyda'r cynnydd mewn gweithgaredd hyfforddi yn NCC ac ymgysylltiad mwy â chyflogwyr.

[6] O ganlyniad i ollyngiad dŵr yn NCC Bircham Newton yn 2023-24, mae credyd wedi'i gynnwys yn 2024-25.

[7] Mae'r costau'n adlewyrchu pryniannau a wnaed trwy ddarparwr deunydd ysgrifennu CITB ac nid ydynt yn cynnwys costau sy'n gysylltiedig ag eitem 4 uchod. Gobeithiwn allu tynnu'r gost o brynu'r papur o'r argraffu, ac adrodd ar hyn yn y blynyddoedd i ddod. →

ATODIAD A 8 / 9

## CAFFAEL CYNHYRCHION A GWASANAETHAU CYNALIADWY

Ym mis Ebrill 2024, cyflwynwyd ein Cod Ymddygiad Cyflenwyr, sy'n cyd-fynd â safonau Llywodraeth y DU. Mae'r ddogfen hon yn amlinellu ein disgwyliadau ar gyfer cyflenwyr, yn enwedig o ran eu perfformiad amgylcheddol, ac mae wedi'i hymgorffori yn ein Telerau ac Amodau Cytundebol.

Gyda chyflwyniad Deddf Caffael 2023, a'r rhaglen Trawsnewid Caffael Cyhoeddus (TPP), rydym wedi diweddaru ein polisïau a'n prosesau caffael, gan gryfhau ein dull o ymdrin â chynaliadwyedd. Lle mae gan gaffael effaith berthnasol a chymesur ar yr amgylchedd, mae angen cwestiynau tendr a rhoddir pwyslais priodol arnynt.

Mae ein tîm Caffael yn cwblhau e-ddysgu moeseg blynyddol y Sefydliad Siartredig Caffael a Chyflenwi (CIPS), sy'n cwmpasu tair prif golofn y proffesiwn caffael a chyflenwi moesegol, ac un ohonynt yw caffael amgylcheddol.

## CYNLLUNIO GWEITHREDU ADFER NATUR A BIOAMRYWIAETH

Nid oes gennym gyfalaf naturiol sylweddol; fodd bynnag, rydym yn edrych ar ba gyfleoedd sydd i gyflawni enillion bioamrywiaeth net ar draws ystâd CITB. Mae Asesiadau Ecolegol Rhagarweiniol yn cael eu cynnal yn ystod 2025-26 ym mhob safle NCC i sefydlu llinell sylfaen ar gyfer mesur yn y dyfodol ac i lywio datblygiad cynlluniau gwella natur sy'n benodol i'r safle.

Mae ein bioamrywiaeth gyfoethocaf yn ein safle mwyaf yn NCC Bircham Newton yn Norfolk. Oherwydd ei leoliad gwledig, mae ganddo gynefinoedd amrywiol a rhywogaethau cysylltiedig, gan gynnwys mamaliaid (madfallod ac ystlumod), adar sy'n bridio, fel y gylfinir cerrig, plygwyr wystrys a thylluanod, ac amrywiaeth o bryfed, gyda'r olaf yn elwa o blannu planhigion sy'n gyfeillgar i beillwyr y tu allan i'n hardal dderbynfa.

## ADDASU I NEWID YN YR HINSAWDD

Rydym wedi nodi risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd, ac mae'r broses wedi'i hamlinellu yn adran Rheoli Risg TCFD ar dudalen 46.

## LLEIHAU EFFEITHIAU AMGYLCHEDDOL TGCH A DIGIDOL

Mae CITB yn parhau i ddilyn rhaglen sy'n canolbwyntio ar gael gwared ar systemau a chymwysiadau hŷn nad ydynt bellach yn addas at y diben, a mudo gwasanaethau i lwyfannau sy'n cynnig cost rhedeg ac effaith amgylcheddol is. Mae'r rhaglen aeddfed hon yn parhau i adolygu'r ystâd TG sy'n newid yn barhaus ac mae'n mynd ati i wneud hyn yn rhagweithiol, gan nodi gwasanaethau sydd o fewn y cwmpas.

Er bod gwaith yn parhau i ganolbwyntio ar ystâd ar y safle sy'n lleihau'n barhaus, mae ffocws cynyddol ar gynnal a chadw ac optimeiddio'r ystâd cwmwl yn Azure. Bydd hyn yn arwain at ôl troed cwmwl llai, wedi'i optimeiddio i ddarparu gwasanaethau ar adeg y defnydd, yn hytrach na darparu argaeledd 24/7. Bydd hyn yn arwain at ostyngiad yn ein hallyriadau Cwmpas 3.

Yn unol â'n cynlluniau adfywio a darpariaeth Pencadlys newydd, mae'r timau TG ac Ystadau yn gweithio'n agos i sicrhau ein bod yn darparu atebion technoleg sy'n adlewyrchu'r angen i fod yn ymwybodol o'r amgylchedd. Mae dyfeisiau watedd isel, ailddefnyddio eitemau gwasanaethadwy, a chefnogaeth i dechnolegau cyfleusterau mwy gwyrdd, yn rhan o'r cynlluniau hyn. →

ATODIAD A 9 / 9

Caiff offer TG (gliniaduron/desgiau ac ati) ei ail-ddarparu lle bo modd er mwyn cael y bywyd gorau ohonynt a lleihau'r angen i brynu rhai newydd. Lle mae angen gliniaduron/desgiau newydd, mae'r rhain bellach yn cael eu caffael gan gyflenwr sy'n darparu caledwedd wedi'i ailddefnyddio, gan leihau effaith amgylcheddol gweithgynhyrchu ymhellach.

Caiff offer nad yw bellach mewn gwasanaeth ei waredu yn unol â'i hierarchaeth gwastraff.

Mae CITB yn caffael ei wasanaethau cwmwl drwy fframwaith y Llywodraeth 'G-Cloud' a Gwasanaeth Masnachol y Goron (CCS), gan sicrhau bod y cyflenwyr wedi'u "cymeradwyo" a'u trwyddedu gan y Llywodraeth ganolog.

## ADEILADU CYNALIADWY

Er mwyn cefnogi gwyrddu ein hystâd, rydym wedi dewis partner dylunio a pheirianneg. Maent yn rhannu'r gred y dylai cynaliadwyedd fod wrth wraidd yr hyn a wnawn a byddant yn ein cefnogi i ddatblygu'r cynlluniau sydd eu hangen arnom i gyflawni ein targedau sero net, trwy gyfuniad o adeiladu newydd ac ôl-osod, gan ystyried carbon ymgorfforedig. Mae'r sefydliad hyfforddi yn NCC Erith wedi'i flaenoriaethu ar gyfer aildatblygu a bydd cymeradwyaeth gynllunio yn cael ei geisio gan yr awdurdod lleol. ●

ATODIAD B 1 / 4

# Atodiad B: Cofrestr o fuddiannau aelodau'r Bwrdd

## TRAFODION PARTÏON CYSYLLTIEDIG

Rhaid i Ymddiriedolwyr Bwrdd y Cyflogwr fod yn ymwneud â rheoli gweithgareddau cyflogwr sy'n ymwneud â'r diwydiant adeiladu er mwyn i'w penodiad gan yr Ysgrifennydd Gwladol fod yn ddilys. Felly, ac eithrio'r aelodau annibynnol, byddai gan bob Ymddiriedolwr fuddiannau busnes, fel talwyr Lefi a/neu dderbynwyr grantiau posibl, ar ddyddiad eu penodiad, a allai gael eu hystyried yn gwrthdaro â'u cyfrifoldebau fel aelodau'r Bwrdd. Mae'r aelodau Bwrdd canlynol, yn ogystal, wedi datgan buddiannau personol neu fusnes eraill.

### SYR PETER LAUENER KBE, CB

**Cadeirydd CITB**

Penodwyd Syr Peter Lauener yn Gadeirydd CITB ym mis Mai 2018. Daeth Peter i CITB gyda chyfoeth o brofiad yn y sector addysg a sgiliau, ar ôl bod yn Brif Weithredwr yr Asiantaeth Ariannu Addysg a Sgiliau (ESFA) a Phrif Weithredwr dros dro'r Sefydliad Prentisiaethau (IfA), sydd bellach yn Sefydliad Prentisiaethau ac Addysg Dechnegol.

Ynghyd â'i waith ar Fwrdd CITB, mae Peter hefyd wedi bod yn Gadeirydd y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr (SLC), ers mis Ebrill 2020. Mae SLC yn gwmni di-elw sy'n eiddo i'r Llywodraeth, sydd hefyd yn NDPB. Mae'r sefydliad hwn yn gweinyddu benthyciadau a grantiau i fyfyrwyr mewn prifysgolion a cholegau yn y DU.

Peter hefyd yw Cadeirydd Coleg Orchard Hill, sef coleg anghenion arbennig annibynnol wedi'i leoli yn Ne a Gorllewin Llundain. Mae'r coleg hwn yn noddwr ymddiriedolaeth academi anghenion arbennig gyda nifer o academïau yn yr un ardal.

Yn ogystal, mae Peter yn Ymddiriedolwr Educators International, elusen fach sy'n helpu gwledydd sy'n datblygu i wella eu technoleg addysgu a'u gweinyddiaeth.

Ym mis Mehefin 2025, dyfarnwyd urdd farchog i Peter am ei wasanaethau i addysg, i gydnabod dros 40 mlynedd o wasanaeth yn y sector cyhoeddus.

## YMDDIRIEDOLWYR BWRDD Y CYFLOGWYR

### KEVIN MCLOUGHLIN

**Rheolwr Gyfarwyddwr, McLoughlin Group Holdings Ltd**

Kevin McLoughlin MBE yw sylfaenydd a Rheolwr Gyfarwyddwr yr SME McLoughlin Group Holdings Ltd sydd wedi'i leoli yn Llundain. Mae'r cwmni'n gefnogwr brwd o brentisiaethau.

Dyfarnwyd MBE i Kevin yn 2014 am ei wasanaethau i sgiliau a phrentisiaethau ac mae'n Gymrawd o'r Sefydliad Siartredig Adeiladu (CIOB). Mae Kevin yn aelod o GMB, yn Liveryman of Painters and Stainers, ac yn Freeman of the City of London.

Mae hefyd yn Bartner ym Mhartneriaeth Busnes Maxine and Kevin Property.

### TONY ELLIOTT

**Cyfarwyddwr Gweithredol Pobl, Grŵp Robertson**

(daeth ei dymor i ben 21 Mehefin 2024)

Mae gan Tony Elliott dros 30 mlynedd o brofiad ym meysydd talent, pobl a dysgu, ac mae'n rhan o'r tîm gweithredol yn Robertson, un o gwmnïau gwasanaethau adeiladu a seilwaith preifat mwyaf y DU. Mae Tony yn teimlo'n gryf am ddatblygu pobl a thyfu talent mewnol, denu talent newydd, a sicrhau bod setiau sgiliau'n cael eu gwella a'u diogelu ar gyfer y dyfodol o fewn adeiladu. →

ATODIAD B 2 / 4

## HOLLY PRICE

**Cyfarwyddwr Cynaliadwyedd Grŵp, Grŵp Keltbray**

Holly Price oedd Cyfarwyddwr Hyfforddi a Datblygu Grŵp Keltbray o 2007 tan 2022, gan chwarae rhan hanfodol mewn peirianneg twf cynaliadwy a sylweddol trwy gael y bobl gywir yn y lle cywir ar yr amser cywir. Dechreuodd Holly ei gyrfa yn y diwydiant dymchwel yn 17 oed yn unig, gan hyfforddi i fod yn beiriannydd, ac aeth ymlaen i fod yr unig beiriannydd ffrwydron benywaidd yn Ewrop yn y sector. Drwy gydol ei hamser yn Keltbray, cymerodd Holly yr awenau hefyd ar ddarparu gwerth cymdeithasol a chwaraeodd ran weithredol mewn partneriaethau diwydiant gyda chymdeithasau masnach a sefydliadau addysgol eraill yn hyrwyddo sgiliau yn y sector adeiladu.

Ar ddechrau 2022 penodwyd Holly yn Gyfarwyddwr Cynaliadwyedd Grŵp ac mae ei dull arweinyddiaeth gydweithredol wedi ei rhoi orau i gymryd cyfrifoldeb am weithredu targedau cyhoeddedig Keltbray ar gyfer cynaliadwyedd amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd.

Mae Holly yn hyrwyddo'n weithredol yr angen i ehangu'r gronfa dalent trwy gofleidio amrywiaeth a denu newydd-ddyfodiaid o bob cefndir i'r diwydiant, ac mae hi'n ymgyrchu'n ddiflino dros welliant parhaus safonau'r diwydiant. Mae Holly hefyd yn Is-lywydd Oes Anrhydeddus Ffederasiwn Cenedlaethol Contractwyr Dymchwel, sydd â rheolaeth ariannol y Grŵp Hyfforddi Dymchwel Cenedlaethol, ac yn elwa o gyllid CITB. Mae hi hefyd yn Ymddiriedolwr Construction Youth Trust, sy'n derbyn cyllid CITB i gefnogi pobl ifanc dan anfantais i gael swyddi adeiladu trwy hyfforddiant a mentora.

## SOPHIE SEDDON

**Cyfarwyddwr Anweithredol,**
**Novus Property Solutions**

Mae Sophie Seddon wedi gweithio ym maes adeiladu ers dros 10 mlynedd, ar ôl ymuno â'i busnes teuluol ar ôl graddio mewn Rheolaeth Fusnes. Gan ddechrau ei gyrfa yn Seddon Property Services, roedd Sophie yn allweddol yn ail-frandio'r cwmni i Novus. Fe'i penodwyd yn Bennaeth Ymgysylltu a Chyfathrebu â Chleientiaid yn 2018, cyn dod yn Gyfarwyddwr Pobl a Diwylliant yn 2020 ac yna'n Gyfarwyddwr Anweithredol yn 2022. Mae Sophie yn deall pwysigrwydd meithrin talent ifanc, gan fod Novus yn cynnig nifer o lwybrau i'r diwydiant adeiladu i bobl ifanc. Mae hi'n angerddol am ddefnyddio technoleg newydd, gwella materion cynaliadwyedd, ac annog cynhwysiant o fewn y diwydiant.

Mae Sophie hefyd yn gyfranddaliwr yn JSSH Ltd, daliadau grŵp Novus Property Solutions Ltd ac yn Gyfarwyddwr ac yn gyfranddaliwr yn Hall Estates Ltd, cwmni datblygu eiddo. Yn ogystal, mae Sophie yn aelod o Fwrdd WISH Women in Social Housing (NW), corff sydd â'r grym i fentora, ysbrydoli a darparu cyfleoedd i fenywod mewn tai cymdeithasol trwy rwydweithio a digwyddiadau, a Chadeirydd Bwrdd Rhanbarthol y Gogledd-orllewin ar gyfer Busnes yn y Gymuned (BITC).

## LOUISA FINLAY

**Prif Swyddog Pobl, Kier Construction Ltd**
(ymddiswyddodd 31 Ionawr 2025)

Penodwyd Louisa Finlay yn Brif Swyddog Pobl yng Ngrŵp Kier ym mis Mawrth 2023, yn dilyn mwy na 30 mlynedd o wasanaeth parhaus gyda'r busnes. Yn y rôl hon, mae Louisa yn gyfrifol am Adnoddau Dynol, cynaliadwyedd amgylcheddol a chymdeithasol, iechyd, diogelwch a lles yn ogystal â rheoli asedau a sicrwydd busnes.

Cyn dod yn Brif Swyddog Pobl, bu Louisa yn gweithio mewn amryw o rolau cenedlaethol, rhanbarthol a sector ar draws ei fusnes adeiladu, gan gynnwys fel Rheolwr Gyfarwyddwr y busnes deheuol ac yn fwyaf diweddar fel Rheolwr Gyfarwyddwr y swyddogaeth cleientiaid a marchnadoedd.

Dechreuodd Louisa ei gyrfa fel peiriannydd dan hyfforddiant ar radd rhyngosod. Mae hi'n angerddol am gyflwyno'r genhedlaeth nesaf o seilwaith ledled y DU ac mae wedi ymrwymo i gael diwylliant yn Kier lle mae pawb yn teimlo eu bod yn perthyn, yn cael eu cefnogi ac yn gallu ffynnu.

Mae Louisa yn aelod o'r Sefydliad Siartredig Adeiladu (CIOB) a Chylch Mentora'r Diwydiant Adeiladu ac Eiddo.

## OWAIN JONES

**Cyfarwyddwr, T. Richard Jones (Betws) Ltd**

Mae gan Owain Jones dros 30 mlynedd o brofiad yn y diwydiant adeiladu ar ôl ymuno â'r busnes SME teuluol ar ôl graddio i ddechrau mewn Busnes a Chyllid ac yn ddiweddarach mewn Rheolaeth Adeiladu. Wedi'i leoli yn Ne-orllewin Cymru, cafodd TRJ ei gydnabod yn 2015 fel Cyflogwr Prentis y Flwyddyn CITB ar gyfer Cymru a Phrydain Fawr.

Mae Owain yn Ymddiriedolwr sefydlol ac yn Gadeirydd Sgiliau Adeiladu Cyfle, elusen sy'n gweithredu'r Cynllun Prentisiaeth Adeiladu a Rennir mwyaf yn y DU. Cydnabuwyd cyflawniadau Cyfle gyda dwy Wobr y Frenhines, am arloesedd ac am hyrwyddo cyfleoedd mewn perthynas â symudedd cymdeithasol. Mae Owain wedi bod yn Gyfarwyddwr Gweithredol Cymdeithas Hyfforddiant Adeiladu Sir Gaerfyrddin Cyf ers ei sefydlu ac mae'n angerddol am uwchsgilio'r gweithlu lleol.

Mae Owain yn Ymddiriedolwr Sefydliad Jac Lewis, elusen iechyd meddwl a lles. Yn siaradwr Cymraeg rhugl, mae Owain yn gefnogwr angerddol o'r iaith a'r diwylliant Cymraeg. →

ATODIAD B 3 / 4

## MICHAEL GREEN

**Rheolwr Gyfarwyddwr, RED Systems Ltd**

Mae Michael Green wedi codi drwy'r rhengoedd, o'i leoliad cychwynnol ar Gynllun Hyfforddi Ieuenctid Technegwyr CITB gydag Alfred McAlpine yn Bircham Newton ym 1989, i nawr, mae'n rhedeg ei gwmni gwydro a llenfuriau ei hun, sy'n ehangu'n gyflym, RED Systems.

Wedi'i sefydlu yn 2003, mae'r cwmni wedi tyfu i fod yn fusnes â throsiant o dros £20m ac mae bellach yn un o gontractwyr gwydro arbenigol mwyaf uchel eu parch y diwydiant. Yn eiriolwr angerddol dros hyfforddiant, datblygiad a dyrchafiad proffesiynol, gyda dros 60% o'i dîm ei hun yn astudio am ryw fath o gymhwyster, mae wedi ymrwymo i feithrin sgiliau a denu talent newydd i'r diwydiant. Gyda dros 35 mlynedd o brofiad yn y diwydiant, ac ar ôl cwblhau'r cam mwyaf heriol ar ei daith addysgol ei hun yn ddiweddar, MBA, mae Michael bellach yn aelod o'r Sefydliad Rheoli Siartredig.

Mae Michael hefyd yn Gyfarwyddwr ac yn gyfranddaliwr RED Optimal Ltd, RED Open Ltd a REDLine Facades, yn Rheolwr Gyfarwyddwr M&A Property Ltd, ac yn Gyfarwyddwr Peninsula Multi Academy Trust.

## HERMAN KOK

**Ysgrifennydd y Cwmni, Lindum Group Ltd**

(penodwyd 1 Ebrill 2024)

Herman Kok yw Ysgrifennydd y Cwmni yng Ngrŵp Lindum, lle mae wedi bod yn allweddol wrth yrru strategaeth a llywodraethu sefydliadol. Ymunodd â Lindum ym 1987, ar ôl bod yn Gyfarwyddwr Cyllid i Almet Aluminium ac yn bennaeth Trysorlys i Pechiney Ugine Kuhlmann yn y DU. Fel Ysgrifennydd y Cwmni i Lindum, mae'n arwain y gweithgareddau hyfforddi a chynnwys y gymuned. Mae'n Gyfarwyddwr nifer o gwmnïau Lindum Group Ltd (is-gwmni), y mae'r rhan fwyaf ohonynt yn segur, yn ogystal â Chyfarwyddwr a phrif gyfranddaliwr yn South Park Investments (Lincoln) Ltd.

Herman yw Cadeirydd Investors in Lincoln Ltd, partneriaeth sector cyhoeddus/preifat sy'n ymroddedig i adfywio Lincoln Fwyaf, ac yn gyfarwyddwr Clwb Pêl-droed Dinas Lincoln.

Mae hefyd yn Ymddiriedolwyr gydag Abbey Access Training Ltd, elusen sy'n cynnig rhaglenni sy'n datblygu sgiliau gwirfoddol, hyfforddi ac addysgol a gweithgareddau cymunedol, ac sydd wedi derbyn arian CITB yn y gorffennol; BNA Charitable Incorporated Organisation, elusen annibynnol sy'n rhoi grantiau wedi'i lleoli yn Lincoln; a Chymdeithas Hyfforddi Grŵp Lincoln, a ariennir gan CITB.

Mae hefyd wedi dal swyddi cyfarwyddwr gyda Greater Lincolnshire LEP (GLLEP), Siambr Fasnach Swydd Lincoln ac roedd yn Gadeirydd Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Swydd Lincoln.

## RACHAEL CUNNINGHAM

**Arweinydd Cynigion, Laing O'Rourke**

(penodwyd 1 Ebrill 2024)

Mae Rachael Cunningham yn Arweinydd Cynigion yn Laing O'Rourke. Mae ei rôl yn cyfuno pob agwedd ar ennill gwaith prosiect mawr o fewn y tîm Cleientiaid a Marchnadoedd, o reoli cynigion hyd at gyflawni prosiectau cyn-adeiladu.

Yn ystod gyrfa 17 mlynedd yn y diwydiant adeiladu, mae Rachael wedi bod yn gyfrifol am ennill llawer o brosiectau nodedig ar draws y sectorau cyhoeddus a phreifat, mor amrywiol â phyllau nofio, adeiladau preswyl uchel, ysgolion a phrifysgolion, labordai a phrosiectau portffolio ystadau amddiffyn. Mae Rachael yn angerddol am arddangos y sector adeiladu fel llawer mwy na brics a morter - mae'n ddiwydiant sy'n cyflawni newid cymdeithasol trwy adeiladu asedau sy'n llunio sut rydym yn byw ac yn gweithio. Bydd cefnogi datblygu talent trwy CITB yn sicrhau bod gan unigolion gyfle i fod yn rhan o'r newid cymdeithasol hwnnw i ddiogelu'r diwydiant ar gyfer y dyfodol.

## STEPHEN GRAY

**Pennaeth Datblygu Peirianneg, BAM Nuttall Ltd**

(penodwyd 1 Ebrill 2024)

Penodwyd Stephen Gray yn Bennaeth Datblygu Peirianneg yn BAM Nuttall Ltd yn 2023, yn dilyn gyrfa weithredol yn y diwydiant adeiladu o fwy na 35 mlynedd.

Dechreuodd Stephen ei yrfa ym 1988, fel peiriannydd cynorthwyol gydag Edmund Nuttall Ltd ac mae wedi dal amryw o rolau peirianneg a rheoli prosiectau drwy gydol mwy na 30 mlynedd o wasanaeth gyda BAM yn ne-ddwyrain Lloegr ac o fewn yr uned fusnes Prosiectau Mawr.

Yn ei rôl bresennol, mae Stephen yn ymwneud yn helaeth â phrentisiaid technegol Gyrfaoedd Cynnar, israddedigion a graddedigion, yn enwedig peirianwyr sifil. Mae'n darparu arweiniad ar eu gyrfaoedd technegol a rheoli yn ogystal â llwybrau datblygiad proffesiynol o fewn Sefydliad y Peirianwyr Sifil.

Mae Stephen yn Beiriannydd Sifil Siartredig ac yn aelod o Sefydliad y Peirianwyr Sifil lle mae'n chwarae rhan weithredol wrth adolygu Peirianwyr Siartredig a Chorfforedig yn ogystal â bod yn Aseswr cymeradwy ar gyfer Asesiadau Pwynt Terfynol Prentisiaeth achrededig. →

ATODIAD B 4 / 4

## YMDDIRIEDOLWYR ANNIBYNNOL Y BWRDD

### JULIA HEAP

**Pennaeth a Phrif Swyddog Gweithredol, Coleg a Chanolfan Prifysgol Hopwood Hall**
(penodwyd 1 Ebrill 2024)

Julia Heap yw Pennaeth a Phrif Swyddog Gweithredol Coleg a Chanolfan Prifysgol Hopwood Hall. Yn ei rôl yn arwain coleg addysg bellach, mae Julia yn arwain coleg bywiog a chynhwysol sy'n cynnig cynnig eang o ansawdd uchel o gyrsiau technegol, galwedigaethol, prentisiaethau ac addysg uwch yn Rochdale a Gogledd-ddwyrain Manceinion Fwyaf. Mae Coleg Hopwood Hall yn sefydliad angor yn Rochdale ac mae Julia'n gweithio mewn partneriaeth ar draws Rochdale a Manceinion Fwyaf, gyda chyfrifoldeb am gysylltu strategol â rhanddeiliaid allweddol y cyhoedd a'r diwydiant fel y Llywodraeth, Awdurdod Cyfun Manceinion Fwyaf, Cyngor Rochdale a Grŵp GMColleges.

Cyn ymuno â Choleg Hopwood Hall yn 2015 a chael ei phenodi'n Bennaeth a Phrif Swyddog Gweithredol yn 2019, roedd Julia yn Gyfarwyddwr Cyllid Cynorthwyol i Gyngor Oldham. Gyda dros 25 mlynedd o brofiad ariannol yn y sector cyhoeddus gan gynnwys awdurdodau lleol a'r GIG, mae gan Julia gyfoeth o brofiad o gyflwyno rhaglenni refeniw a chyfalaf cymhleth gwerth miliynau o bunnoedd a chefnogi prosiectau trawsnewid gan weithio mewn timau amlddisgyblaethol.

Mae Julia yn Gymrawd o Sefydliad Siartredig Cyfrifwyr Cyllid Cyhoeddus (FCPFA), yn aelod o fwrdd Asiantaeth Datblygu Rochdale, yn gynghorydd sgiliau i Fwrdd Dyffryn Atom, yn Gyfarwyddwr Ymddiriedolaeth Arloeswyr Rochdale, ac yn arweinydd Gyrfaoedd ar gyfer Grŵp GMColleges.

### NIKKI DAVIS

**Pennaeth a Phrif Swyddog Gweithredol, Coleg Adeiladu Leeds**
(penodwyd 1 Ebrill 2024)

Nikki Davis yw Pennaeth a Phrif Swyddog Gweithredol Coleg Adeiladu Leeds. Ei rôl yng Ngholeg Adeiladu Leeds yw sicrhau darpariaeth rhaglenni addysg o ansawdd uchel i gefnogi'r sector adeiladu a'r amgylchedd adeiledig, gyda ffocws penodol ar brentisiaethau. Mae'r Coleg yn gweithio i wella amrywiaeth yn ei boblogaeth o fyfyrwyr a sicrhau y gall pawb gael mynediad at gyfleoedd gyrfa o fewn y sector adeiladu.

Cyn ymuno â Choleg Adeiladu Leeds, gweithiodd Nikki yng Ngholeg Efrog fel Is-Bennaeth Addysg Dechnegol a Phroffesiynol a chyn hynny bu'n gweithio mewn addysg bellach am dros 20 mlynedd, ar draws sawl coleg yng Ngorllewin Swydd Efrog. Dechreuodd Nikki ei gyrfa yn y sector lletygarwch cyn hyfforddi i addysgu mewn addysg bellach ac mae'n angerddol am ddarparu cyfleoedd i bob myfyriwr.

Mae Nikki hefyd yn Ymddiriedolwr Prifysgol Gelf Leeds, yn ogystal ag yng Nghynghrair Ddysgu Leeds, partneriaeth addysg sy'n canolbwyntio ar ddatblygu arfer cynhwysol. ●

ATODIAD C 1 / 2

# Atodiad C: Presenoldeb y Bwrdd a'r Pwyllgorau

Mae'r tablau canlynol yn cyflwyno presenoldeb aelodau mewn cyfarfodydd drwy gydol y flwyddyn a'r nifer uchaf o gyfarfodydd y gallent fod wedi mynychu.

| PRESENOLDEB Y BWRDD | 2024-25 |
|---|---|
| Syr Peter Lauener KBE, CB (Cadeirydd) | 4/5 |
| Tony Elliott (daeth ei dymor i ben ar 21 Mehefin 2024) | 1/1 |
| Kevin McLoughlin | 5/5 |
| Holly Price | 3/5 |
| Sophie Seddon | 2/5 |
| Owain Jones | 4/5 |
| Michael Green | 3/5 |
| Julia Heap | 4/5 |
| Nikki Davis | 4/5 |
| Rachael Cunningham | 5/5 |
| Stephen Gray | 4/5 |
| Herman Kok | 3/5 |
| Louisa Finlay | 2/4 |
| **Cyfanswm** | **44/60** |

| PRESENOLDEB PWYLLGOR ARCHWILIO A RISG | 2024-25 |
|---|---|
| Syr Peter Lauener KBE, CB (Cadeirydd Dros Dro ar gyfer 2 Mai a 6 Rhagfyr yn unig) | 2/2 |
| Lee Jones | 3/5 |
| Richard Plumb | 4/5 |
| Sophie Seddon | 1/1 |
| Julia Heap (Cadeirydd o fis Gorffennaf 2025) | 3/4 |
| Herman Kok | 3/4 |
| **Cyfanswm** | **16/21** |

| PRESENOLDEB PWYLLGOR ENWEBIADAU, PENODIADAU A CHYFLOGAU | 2024-25 |
|---|---|
| Tony Elliott (Cadeirydd) (daeth ei gyfnod i ben ar 21 Mehefin 2024) | 1/1 |
| Louisa Finlay (Cadeirydd o fis Mehefin 2024 i fis Ionawr 2025) | 4/4 |
| Stephen Gray | 4/4 |
| Nikki Davis (Cadeirydd o fis Chwefror 2025) | 2/4 |
| Syr Peter Lauener KBE, CB | 5/5 |
| Sophie Seddon | 2/5 |
| **Cyfanswm** | **18/23** |

| PRESENOLDEB PWYLLGOR CYLLID DIWYDIANT | 2024-25 |
|---|---|
| Holly Price (Cadeirydd) | 3/3 |
| Steve Drury | 1/1 |
| Kacey O'Driscoll | 2/3 |
| Hannah O'Sullivan | 1/3 |
| Rupert Perkins | 2/2 |
| Claire Smithson | 3/3 |
| Sophie Seddon | 2/3 |
| Stephen Gray | 3/3 |
| Mike Wharton | 1/1 |
| Sarah Garry | 0/1 |
| **Cyfanswm** | **18/23** |

ATODIAD C 2 / 2

| PRESENOLDEB PWYLLGOR STRATEGAETH Y LEFI | 2024-25 |
|---|---|
| Syr Peter Lauener KBE, CB (Cadeirydd Dros Dro o Chwefror 2024) | 1/1 |
| Monique Jones | 1/2 |
| Gareth Davies | 4/4 |
| Neil Rogers | 4/4 |
| Vikki Skene | 2/4 |
| Rob Tansey | 3/4 |
| Annette Jones | 4/4 |
| Ken Miller | 1/2 |
| James Butcher | 3/4 |
| Steve Anderson | 4/4 |
| Rachael Cunningham (Cadeirydd) | 3/3 |
| Herman Kok | 1/3 |
| **Cyfanswm** | **31/39** |

| PRESENOLDEB CYNGOR CENEDL CYMRU | 2024-25 |
|---|---|
| Leigh Hughes (Cadeirydd) | 3/4 |
| Gareth Davies | 3/4 |
| Monique Jones | 3/4 |
| Terry Edwards | 1/4 |
| Andrew Dobbs | 2/4 |
| Owain Jones (Dirprwy Gadeirydd) | 4/4 |
| Paul Tedder | 2/2 |
| Mark Bowen | 3/4 |
| Ian Morgan | 2/3 |
| Martyn Osborn | 3/3 |
| Lisa Kelly-Roberts | 3/3 |
| **Cyfanswm** | **29/39** |

| PRESENOLDEB CYNGOR CENEDL LLOEGR | 2024-25 |
|---|---|
| Sharon Llewellyn (Cadeirydd) | 4/4 |
| Kevin McLoughlin (Dirprwy Gadeirydd) | 4/4 |
| Bola Abisogun | 3/4 |
| Sarah Garry | 3/3 |
| Ian Dickerson | 0/2 |
| Sara Barnes | 3/3 |
| David Sargent | 2/4 |
| Annette Jones | 3/4 |
| Dan Clarkson | 3/3 |
| Matthew Bridge | 3/3 |
| Joanna Poon | 3/3 |
| Janette Welton-Pai | 1/1 |
| **Cyfanswm** | **32/38** |

| PRESENOLDEB CYNGOR CENEDL YR ALBAN | 2024-25 |
|---|---|
| Angela Forbes (Cadeirydd) | 4/4 |
| Tony Elliott (Dirprwy Gadeirydd tan 21 Mehefin 2024, yna'n Aelod) | 2/4 |
| Craig Bruce | 3/4 |
| Marion Forbes | 3/4 |
| Mairi Coleman | 2/3 |
| Kevin Urquhart | 2/4 |
| Ken Millar | 2/4 |
| Callum Smith | 3/3 |
| Peter Tait | 3/3 |
| **Cyfanswm** | **24/33** |

| PRESENOLDEB PWYLLGOR NCC A PHRENTISIAETHAU | 2024-25 |
|---|---|
| Nikki Davis | 3/3 |
| Michael Green (Cadeirydd) | 4/4 |
| Tony Elliott (daeth ei dymor i ben ar 21 Mehefin 2024, yna'n Aelod) | 3/4 |
| Owain Jones | 4/4 |
| **Cyfanswm** | **14/15** |

ATODIAD D 1 / 3

# Atodiad D: Aelodaeth y Bwrdd a'i Bwyllgorau

Mae'r tabl hwn yn dangos yr holl aelodaeth yn ystod y cyfnod o 12 mis rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025.

## ALLWEDD

**CB** Bwrdd CITB
**ARC** Pwyllgor Archwilio a Risg
**NARCO** Pwyllgor Enwebiadau, Penodiadau a Chyflogau
**IFC** Pwyllgor Cyllido'r Diwydiant
**LSC** Pwyllgor Strategaeth y Lefi
**NAC** Pwyllgor NCC a Phrentisiaethau
**CWNC** Cyngor Cenedl Cymru
**ENC** Cyngor Cenedl Lloegr
**SNC** Cyngor Cenedl yr Alban

| NAME | CYFLOWR | CB | ARC | NARCO | IFC | LSC | NAC | CWNC | ENC | SNC |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Bola Abisogun | Digital Twin Skills Academy CIC | | | | | | | | Ie | |
| Steve Anderson | Construction Skills People | | | | | Ie | | | | |
| Craig Bruce | Pert Bruce Construction | | | | | | | | | Ie |
| Mark Bowen | Andrew Scott Ltd | | | | | | | Ie | | |
| Matthew Bridge | Colonial Construction | | | | | | | | Ie | |
| James Butcher | National Federation of Builders | | | | | Ie | | | | |
| Rachael Cunningham | Laing O'Rourke | Ie | | | | Cadeirydd | | | | |
| Mairi Coleman | MacLeod Construction Ltd | | | | | | | | | Ie |
| Gareth Davies | Knox and Wells Ltd | | | | | Ie | | Ie | | |
| Dan Clarkson | Lee Marley Group | | | | | | | | Ie | |
| Ian Dickerson | Kier Group Plc | | | | | | | | Cyfnod wedi dod i ben 31/08/24 | |
| Andrew Dobbs | LiteSteps Ltd | | | | Ie | | | | | |
| Steve Drury | Rooff Limited and Rooff Residential Ltd | | | | Cyfnod wedi dod i ben 18/08/24 | | | | | |
| Terry Edwards | John Weaver Construction | | | | | | | Ie | | |
| Tony Elliott | Robertson Group | Cyfnod wedi dod i ben 21/06/24 | | Cyfnod wedi dod i ben 21/06/24 | | | Ie | | | Ie |
| Louisa Finlay | Kier Group Plc | Ymddiswyddodd 31/01/25 | | Ymddiswyddodd 31/01/25 | | | | | | |
| Angela Forbes | BuildForce | | | | | | | | | Cadeirydd |
| Marion Forbes | AC Whyte & Co Ltd | | | | | | | | | Ie |

ATODIAD D 2 / 3

## ALLWEDD

**CB** Bwrdd CITB
**ARC** Pwyllgor Archwilio a Risg
**NARCO** Pwyllgor Enwebiadau, Penodiadau a Chyflogau
**IFC** Pwyllgor Cyllido'r Diwydiant
**LSC** Pwyllgor Strategaeth y Lefi
**NAC** Pwyllgor NCC a Phrentisiaethau
**CWNC** Cyngor Cenedl Cymru
**ENC** Cyngor Cenedl Lloegr
**SNC** Cyngor Cenedl yr Alban

| NAME | CYFLOWR | CB | ARC | NARCO | IFC | LSC | NAC | CWNC | ENC | SNC |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sarah Garry | Cymdeithas Gofal Eiddo | | | Ie | | | | | Ie | |
| Stephen Gray | BAM Nuttall Ltd | Ie | | Ie | Ie | | | | | |
| Julia Heap | Canolfan Coleg a Phrifysgol Hopwood Hall | Ie | Cadeirydd | | | | | | | |
| Michael Green | RED Systems Ltd | Ie | | | | | Cadeirydd | | | |
| Leigh Hughes | Felicitas Consultancy | | | | | | | Cadeirydd | | |
| Annette Jones | Foundation Developments Ltd | | | | | Ie | | | Ie | |
| Lee Jones | Keir Group Plc | | Ie | | | | | | | |
| Monique Jones | J Randall Roofing Contractors | | | | | Ie | | Ie | | |
| Owain Jones | T Richard Jones (Betws) Ltd | Ie | | | | | Ie | Dirprwy Gadeirydd | | |
| Peter Lauener | Cadeirydd CITB | Cadeirydd | | Ie | | | | | | |
| Lisa Kelly-Roberts | John Kelly Construction | | | | | | | Ie | | |
| Herman Kok | Lindum Group Ltd | Ie | Ie | | | Ie | | | | |
| Sharon Llewellyn | JPR Roofing and Flooring Ltd | | | | | | | | Cadeirydd | |
| Karen McGahan | William Waugh & Sons (Builders) Ltd | | | | | | | | | Ymddiswyddodd 07/05/24 |
| Kevin McLoughlin | Grŵp McLoughlin | Ie | | | | | | | Dirprwy Gadeirydd | |
| Ken Millar | Grŵp Springfield | | | | | Ymddiswyddodd 24/10/24 | | | | Ie |
| Ian Morgan | Morganstone Ltd | | | | | | | Ie | | |
| Kacey O'Driscoll | Grŵp Danny Sullivan | | | | Ie | | | | | |
| Hannah O'Sullivan | VolkerWessels | | | | Ie | | | | | |
| Sarah Barnes | Interclass Plc | | | | | | | | Ie | |
| Rupert Perkins | John Perkins Construction Ltd | | | | Cyfnod wedi dod i ben 18/11/24 | | | | | |
| Martyn Osborne | Borne Consult Ltd | | | | | | | Ie | | |

ATODIAD D 3 / 3

## ALLWEDD

**CB** Bwrdd CITB
**ARC** Pwyllgor Archwilio a Risg
**NARCO** Pwyllgor Enwebiadau, Penodiadau a Chyflogau
**IFC** Pwyllgor Cyllido'r Diwydiant
**LSC** Pwyllgor Strategaeth y Lefi
**NAC** Pwyllgor NCC a Phrentisiaethau
**CWNC** Cyngor Cenedl Cymru
**ENC** Cyngor Cenedl Lloegr
**SNC** Cyngor Cenedl yr Alban

| NAME | EMPLOYER | CB | ARC | NARCO | IFC | LSC | NAC | CWNC | ENC | SNC |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Richard Plumb | Black Swan Internal Audit Services Ltd | | Ie | | | | | | | |
| Holly Price | Grŵp Keltbray | Ie | | | Cadeirydd | | | | | |
| Joanna Poon | Prifysgol Derby | | | | | | | | Ie | |
| Neil Rogers | Ffederasiwn Addurnwyr yr Alban | | | | | Ie | | | | |
| David Sargent | National Infrastructure Solution | | | | | | | | Ie | |
| Maria Seabright | Greendale Construction Ltd | | | | | | | | Ymddiswyddodd 16/05/24 | |
| Sophie Seddon | Novus Property Solutions | Ie | | Ie | Ie | | | | | |
| Vikki Skene | Galliford Try | | | | | Ie | | | | |
| Callum Smith | Revival Joinery | | | | | | | | | Ie |
| Clare Smithson | | | | | Ie | | | | | |
| Peter Tait | DITT Construction Ltd | | | | | | | | | Ie |
| Rob Tansey | Barratt Developments Plc | | | | | Ie | | | | |
| Paul Tedder | Atlantic Dwellings Ltd | | | | | | | Ie | | |
| Kevin Urquhart | Barratt & David Wilson Homes | | | | | | | | | Ie |
| Janette Welton-Pai | Willmott Dixon | | | | | | | | Ie | |
| Mark Wharton | Complete Roofing Systems | | | | Ie | | | | | |

# Atodiad E: Sefydliadau Rhagnodedig

Yn ystod 2024-25, cynhaliodd CITB gysylltiad agos â'r Sefydliadau Rhagnodedig canlynol:

- Ffederasiwn Gwaith Coed Prydain
- Build UK
- Ffederasiwn Cenedlaethol yr Adeiladwyr
- Ffederasiwn Cenedlaethol Contractwyr Dymchwel
- Ffederasiwn Adeiladu'r Alban
- Ffederasiwn Addurnwyr yr Alban
- Cymdeithas Perchnogion Peiriannau'r Alban.
- Ffederasiwn Cenedlaethol Adeiladwyr
- Ffederasiwn Cenedlaethol Contractwyr Dymchwel
- Ffederasiwn Adeiladu'r Alban
- Ffederasiwn Addurnwyr yr Alban
- Cymdeithas Perchnogion Peiriannau'r Alban.

# Atodiad F: Lleoliad Prif Swyddfeydd CITB

### Prif Swyddfa a Swyddfa Gofrestredig

4 Cyrus Way
Hampton
Peterborough
PE7 8HP
Ffôn: 0344 994 4400

### Swyddfa Llundain

Spaces Victoria
25 Wilton Rd
Pimlico
London
SW1V 1LW

### Coleg Adeiladu Cenedlaethol - Dwyrain Lloegr

Bircham Newton
Kings Lynn
Norfolk
PE31 6RH
Ffôn: 0300 456 7841

### Coleg Adeiladu Cenedlaethol - De-ddwyrain Lloegr

Manor Road
Erith
Kent
DA8 2AD
Ffôn: 0300 456 5333

### Coleg Adeiladu Cenedlaethol - Yr Alban

4 Fountain Avenue
Inchinnan Business Park
Inchinnan
Renfrewshire
PA4 9RQ
Ffôn: 0344 994 8800

# Atodiad G: Talfyriadau

| | |
|---|---|
| ALB | Corff Hyd Braich |
| CCS | Gwasanaeth Masnachol y Goron |
| CIOB | Sefydliad Siartredig Adeiladu |
| CIS | Cynllun Diwydiant Adeiladu |
| CPI | Mynegai Prisiau Defnyddwyr |
| DfE | Yr Adran Addysg |
| DWP | Adran Gwaith a Phensiynau'r |
| ECITB | Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu Peirianneg |
| ESFA | Asiantaeth Ariannu Addysg a Sgiliau |
| ESG | Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu |
| ICO | Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth |
| IfATE | Sefydliad Prentisiaethau ac Addysg Dechnegol |
| ISAs | Safonau Archwilio Rhyngwladol |
| ITB | Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant |
| KPI | Dangosydd Perfformiad Allweddol |
| LSC | Pwyllgor Strategaeth y Lefi |
| MMC | Dulliau adeiladu modern |
| NAO | Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol |
| NCC | Coleg Adeiladu Cenedlaethol |
| NDPB | Corff Cyhoeddus Anadrannol |
| NEST | Tîm Cymorth i Newydd-Ddyfodiad |
| OCPA | Swyddfa'r Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus |
| SAP | Rhaglen Sgiliau Cymhwysol Arbenigol |
| SDS | Skills Development Scotland |
| SME | Busnesau bach a chanolig eu maint |
| SORP | Datganiad o Arferion Cymeradwy |
| SSCL | Shared Services Connected Limited |
| SSP | Site Safety Plus |
| STEM | Gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg |

E03394633
978-1-5286-5862-1